


# Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3

Rhan 1: Effeithiau ar y rheini â nodweddion  
gwarchoddedig



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



# Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3

Rhan 1: Effeithiau ar y rheini â nodweddion  
gwarchoddedig

- Cynulleidfa** Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio'n bennaf ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles (mae'r grŵp yn cynnwys y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi; y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth; y Gweinidog Tai ac Adfywio; y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi; a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol) ynghyd â swyddogion polisi a dadansoddi perthnasol.
- (Ers i'r Cabinet gael ei ad-drefnu ac ers i gyfrifoldebau Gweinidogion gael eu diwygio ym mis Mawrth 2013, nid yw'r Gweinidog Addysg a Sgiliau bellach yn cadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles, nac yn rhan ohono. Cadeirydd newydd y Grŵp yw'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gan fod Diwygio Lles bellach yn rhan o'r briff Gweinidogol hwn.)
- Trosolwg** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r dadansoddiad a gynhaliwyd yn fewnol gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru fel rhan o Gam 3 rhaglen ymchwil Llywodraeth Cymru i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 6160  
Ffacs: 029 2082 5350  
e-bost: [welfarereform@cymru.gsi.gov.uk](mailto:welfarereform@cymru.gsi.gov.uk)
- Copiâu ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/cyfiawndercymdeithasol](http://www.cymru.gov.uk/cyfiawndercymdeithasol)

# Cynnwys

<b>Rhestr o acronymau</b>	<b>1</b>
<b>Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol</b>	<b>3</b>
Rhyw	3
Pobl anabl	4
Oedran	5
Hil ac ethnigrwydd	6
Nodweddion gwarchodedig eraill	7
<b>Cyflwyniad</b>	<b>18</b>
<b>Effaith y diwygiadau lles ar y rheini â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru</b>	<b>19</b>
Rhyw	19
Pobl anabl	33
Oedran	50
Hil ac ethnigrwydd	60
Nodweddion gwarchodedig eraill	71
<b>Casgliadau a chamau nesaf</b>	<b>72</b>
Casgliadau	72
Camau nesaf	74
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>75</b>
<b>Atodiad 1: Ystadegau budd-daliadau a chredydau treth</b>	<b>79</b>
Hawlwyr budd-daliadau: grŵp cleientiaid o oedran gweithio	82
Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gofalwr	84
Symud o BA i LCCh	86
Terfyn amser o ran LCCh cyfrannol	88

Dileu amodau cymhwys YG 'ieuenctid' LCCh consesiynol	91
CI	91
BT: meini prawf maint ar gyfer pobl sy'n rhentu yn y SRhC	92
BT: uwchraddio LTLI yn ôl MPD (SRhP)	95
BT: cynyddu trothwy oedran CLIR i 35 oed (SRhP)	97
CTG: elfen gofal plant (Cymru)	97
BDG	98
CBA: Cymru	101
Effaith y diwygiadau lles ar gymhellion ariannol i weithio yng Nghymru	104
<b>Atodiad 2: Rhestr termau</b>	<b>106</b>

## Rhestr o acronymau

AAT	Arolwg Adnoddau Teulu
ABB	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
AGW	Asesiad Gallu i Weithio
BA	Benthyciad Argyfwng
BA	Budd-dal Analluogrwydd
BDG	Budd-dal y Dreth Gyngor
BME	Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
BP	Budd-dal Plant
BT	Budd-dal Tai
CBA	Cronfa Byw'n Annibynnol
CC	Credyd Cynhwysol
CCD	Cronfa Cymorth Dewisol
CDG	Cymorth y Dreth Gyngor
CG	Cronfa Gymdeithasol
CGTG	Cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor
CI	Cymhorthdal Incwm
CLIR	cyfradd llety a rennir
CTG	Credyd Treth Gwaith
CTP	Credyd Treth Plant
CThem	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
GCW	gallu cyfyngedig i weithio
GCWGGG	gallu cyfyngedig i weithio a gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith
GGC	Grant Gofal Cymunedol
GGGG	Grŵp Gweithgareddau sy'n Gysylltiedig â Gwaith
LAD	Lwfans Anabledd Difrifol
LBA	Lwfans Byw i'r Anabl
LCCh	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
LCG	Lwfans Ceisio Gwaith
LG	Lwfans Gweini
LGof	Lwfans Gofalwr
LTLI	Lwfans Tai Lleol
MPD	Mynegai Prisiau Defnyddwyr

MPM	Mynegai Prisiau Manwerthu
OPW	oedran pensiwn y wladwriaeth
PAD	Premiwm Anabledd Difrifol
RhRhU	Rhwymedigaethau Rhieni Unigol
SAC	Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
SRhC	Sector Rhentu Cymdeithasol
SRhP	Sector Rhentu Preifat
SYG	Swyddfa Ystadegau Gwladol
TAB	Taliad Annibyniaeth Bersonol
TTD	taliadau tai dewisol
YG	Yswiriant Gwladol

## Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles wedi comisiynu rhaglen ymchwil tri cham er mwyn dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.
- Mae'r adroddiad hwn yn rhan o ymchwil Cam 3 ac mae'n anelu at ddarparu sail dystiolaeth (lle bynnag bo modd) ar effeithiau posibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru. Mae'n edrych ar y niferoedd yr effeithir arnynt, effeithiau ar incwm, tlodi a chymhellion i weithio<sup>1</sup>, ac effeithiau ehangach fel mynediad ar-lein. Amlinellir canfyddiadau allweddol yr ymchwil hon isod ac fe'u crynhoir yn y tabl ar dudalennau 8-17.
- Nid yw'r rheolau o ran budd-daliadau yn gwahaniaethu rhwng gwahanol rywiau a grwpiau ethnig. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai grwpiau ar eu colled yn fwy nag eraill yn sgil newidiadau Llywodraeth y DU i fudd-daliadau am fod nodweddion eraill fel incwm, lefelau sgiliau, cymwysterau, y defnydd o amser (e.e. oriau a weithiwyd) a strwythur y teulu yn gallu bod yn wahanol rhwng y grwpiau hyn.
- Ar gyfer anabledd ac oedran, mae'r rheolau o ran budd-daliadau yn amrywio yn ôl angen. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd hawliwr anabl yn cael symiau gwahanol o fudd-daliadau o ganlyniad i'w statws anabl o gymharu â hawliwr nad yw'n anabl sydd fel arall yn union yr un peth. Yn yr un modd, ceir rheolau sy'n ymwneud ag oedran yn y system budd-daliadau. Felly, bydd p'un a yw hawliwr yn anabl/ddim yn anabl neu'n iau/hŷn yn cael effaith ar y graddau y mae'r diwygiadau lles yn effeithio arno. Mae nodweddion dylanwadol eraill (fel y nodwyd uchod) hefyd yn amrywio rhwng y grwpiau hyn.

## Rhyw

- Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol o deimlo effaith y diwygiadau lles ac yn dueddol o golli'r mwyaf/ennill y lleiaf o gymharu â dynion.
- Ymhlith y prif ddiwygiadau a gaiff effaith andwyol ar fwy o fenywod na dynion mae'r canlynol:

---

<sup>1</sup> Gall y cymhelliant i fod mewn gwaith â thâl o gwbl (yn hytrach na pheidio â gweithio) gael ei fesur gan ddefnyddio'r gyfradd dreth cyfranogi, sef cyfran yr holl enillion gros a gollir ar ffurf treth a budd-daliadau a gaiff eu tynnu'n ôl. Gall y cymhelliant i'r rheini mewn gwaith gynyddu eu henillion (naill ai drwy weithio mwy o oriau, mynd am ddyrchafiad neu symud i swydd sy'n talu mwy) gael ei fesur gan y gyfradd dreth effeithiol ymylol, sef cyfran cynnydd bach mewn enillion a gollir mewn treth a budd-daliadau a gaiff eu tynnu'n ôl. Yn y ddau achos, mae niferoedd uwch yn golygu cymhellion gwannach i weithio. Ymhlith y cymhellion anariannol i weithio mae'r broses symleiddio yr anelir ati o dan y system Credyd Cynhwysol ac ehangu gofynion chwilio am waith i fwy o bobl.

- cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Budd-dal Plant (BP)
  - meini prawf maint yn y Sector Rhent Cymdeithasol (SRhC)
  - cap ar fudd-dal cartrefi
  - sgil-ffeithiau'r diwygiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl ar hawlwy'r Lwfans Gofalwyr (LGof)
  - ymestyn Rhwymedigaethau Rhieni Unigol (RhRhU).
- Fodd bynnag, ceir rhai diwygiadau, fel y rheini sy'n ymwneud â Budd-dal Analluogrwydd (BA) a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh), sy'n cael effaith negyddol ar fwy o ddynion na menywod.
  - O ran yr effeithiau cyfartalog ar incwm, o gymharu â dynion, disgwylir i fenywod golli'r mwyaf/ennill y lleiaf yn sgil nifer o ddiwygiadau gan gynnwys Credyd Cynhwysol (CC), er enghraifft.
  - Drwyddi draw, mae rhieni unigol nad ydynt yn gweithio (y mae tua 90 y cant ohonynt yn fenywod) yn un o'r grwpiau a fydd yn gweld y colledion mwyaf o ran incwm.
  - Atgyfnerthir yn sylweddol y cymhelliant i rieni unigol weithio mwy o oriau. Fodd bynnag, bydd y diwygiadau yn golygu bod gan gyplau fwy i'w golli os bydd ail enillydd yn gweithio. O ystyried mai menywod sy'n ail enillwyr yn bennaf, byddant yn wynebu mwy o effeithiau andwyol o ran cyflogaeth na dynion.
  - Yn gyffredinol, gwneir un taliad CC fesul cartref. Gwneir taliad i un aelod o'r cartref, sef pennaeth yr uned budd-daliadau fel arfer. Yn achos cyplau, y dyn fydd hwn fwy na thebyg, a allai roi'r fenyw dan anfantais bosibl.

## **Pobl anabl<sup>2</sup>**

- Mae newidiadau mawr wedi cael eu gwneud i fudd-daliadau anabledd a salwch eisoes ac mae mwy i ddod eleni.
- Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi rhai mesurau ar waith i warchod pobl anabl drwy eithriadau a thaliadau tai dewisol (TTD) uwch, bydd effeithiau sylweddol ar bobl anabl yng Nghymru. Mae'r rhain yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy nag yn y DU gyfan o ystyried y ddibyniaeth gymharol uchel ar fudd-daliadau anabledd a salwch yng Nghymru.
- Gwelir effeithiau penodol ar bobl anabl o ganlyniad i newidiadau i fynegeio budd-daliadau a chredydau treth, LBA, BA/LCCh, CC a Budd-dal Tai (BT).

---

<sup>2</sup> Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau ynghylch effaith y diwygiadau lles ar y cymhelliant i weithio neu gynyddu enillion yn cynnwys rhai diwygiadau pwysig i fudd-daliadau anabledd (yn enwedig symud gweddill y bobl sy'n hawlio BA i LCCh a'r broses gysylltiedig o ailasesu cyflyrau iechyd, sy'n dileu'r hawl i gael budd-daliadau yn achos llawer o bobl). Mae'r canfyddiadau'n ymwneud â'r diwygiadau a fodelwyd gan Adam a Phillips (2013) yn unig. Hefyd, mae rhai o'r canfyddiadau'n seiliedig ar samplau bach (e.e. 53 o hawlwy'r budd-daliadau anabledd mewn rhai achosion) ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail sampl mor fach.



Hefyd, bydd effeithiau andwyol ar ofalwyr pobl anabl. Er enghraifft, efallai y byddant yn colli eu hawl i gael LGof yn sgil symud o LBA i'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (TAB) ac, yn dilyn cyflwyno CC, dim ond elfen gofalwr neu anabledd y bydd hawl gan ofalwr i'w chael, nid y ddwy. Mae hyn yn golygu y bydd rhai gofalwyr â phroblemau iechyd yn waeth eu byd.

- Bydd strwythur CC yn cynnwys nifer o newidiadau eraill i bobl anabl. Yn fwy penodol, gallai rhai plant anabl, pobl anabl sydd heb oedolyn i'w helpu, a phobl anabl mewn gwaith golli rhai o'r ychwanegiadau anabledd a gânt o dan y system budd-daliadau bresennol. Fodd bynnag, noda'r Adran Gwaith a Phensiynau ei bod yn bwriadu ailddosbarthu'r arbedion a wneir yn sgil toriadau o'r fath i'r oedolion â'r anabledau mwyaf difrifol, a bydd gan rai hawlwr hawl hefyd i gael diogelwch trosiannol.
- O dan CC, bydd y cynnydd misol cyfartalog mewn hawliadau i gartrefi â pherson anabl yn llai nag ar gyfer pob cartref sy'n cael CC.
- Caiff y cymhelliant i weithio ei atgyfnerthu i'r rheini sy'n cael budd-dal anabledd eu hunain neu sydd â phartner sy'n cael budd-dal anabledd. Mae hyn yn cael ei lywio gan y ffaith bod terfyn amser ar LCCh cyfrannol (a fydd, mewn rhai achosion, yn arwain at leihau incwm allan o waith yn sylweddol) a chyflwyno CC yn y drefn honno.
- I'r rheini sydd eisoes yn gweithio ac yn cael budd-dal anabledd, disgwylir i'w cymhelliant i gynyddu enillion wella'n sylweddol, oherwydd CC yn bennaf. Fodd bynnag, bydd y sawl sy'n gweithio â phartner sy'n cael budd-dal anabledd yn profi llai o gymhelliant i gynyddu eu henillion, oherwydd CC a'r toriadau lles.
- Mae pobl anabl yn gymharol lai tebygol o fyw mewn cartrefi â mynediad i'r rhyngwyd ac felly efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd gwneud hawliadau am CC ar-lein. Gall rhai mathau o namau hefyd ei gwneud hi'n anos i bobl anabl ddefnyddio'r system hawlio ar-lein.

## Oedran

- Ar y cyfan, nid yw'r diwygiadau lles yn effeithio ar bensynwyr gan fod y rhan fwyaf o'r rhain yn gymwys i fudd-daliadau oedran gweithio.

Bydd mwy o bobl iau na phobl hŷn o oedran gweithio yn profi effaith andwyol rhai o'r diwygiadau fel dileu amodau cymhwyso Yswiriant Gwladol (YG) 'ieuenctid' LCCh consesiynol a chynyddu trothwy oedran y gyfradd llety a rennir (CLIR). Er y bydd diwygiadau eraill fel y rhai i LBA, pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh a lleihau BP i deuluoedd sy'n cynnwys rhywun sy'n ennill dros £50,000 yn effeithio ar fwy o bobl hŷn na phobl iau o oedran gweithio.

- Ar gyfartaledd, bydd pobl hŷn o oedran gweithio yn colli incwm o dan CC tra bydd pobl iau yn gweld eu hincwm yn cynyddu.

- Bydd gan y rheini rhwng 55 oed ac oedran pensiwn y wladwriaeth (OPW) fwy o gymhelliant i wneud gwaith â thâl na phobl iau.
- Bydd y rheini sy'n 55 oed neu drosodd ac sy'n gweithio hefyd yn profi mwy o gymhelliant i gynyddu eu henillion, er bod y gwelliant hwn yn fwy i'r rheini rhwng 25 a 54 oed. Fodd bynnag, bydd cymhelliant y rheini sydd o dan 25 oed ac mewn gwaith i gynyddu eu henillion yn wannach.
- Mae pobl hŷn yn gymharol lai tebygol o ddefnyddio'r rhyngwyd ac felly efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd gwneud hawliadau ar-lein.

### **Hil ac ethnigrwydd<sup>3</sup>**

- Mae rhai o'r diwygiadau lles, fel y cap ar fudd-dal cartrefi, yn debygol o gael effaith anghymesur ar rai hawlwr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) oherwydd nodweddion rhai o'r cartrefi hyn (e.e. teuluoedd mwy o faint ymhlith rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, oriau a gaiff eu gweithio, ac ati). Mae diwygiadau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â LBA, BA/LCCh a chyflwyno'r meini prawf o ran maint ar gyfer hawlwr BT yn yr SRhC, yn fwy tebygol o gael effaith andwyol ar hawlwr gwyn.
- Ar gyfartaledd, mae disgwyl i'r CC arwain at gynnydd incwm sylweddol uwch mewn cartrefi lle ceir oedolyn o gefdir ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â'r holl gartrefi.
- Bydd y diwygiadau lles yn atgyfnerthu'r cymhelliant i bobl wyn weithio, ac i'r un graddau â'r hyn a welir ar gyfer y boblogaeth gyfan, ar gyfartaledd. Fodd bynnag, disgwylir i'r cymhelliant i bobl nad ydynt yn wyn weithio wanhau. Yn bwysicaf oll, y rheswm dros hyn yw bod pobl nad ydynt yn wyn yn fwy tebygol o fod â mwy o blant dibynnol na phobl wyn, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm allan o waith yn cynyddu o ganlyniad i gynnydd mewn Credydau Treth Plant (CTP). O ganlyniad bydd y cymhelliant i weithio yn gwanhau.
- I'r rheini sy'n gweithio, disgwylir i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn weld y cymhelliant i gynyddu eu henillion yn gwella. Fodd bynnag, mae'r gwelliant i grwpiau nad ydynt yn wyn yn debygol o fod yn llai. Unwaith eto, mae hyn yn debygol o ddeillio o nodweddion eraill fel lefelau enillion.
- Gall materion ieithyddol beri problemau i rai pobl o leiafrifoedd ethnig (e.e. mudwyr diweddar a rhai ffoaduriaid) o ran defnyddio'r system CC ar-lein.

---

<sup>3</sup> Defnyddir terminoleg amrywiol drwy gydol yr adroddiad i ddisgrifio grwpiau ethnig penodol (e.e. gwyn, nad ydynt yn wyn, BME ac ati). Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn gyson â therminoleg y ffynhonnell ddata y daeth ohoni. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y samplau ar gyfer pobl nad ydynt yn wyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil i effaith y diwygiadau lles ar gymhellion i weithio (Adam a Phillips, 2013) yn fach (e.e. 110 o bobl nad ydynt yn wyn mewn rhai achosion) sydd felly'n effeithio ar ei chadernid ac yn ei gwneud hi'n anodd gwneud llawer o ddatgrynhoi er mwyn ceisio egluro'r gwahaniaethau mewn canlyniadau.

## **Nodweddion gwarchoddedig eraill**

- Yn ogystal â'r grwpiau cydraddoldeb uchod, mae deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol hefyd yn cwmpasu trawsrywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd/mamolaeth, priodas a phartneriaethau sifil. Gan nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cadw'r wybodaeth hon ar ei system weinyddol (heblaw am wybodaeth am feichiogrwydd a mamolaeth, a gedwir rhag ofn mai dyma'r prif reswm dros analluogrwydd), nid oes modd asesu'n gywir effaith y diwygiadau lles ar y grwpiau cydraddoldeb hyn. Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi, mewn nifer o'i hasesiadau effaith, o ystyried yr hyn y mae'n ei wybod am ddylunio polisi a grwpiau cwsmeriaid, nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau andwyol ar sail unrhyw un o'r rhesymau hyn.

Ceir tabl sy'n crynhoi prif ganfyddiadau'r adroddiad ymchwil hwn ar dudalennau 8-17.

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>CC</b>	<p>Dynion sengl i gael mwy o fudd na menywod sengl.</p> <p>Gwell cymhelliant i rieni unigol (y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fenywod) fod mewn gwaith â thâl a bydd y rheini sy'n gweithio yn profi cymhelliant llawer cryfach i weithio mwy o oriau.</p> <p>Effaith andwyol ar gymhellion i weithio cyplau ag ail enillydd. Menywod yw'r ail enillwyr mewn cyplau'n bennaf.</p> <p>Bydd tua 70 y cant o'r partneriaid y bydd y gofynion estynedig sy'n canolbwyntio ar waith o dan CC yn effeithio arnynt yn fenywod.</p>	<p>Mae cartrefi â pherson anabl yn debygol o weld llai o gynnydd mewn hawliadau.</p> <p>Effeithiau penodol ar incwm rhai plant anabl, pobl anabl sydd heb oedolyn i'w helpu, pobl anabl mewn gwaith, a gofalwyr anabl.</p> <p>Bydd y cymhelliant i fod mewn gwaith yn gostwng ychydig i'r rheini sy'n cael budd-dal anabledd eu hunain, tra bydd y rhai sydd â phartner sy'n cael budd-dal anabledd yn gweld effaith sylweddol.</p>	<p>Bydd cartrefi lle mae'r pennaeth dros 50 oed yn gweld eu hawliad yn gostwng ar gyfartaledd. I'r gwrthwyneb, bydd cartrefi lle mae'r pennaeth o dan 25 oed yn gweld eu hawliad yn cynyddu ar gyfartaledd.</p> <p>Bydd gan y rheini rhwng 55 oed ac OPW fwy o gymhelliant i wneud gwaith â thâl na phobl iau.</p> <p>Mae'r gwelliant yn y cymhelliant i bobl rhwng 25 a 54 oed sy'n gweithio i weithio mwy o oriau (ennill mwy) yn fwy nag y mae ar gyfer pobl hŷn.</p> <p>Mae'r cymhellion i weithio mwy o oriau yn dirywio i'r rheini o dan 25 oed.</p>	<p>O ran yr effaith ar incwm, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dueddol o gael mwy o fudd na'r boblogaeth gyffredinol.</p> <p>Mae'r cymhelliant i grwpiau gwyn weithio yn debygol o fod yn fwy nag ar gyfer grwpiau nad ydynt yn wyn ar gyfartaledd.</p> <p>Bydd hawlwyr mewn gwaith nad ydynt yn wyn yn gweld mwy o welliant ar gyfartaledd yn y cymhelliant i gynyddu enillion o gymharu â hawlwyr gwyn mewn gwaith.</p> <p>Bydd tua 15 y cant o'r partneriaid y bydd y gofynion diwygiedig o ran amodau yn effeithio arnynt o dan CC yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig.</p>

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>CC (parhad)</b>	Gwneir un taliad CC i gyplau; mae'n debygol mai'r dyn a gaiff y taliad hwn, a allai roi'r fenyw dan anfantais bosibl.	<p>Mae'r cymhellion yn dirywio i'r rheini mewn gwaith sydd â phartner sy'n cael budd-dal anabledd.</p> <p>Bydd ychydig dros chwarter y partneriaid y bydd y trefniadau diwygiedig o ran chwilio am waith o dan CC yn effeithio arnynt yn anabl.</p> <p>Mae pobl anabl yn gymharol lai tebygol o fyw mewn cartrefi â mynediad i'r rhyngrwyd ac felly efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd gwneud hawliadau am CC ar-lein.</p>	<p>Gwelir mwy o effaith andwyol ar hawliadau newydd cyplau ag un partner o dan ac un partner dros oedran ymddeol na chyplau lle mae'r ddau bartner o dan oedran ymddeol.</p> <p>Mae pobl hŷn yn gymharol lai tebygol o fyw mewn cartrefi â mynediad i'r rhyngrwyd ac efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd gwneud hawliadau am CC ar-lein.</p>	Gall materion ieithyddol hefyd beri problemau i rai lleiafrifoedd ethnig o ran defnyddio'r system CC ar-lein.

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau ar sail MPD (yn lle MPM neu Rossi)</b>	Dynion yn wynebu ychydig mwy o risg o brofi effaith. Nid yw colledion incwm yn ôl rhyw yn glir ar hyn o bryd.	Caiff pobl anabl eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith y sawl sy'n derbyn budd-daliadau/credydau treth ac felly maent yn wynebu mwy o risg o brofi effaith.  Gall hawlwy'r anabl weld mwy o golledion ar gyfartaledd na hawlwy'r nad ydynt yn anabl.	Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a data poblogaeth ar gyfer Cymru yn awgrymu bod y rheini rhwng 16 a 44 oed wedi'u tangynrychioli ychydig yn llwyth achos hawlio budd-daliadau. Ar y llaw arall, mae'r rheini rhwng 45 a 59 oed wedi'u gorgynrychioli ac felly maent yn fwy tebygol o brofi effaith y mesur hwn. Nid yw colledion incwm yn ôl oedran yn glir ar hyn o bryd.	Ni nodwyd unrhyw effaith anghymesur ar y niferoedd yr effeithir arnynt yn ôl ethnigrwydd. Mae rhai grwpiau ethnig yn llawer llai tebygol o hawlio budd-daliadau a chredydau treth, gan olygu eu bod yn llai tebygol o brofi effaith y newid hwn. Nid yw colledion incwm yn ôl grŵp ethnig yn glir ar hyn o bryd.
<b>Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a BP</b>	Menywod yn wynebu mwy o risg o brofi effaith andwyol na dynion.	O ganlyniad i eithriadau, nid effeithir ar nifer sylweddol o gartrefi sy'n cael budd-daliadau anabledd. Serch hynny, am fod budd-daliadau eraill nad ydynt wedi'u heithrio yn cael eu derbyn, bydd mwy o gartrefi sy'n cynnwys person anabl yn profi effaith na chartrefi heb unrhyw un anabl.	Pensiynwyr yw'r grŵp sydd leiaf tebygol o brofi effaith gan fod y newidiadau yn gymwys i fudd-daliadau oedran gweithio yn bennaf.	Ni roddwyd unrhyw ddadansoddiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Cap ar fudd-dal cartrefi</b>	Mae cyfran sylweddol fwy o fenywod sengl yn profi effaith na dynion sengl.	Er gwaethaf rhai eithriadau i hawl wyr anabl (hawl wyr LBA a derbynwyr anabl mwyaf difrifol LCCh), bydd 50 y cant o'r cartrefi yr effeithir arnynt yn cynnwys rhywun yr ystyrir ei fod yn anabl.	Yn gymwys i fudd-daliadau oedran gweithio yn unig.  Mae 80 y cant o'r cartrefi yr effeithir arnynt rhwng 25 a 44 oed gyda'r rhan fwyaf o'r 20 y cant sy'n weddill yn debygol o fod yn 45 oed neu'n hŷn (gan fod y rheini o dan 25 oed yn dueddol o gael llai o fudd-daliadau ac yn llai tebygol o fod â phlant).	Amcangyfrifir bod 40 y cant o'r cartrefi y mae'r cap yn effeithio arnynt yn cynnwys rhywun o gefndir lleiafrifoedd ethnig (lefel Prydain Fawr) - cyfran sylweddol uwch nag yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol).
<b>Cyflwyno LCCh yn lle BA</b>	Yn fwy tebygol o effeithio ar ddynion na menywod.	Effaith anghymesur ar bobl anabl yn enwedig y rheini ag anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol.	Yn fwy tebygol o effeithio ar y rheini rhwng 35 a 64 oed.	Mae risg y bydd mwy o effaith andwyol ar dderbynwyr gwyn na phobl o grwpiau ethnig eraill (ar wahân i'r rheini ag ethnigrwydd cymysg).

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol heblaw am y bobl anabl fwyaf difrifol</b>	Mae dynion yn fwy tebygol o brofi effaith andwyol na menywod. Fodd bynnag, mae'r golled gyfartalog yn incwm net cartrefi yn uwch i fenywod na dynion.	<p>Effaith anghymesur ar bobl anabl, yn enwedig y rheini ag anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol a'r rheini â chlefydau'r system gyhyrsgerbydol a meinwe gysylltiol.</p> <p>Efallai y bydd hawliad LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm a budd-daliadau 'pasbort' yn gwneud iawn, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, am yr eithriadau i gyfyngu ar effeithiau ar y bobl anabl fwyaf difrifol ac unigolion ag incwm isel neu heb unrhyw incwm arall.</p>	Mae'r rheini rhwng 50 a 64 oed yn fwy tebygol o brofi effaith. Bydd y grŵp oedran hwn hefyd yn gweld mwy o golledion ar gyfartaledd na grwpiau oedran iau.	<p>Mae risg bod hawlwyd gwyn yn fwy tebygol o deimlo effaith andwyol na phobl mewn grwpiau ethnig eraill (heblaw am y rheini o grwpiau ethnig cymysg).</p> <p>Disgwylir i golledion cyfartalog mewn incwm net fod yn uwch i hawlwyd gwyn na hawlwyd o leiafrifoedd ethnig.</p>
<b>Dileu amodau cymhwyso YG 'ieuenctid' LCCh consesiynol</b>	Mwy tebygol o gael effaith anghymesur ar ddynion na menywod.	Effaith anghymesur ar bobl anabl, yn enwedig y rheini â chyflyrau meddyliol ac ymddygiadol a'r rheini â chlefydau'r system nerfol.	Gwelir effaith anghymesur ar bobl ifanc anabl (o dan 25 oed).	Mae risg bod hawlwyd gwyn yn fwy tebygol o deimlo effaith andwyol na phobl mewn grwpiau ethnig eraill (heblaw am y rheini o grwpiau ethnig cymysg).



Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>LBA, TAB a LGof</b>	<p>LBA/TAB: dim effaith anghymesur o ran rhyw.</p> <p>Effaith andwyol ar ofalwyr; mwy tebygol o effeithio ar fenywod na dynion.</p>	<p>LBA/TAB: bydd y rhan helaeth o dderbynwyr yr effeithir arnynt yn anabl (yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae'r rheini ag arthritis, seicosis ac anawsterau dysgu yn wynebu mwy o risg o brofi effaith y diwygiad hwn.</p> <p>Effaith anghymesur ar ofalwyr: mwy tebygol o effeithio ar bobl anabl.</p>	<p>LBA/TAB: gwelir yr effeithiau cychwynnol ar dderbynwyr o oedran gweithio. Mwy tebygol o effeithio ar bobl o 50 i 64 oed.</p> <p>Effaith anghymesur ar ofalwyr: mwy o bobl rhwng 35 a 64 yn profi effaith na grwpiau oedran eraill.</p>	<p>LBA/TAB: mae'r rheini o gefndir gwyn yn wynebu ychydig mwy o risg o brofi effaith.</p> <p>Effaith andwyol debygol ar ofalwyr, ond dim data cadarn ar gael.</p>
<b>Dod â'r CBA i ben</b>	<p>Nid yw'n debygol y gwelir effaith uniongyrchol yn ôl rhyw. Effaith andwyol anuniongyrchol ar ofalwyr yn bosibl os bydd yr angen am ofal anffurfiol yn cynyddu; mwy tebygol o effeithio ar fenywod na dynion.</p>	<p>Bydd effaith anghymesur ar y grŵp hwn.</p> <p>Effeithir ar fwy o bobl ag anabledau dysgu difrifol, parlys yr ymennydd a syndrom Down na'r rheini â chyflyrau meddygol sylfaenol eraill.</p>	<p>Y grwpiau lleiaf o ddefnyddwyr CBA yw'r ystod oedran ieuengaf (16-25 oed) a hynaf (56+ oed) a chaiff y rhain eu tangynrychioli yn llwyth achos CBA o gymharu â'r boblogaeth gyfan. Yn fwy tebygol o effeithio ar ddefnyddwyr CBA rhwng 26 a 55 oed.</p>	<p>Ychydig o ddata sydd ar gael ac nid oes modd nodi'n fanwl yr effeithiau ar unrhyw grŵp ethnig penodol.</p>

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Dod â'r CBA i ben (parhad)</b>	Caiff dyfodol CBA yng Nghymru ei ystyried. Cynhelir ymgynghoriad ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod haf 2013.			
<b>CG/CGD</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau anghymesur o ran rhyw.	Caiff llai o bobl eu cofrestru'n anabl na'r boblogaeth 16-64 oed yn gyffredinol.	Mae'r rheini rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 39 oed yn fwy tebygol o wneud cais na'r rheini rhwng 55 a 69 ied a 70 oed a throsodd.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau anghymesur o ran tarddiad ethnig.
	Dim ond traean o hawlwr CGD sydd wedi rhoi gwybodaeth am bob un o'r nodweddion gwarchoddedig hyn. Nid ydym yn gwybod a yw'r ymatebwyr hyn yn cynrychioli'r hawlwr cyffredinol.			
<b>CDG (2013-14)</b>	Bydd yn diogelu incwm menywod a dynion, ond bydd mwy o fenywod yn cael budd o gyfansoddiad demograffig hawlwr.	O ystyried bod cartrefi sy'n cynnwys oedolyn sy'n cael budd-dal sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cyfrif am 57 y cant o wariant BDG yng Nghymru, bydd y cynllun CDG yn 2013-14 o fudd penodol i'r cartrefi hyn.	Bydd yn arbennig o fuddiol i'r rheini sy'n 65 oed a throsodd o ystyried eu bod yn cynrychioli'r grŵp mwyaf o dderbynwyr ac yn cyfrif am 40 y cant o wariant CDG. Bydd mwy na 43,000 o gartrefi yng Nghymru hefyd yn cael budd o Grant Pensiynwyr CDG.	Ni nodwyd unrhyw effaith anghymesur ar y niferoedd yr effeithir arnynt yn ôl ethnigrwydd.

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Rhoi'r gorau fesul cam i dalu BP i deuluoedd lle mae aelod yn ennill mwy na £50,000</b>	Ni nodwyd unrhyw faterion sylweddol o ran rhyw.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar y grŵp hwn.	Mae'r polisi hwn yn debygol o effeithio ar fwy o bobl yn y grŵp oedran 51 i 65 oed na grwpiau oedran eraill am eu bod, ar y cyfan, yn fwy tebygol o fod yn enillwyr uchel â phlant.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar y grŵp hwn.
<b>Newidiadau i reolau oriau cymwys CTG</b>	Dim data ar gael.	Efallai yr effeithir ar gartrefi ag aelod anabl ond mae eithriadau i liniaru effeithiau ar gartrefi cyplau ag aelod anabl.	Dim data ar gael.	Bydd effaith anghymesur ar grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
<b>Dileu cymhwysedd CI i rieni unigol yn seiliedig ar oedran eu plentyn ieuengaf</b>	Mae menywod yn llawer mwy tebygol o brofi effaith andwyol na dynion.	Mae rhieni unigol yn fwy tebygol o fod yn anabl na'r boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol. Dylai eithriadau'r Adran Gwaith a Phensiynau liniaru effeithiau andwyol ar y rheini â phlentyn sydd â chyflwr iechyd neu anabledd.	Effeithir ar fwy o rieni unigol iau (rhwng 25 a 34 oed), a gaiff ei liniaru'n rhannol, efallai gan y ffaith eu bod yn fwy tebygol o ymuno â'r farchnad lafur na grwpiau hŷn.  Bydd rhieni unigol o dan 18 oed sydd â phlentyn ieuengaf pump oed yn dal i fod yn gymwys i gael CI.	Mae cyfran gymharol fawr o rieni unigol â phlentyn ieuengaf sy'n bump neu'n chwech oed o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae cyfraddau cyflogaeth rhieni unigol o leiafrifoedd ethnig yn gymharol isel, gan awgrymu y bydd y grŵp hwn yn ei chael hi'n anos dod o hyd i waith ar ôl colli CI. Gall rhwystrau ieithyddol a gofal plant hefyd danseilio'r siawns o ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith.

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn yr SRhC</b>	Mae menywod sengl yn fwy tebygol o brofi effaith andwyol na dynion sengl a chyplau.	Bydd eithriadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwarchod rhai pobl anabl. Fodd bynnag, bydd mwy o'r cartrefi yr effeithir arnynt yn cynnwys person anabl na'r rheini sy'n cynnwys hawlwr nad ydynt yn anabl. Mae £25 miliwn ychwanegol o gyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gael yn 2013/14 a 2014/15 i helpu hawlwr anabl i aros mewn eiddo sydd wedi cael ei addasu'n sylweddol ar gyfer eu hanghenion unigol.	Yn gymwys i hawlwr o oedran gweithio.  Effeithir ar fwy o hawlwr hŷn o oedran gweithio na hawlwr iau, yn aml am fod eu plant sydd wedi tyfu i fyny wedi gadael gartref.  Hawlwr hŷn o oedran gweithio hefyd yn gweld mwy o ostyngiad yn eu hincwm, ar gyfartaledd.	Mae'r mesur hwn yn llai tebygol o effeithio ar hawlwr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig na hawlwr gwyn.  Bydd cartrefi BME yr effeithir arnynt yn gweld mwy o golled ar gyfartaledd bob wythnos o gymharu â hawlwr gwyn.
<b>Cynyddu cyfraddau LTLI yn unol â MPD yn hytrach na rhenti gwirioneddol</b>	Mae menywod sengl yn fwy tebygol o brofi effaith andwyol na dynion sengl a chyplau ac maent hefyd yn debygol o weld mwy o golledion incwm.	Ni nodwyd effaith anghyfartal.	Yn effeithio ar bobl rhwng 25 a 44 oed fwyaf am eu bod yn fwy tebygol o hawlio a chael taliadau uwch ac felly yn debygol o golli mwy o incwm.	Ni nodwyd unrhyw effaith anghymesur ar y niferoedd yr effeithir arnynt yn ôl ethnigrwydd.

Newid polisi	Nodi effeithiau anghymesur yn ôl grŵp cydraddoldeb			
	Rhyw	Anabledd	Oedran	Hil
<b>Torri LTLI (i'r CLIR) ar gyfer oedolion sengl rhwng 25 a 34 oed heb blant</b>	Mae dynion sengl yn fwy tebygol o brofi effaith andwyol na menywod sengl.	Bydd rhai pobl anabl yn profi effaith andwyol ond bydd eithriadau yn lliniaru rhai o'r effeithiau ar y grŵp hwn.	Bydd y polisi hwn yn effeithio ar oedolion rhwng 25 a 34 oed.	Ni nodwyd unrhyw effaith anghymesur ar y niferoedd yr effeithir arnynt yn ôl ethnigrwydd.
<b>Effaith gronol</b>	<p>Bydd rhieni unigol nad ydynt yn gweithio (y mae tua 90 y cant ohonynt yn fenywod) yn gweld rhai o'r colledion mwyaf o ran incwm.</p> <p>Nid yw'r cymhellion i rieni unigol (menywod yn bennaf) ddechrau gweithio yn newid fawr ddim. Mae'r cymhellion i rieni unigol weithio yn cynyddu'n fwy sylweddol mewn termau absoliwt a chymharol. Effaith andwyol ar gymhellion i weithio cyplau ag ail enillydd. Menywod yw'r ail enillwyr mewn cyplau'n bennaf.</p>	<p>Ar gyfartaledd, bydd y diwygiadau lles yn atgyfnerthu'r cymhelliant i weithio i'r rheini sy'n cael budd-dal anabledd eu hunain neu'r rheini sydd â phartner sy'n cael budd-dal anabledd yn fwy na theuluoedd nad ydynt yn cael budd-daliadau anabledd.</p> <p>Bydd cymhellion hefyd yn gwella'n sylweddol i'r rheini sydd eisoes yn gweithio ac yn cael budd-dal anabledd. Bydd y cymhellion i'r sawl sy'n gweithio â phartner sy'n cael budd-dal anabledd gynyddu eu henillion yn dirywio ar gyfartaledd.</p>	<p>Ni fydd y toriadau lles a chyflwyno CC yn cael fawr ddim effaith ar bensiywyr.</p> <p>Mae'r cymhellion i'r rheini rhwng 55 ac OPW fod mewn gwaith â thâl yn gryfach nag ar gyfer pobl iau.</p> <p>Bydd y rheini sy'n 55 oed neu drosodd ac sy'n gweithio hefyd yn profi mwy o gymhelliant i gynyddu eu henillion, er bod y gwelliant hwn yn fwy i'r rheini rhwng 25 a 54 oed. Fodd bynnag, bydd y cymhellion i'r rheini o dan 25 oed sy'n gweithio gynyddu eu henillion yn dirywio.</p>	<p>Ar gyfartaledd, bydd y diwygiadau lles yn atgyfnerthu'r cymhelliant i bobl wyn weithio, ac i'r un graddau â'r hyn a welir ar gyfer y boblogaeth gyfan. I'r gwrthwyneb, disgwylir i'r cymhelliant i bobl nad ydynt yn wyn weithio wanhau.</p> <p>I'r rheini sy'n gweithio, ar gyfartaledd, disgwylir i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn weld y cymhelliant i gynyddu eu henillion yn gwella. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwelliant cyfartalog ar gyfer y grŵp olaf fod rhywfaint yn llai na'r hyn a welwyd gan y grŵp cyntaf.</p>

## Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles wedi comisiynu rhaglen ymchwil i ddadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu tystiolaeth i ategu penderfyniadau polisi. Mae'r canfyddiadau o ymchwil gynharach y Grŵp (Cam 1 a Cham 2) eisoes wedi cael eu defnyddio i helpu i dargedu ymdrechion Llywodraeth Cymru i liniaru (lle bo modd) unrhyw oblygiadau negyddol o ran y diwygiadau lles, a pharhau i flaenoriaethu adnoddau er mwyn lleihau tlodi yng Nghymru a thrwy hynny gyfrannu at yr ymrwymadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Nod yr adroddiad hwn yw darparu sail dystiolaeth (lle bo modd) ar gyfer effeithiau posibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y sawl â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru, gan adeiladu ar y canfyddiadau ymchwil a nodwyd fel rhan o Gam 1 a Cham 2. Mae 'nodweddion gwarchoddedig' yn derm a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n cyfeirio at bobl sy'n cael eu gwarchod rhag gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r diwygiadau lles yn dueddol o effeithio ar gartrefi sy'n cynnwys rhywun â nodwedd warchoddedig yn ôl nodweddion eraill fel statws gwaith, safle o ran dosbarthiad incwm a strwythur y teulu.

Creffir ar bob newid o ran budd-daliadau lles<sup>4</sup> yn ôl ei effaith ar bedair o'r nodweddion gwarchoddedig (rhyw, anabledd, oedran a hil). Yn anffodus, oherwydd diffyg gwybodaeth, ni fu'n bosibl asesu'n gywir effaith y diwygiadau lles ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: trawsrywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd/mamolaeth, priodas a phartneriaethau sifil. Parheir i fonitro argaeledd gwybodaeth o'r fath.

Y sefyllfa ddelfrydol fyddai pennu effaith gronol y diwygiadau ar bob grŵp, ond nid yw data ar y pwynt hwn yn ei gwneud yn bosibl i gynnal asesiad o'r fath ar y cyfan. Lle bo modd, aseswyd yr effeithiau ar y niferoedd yr effeithir arnynt, incwm cartrefi, tlodi, cymhellion i weithio a chyflogaeth, gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith a mynediad i'r rhyngryd.

Mae'r newidiadau a wnaed eisoes a'r newidiadau sydd i ddod yn feichus ac yn gymhleth ac mewn rhai achosion yn gwrthdweud ei gilydd o ran yr effeithiau tebygol ar incwm a chymhellion i weithio. Tra bod y crynodebau a geir ar ddechrau pob adran yn rhoi trosolwg, dim ond drwy ddarllen yr adroddiad llawn yn ofalus y bydd modd meithrin dealltwriaeth fanwl o effaith debygol y diwygiadau lles ar bobl yng Nghymru sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Gellir gweld data ystadegol allweddol a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwil hon yn Atodiad 1 a rhoddir disgrifiad cryno o'r prif newidiadau lles yn Atodiad 2.

---

<sup>4</sup> Nid ystyriwyd sgil-ffeithiau ar fudd-daliadau pasbort a gaiff eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn gan fod hyn y tu allan i gwmpas yr ymchwil.

# Effaith y diwygiadau lles ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru

## Rhyw

### Pwyntiau allweddol

- Er nad yw'r rheolau o ran budd-daliadau yn gwahaniaethu rhwng dynion a menywod, gall menywod fod ar eu colled yn fwy na dynion yn sgil newidiadau Llywodraeth y DU i fudd-daliadau (neu'r gwrthwyneb) am fod nodweddion eraill fel incwm, y defnydd o amser a strwythur y teulu yn amrywio'n systemataidd rhwng dynion a menywod.
- Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu y bydd mwy o fenywod na dynion yn teimlo effaith andwyol y diwygiadau lles ac maent yn dueddol o gollir mwyaf/ennill y lleiaf o gymharu â dynion.
- Mae'r diwygiadau y disgwylir iddynt effeithio ar fwy o fenywod na dynion fel a ganlyn:
  - cap ar fudd-dal cartrefi
  - cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a BP
  - sgil-ffeithiau diwygiadau LBA ar hawlwyrr LGof
  - ymestyn RhRhU
  - meini prawf maint yn yr SRhC
  - cynyddu cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LTLI) yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD).
- Y diwygiadau y disgwylir iddynt effeithio ar fwy o ddynion na menywod yw'r rhai sy'n cynyddu trothwy oedran CLIR i 35, a'r rhai sy'n ymwneud â BA/LCCh.
- O ran yr effeithiau cyfartalog ar incwm, o gymharu â dynion, menywod fydd, fwy na thebyg, yn colli fwyaf/ennill leiaf yn sgil y diwygiadau canlynol:
  - CC
  - cynyddu cyfraddau LTLI yn unol â MPD
  - pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol i'r rheini yn y Grŵp Gweithgareddau sy'n Gysylltiedig â Gwaith (GGGG).
- Mae rhieni unigol nad ydynt yn gweithio (y mae tua 90 y cant ohonynt yn fenywod) yn un o'r grwpiau a fydd yn gweld y gostyngiad mwyaf o ran hawliadau budd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru o ganlyniad i ddiwygiadau lles cronol Llywodraeth y DU.
- Bydd gan rieni unigol sydd eisoes yn gweithio lawer mwy o gymhelliant i gynyddu eu horiau gwaith a'u henillion. Fodd bynnag, bydd y diwygiadau yn

golygu bod gan gyplau fwy i'w golli os bydd ail enillydd yn gweithio. O ystyried mai menywod yw'r ail enillwyr fel rheol, efallai y bydd effeithiau andwyol o ran cyflogaeth arnynt.

- Gall hefyd fod problemau o ran talu CC i'r sawl sy'n hawlio fel cwpl oherwydd (yn y rhan fwyaf o achosion) gwneir hyn fel un taliad i un aelod o'r teulu yn unig. Mae pryderon mai'r dyn a fydd yn debygol o gael y taliad hwn.

### **Newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl yr MPD yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu**

Mae Joyce a Levell (2011) yn amcangyfrif bod budd-daliadau a chredydau treth a gafodd eu mynegeio gynt yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM) a'r Rossi<sup>5</sup> oddeutu 1.8 y cant a 3.1 y cant yn is yn y drefn honno yn 2012-13 o ganlyniad i newid i fynegeio MPD. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi asesiad effaith o'r newid mynegeio hwn.

Caiff effaith y polisi hwn ar wahanol grwpiau ei phennu yn ôl y tebygolrwydd o gael un neu ragor o'r budd-daliadau yr effeithir arnynt a chyfanswm gwerth taliadau o fudd-daliadau o'r fath.

Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Cymru (Tabl 3, tudalen 82) fod ychydig yn fwy o ddynion na menywod yn hawlio budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau: mae 51 y cant o'r holl hawlwyrr budd-daliadau o oedran gweithio yng Nghymru yn ddynion. Mae hyn ychydig yn fwy na chyfran yr holl ddynion o fewn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyfan gwbl. Mae hyn yn awgrymu y gall y newid polisi hwn effeithio ychydig yn fwy ar ddynion sy'n hawlio budd-daliadau. Nid oes unrhyw ddata a gyhoeddwyd ar y sawl sy'n derbyn credydau treth yng Nghymru yn ôl rhyw.

Bydd yr effeithiau ar incwm yn dibynnu ar ba rai a sawl un o'r budd-daliadau yr effeithir arnynt y mae hawlwyrr yn eu cael a gwerth y taliadau budd-daliadau hynny. Er enghraifft, bydd y rheini sy'n cael sawl budd-dal a/neu daliadau budd-dal cymharol uchel, a'r rhai a oedd wedi'u mynegeio i'r Rossi yn flaenorol, yn profi mwy o effaith nag eraill yn sgil y mesur hwn. Prin yw'r data/gwaith dadansoddi sydd ar gael ar hawlio sawl budd-dal yn enwedig yn ôl grŵp cydraddoldeb. Fodd bynnag, yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013d) roedd bron dwy ran o dair o'r rheini sy'n cael BT ym Mhrydain Fawr hefyd yn cael Cymhorthdal Incwm (CI), Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm (LCG), LCCh sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn. Mae hyn yn berthnasol oherwydd mae data yn awgrymu bod y symiau wythnosol cyfartalog o LCCh/BA, CI, LBA, a/neu BT yn gymharol uchel, er enghraifft o gymharu â Budd-dal y Dreth Gyngor (BDG) (gweler Tabl 1, tudalen 79). Roedd y rhan fwyaf o'r budd-daliadau hyn (heblaw am LBA) hefyd wedi'u mynegeio i'r Rossi yn flaenorol (sydd wedi bod yn uwch na'r MPM a'r MPD yn ddiweddar). Felly, mae'r sawl sy'n cael budd-daliadau o'r fath yn debygol o brofi mwy o golledion arian parod o ganlyniad i'r newid mynegeio. Er bod y symiau wythnosol

---

<sup>5</sup> Diffinnir mynegai Rossi fel MPM pob eitem heb gynnwys taliadau llog morgeisi, treth gyngor, dibrisio tai a rhenti.



cyfartalog o LCCh/BA a CI yn uwch i ddynion na menywod, nid yw'r un peth yn wir am LBA a BT. Felly, ar y cam hwn nid oes modd dweud yn gywir ai dynion neu fenywod a gaiff eu heffeithio'n anghymesur, os o gwbl.

### **Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a BP**

Ar sail unigol, mae menywod yn fwy tebygol o brofi effaith na dynion, gyda thua thraean o fenywod (33 y cant) yn debygol o gael eu heffeithio ym Mhrydain Fawr yn 2015/16 o gymharu â 29 y cant o ddynion (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2013a). Y rheswm dros y gwahaniaeth hwn yw mai rhieni unigol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fenywod, sydd fwyaf tebygol o brofi effaith y polisi a gweld y colledion cyfartalog mwyaf mewn arian parod o £5 yr wythnos yn 2015/16 (neu 1 y cant o incwm net). Effeithir ar y math hwn o deulu yn arbennig am fod ganddo gyfradd cyflogaeth is (57 y cant) na'r boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol (70 y cant, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABB) Cymru, 2011) ac mae ganddo hawl i gael cymorth mewn gwaith yn aml hefyd. Y golled gyfartalog mewn arian parod ar gyfer pob cartref o oedran gweithio yr effeithir arno yw £3 yr wythnos (neu 1 y cant o incwm net). Fodd bynnag, fel cyfran o incwm, mae pobl sengl heb blant yr effeithir arnynt yn gweld mwy o golled (2 y cant) na'r teuluoedd hynny â phlant. Y rheswm dros hyn yw bod cartrefi o'r fath sy'n cael budd-dal yn fwy tebygol o fod allan o waith na theuluoedd â phlant ac felly mae eu hawl i fudd-dal yn cyfrif am gyfran uwch o'u holl incwm.

Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd cyfyngu ar yr uwchgyfradd i 1 y cant yn 2013-14, 2014-15 a 2015-16 yn arwain at bennu bod tua 200,000 o blant ychwanegol mewn tlodi incwm cymharol o gymharu ag uwchbrisio budd-daliadau yn ôl MPD. Fodd bynnag, bydd effeithiau o'r fath yn dibynnu'n fawr ar yr hyn sy'n digwydd i chwyddiant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Er enghraifft, os bydd amcanestyniadau chwyddiant yn cynyddu, bydd yr amcangyfrifon hyn hefyd yn cynyddu.

## **CC**

### **Yr effaith ar incwm cartrefi**

Yng Nghymru, disgwylir i'r broses o gyflwyno CC effeithio ar 500,000 o gartrefi: ni fydd 100,000 o gartrefi yn gweld unrhyw newid yn eu hawliad; bydd 200,000 o gartrefi yn gweld eu hawliadau'n lleihau (ond efallai y byddant yn gymwys i gael diogelwch trosiannol); a bydd 200,000 o gartrefi yn gweld eu hawliadau'n cynyddu (Llywodraeth Cymru, 2013a).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, y bydd dynion a menywod sengl yn gweld cynnydd bach yn eu hawliad misol o dan CC. Fodd bynnag, disgwylir i ddynion sengl gael mwy o fudd gan fod y cynnydd cyfartalog mewn hawliad ar gyfer y grŵp hwn tua £8 yn uwch nag ar gyfer menywod sengl. Yn yr achos hwn mae 'sengl' yn cynnwys rhieni unigol, ac mae rhieni unigol yn ennill llai ar gyfartaledd na phobl sengl heb blant (gweler tudalen 22). Mae llawer mwy o rieni unigol yn fenywod na dynion, ac felly bydd

hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd cyfartalog mewn hawliad. Mae'n gymharol debycach i ddynion sengl weld eu hawliad yn aros yr un peth, neu'n cynyddu, na menywod sengl. Y rheswm tebygol dros hyn yw eu bod yn fwy tebygol o fod naill ai heb blant ac allan o waith, neu mewn gwaith. Fodd bynnag, mae'r cynnydd/gostyngiad cyfartalog mewn hawliad yn amrywio'n amlwg rhwng dynion a menywod - sydd hefyd yn effeithio ar yr effaith gyfartalog.

O gymharu cartrefi â dynion a chartrefi â menywod, ar gyfartaledd disgwylir i'r ddau weld cynnydd tebyg mewn hawliad sef tua £17 a £14 y mis yn y drefn honno.

Dengys dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) y bydd mwy o rieni unigol yn cael taliad is o dan CC (o gymharu â'r system bresennol) na'r rheini a gaiff daliad uwch<sup>6</sup>. Fodd bynnag, yn achos rhieni unigol, mae'r gostyngiad cyfartalog i'r rheini â hawliad is (£87 y mis) yn llai na'r cynnydd cyfartalog i'r rheini â hawliadau uwch (£128 y mis). Mae hyn yn golygu bod y grŵp hwn, ar y cyfan, ar ei ennill o ran CC ar gyfartaledd (£5 y mis neu 4 y cant o incwm net). Serch hynny, mae hyn yn llai na'r cynnydd cyfartalog a welir gan y rheini sy'n sengl heb blant (dros £6 y mis neu 9 y cant o incwm net) a chyplau â phlant (£14 y mis neu 6.5 y cant o incwm net).

### Effaith ar dlodi

Dengys amcanestyniadau Browne et al (2013) effaith ddisgwylidig CC ar leihau tlodi. Erbyn 2016, disgwylir i dlodi cymharol plant a phobl o oedran gweithio nad ydynt yn rhieni yn y DU fod yn 2.2 bwynt canran a 0.7 pwynt canran yn is yn y drefn honno na'r sefyllfa heb CC. Dywed yr awduron er y disgwylir i CC gael mân effaith ar hawliadau budd-daliadau, rhagamcener y bydd yn gostwng cyfraddau tlodi incwm oherwydd disgwylir i'r defnydd o gymorth prawf modd gynyddu o ganlyniad i'w natur integredig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod effaith CC ar dlodi yn cael ei gorbwysu gan effeithiau diwygiadau eraill i drethi a budd-daliadau (yn enwedig y newid i fynegeio MPD o ran budd-daliadau a chredydau treth) dros yr un cyfnod. O ganlyniad, effaith gyffredinol y diwygiadau a gyflwynwyd ers mis Ebrill 2010 yw cynyddu lefel tlodi incwm bob blwyddyn rhwng 2010 a 2020, a chynyddu'r gyfradd y mae tlodi yn cynyddu dros amser.

Yn ei Asesiad diweddaraf o Effaith, ni wnaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau ddiweddarau effaith CC ar dlodi. Er bod rhai ffigurau ar dlodi wedi cael eu cyhoeddi bellach mewn ymateb i gwestiwn seneddol, nis dadansoddir yn ôl rhyw. Yn flaenorol, amcangyfrifodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) y byddai nifer y dynion a menywod sengl a oedd yn symud allan o dlodi yn gyfartal yn fras, gan adlewyrchu'r ffaith bod disgwyl i'r cynnydd cyfartalog mewn hawliadau i'r ddau grŵp fod yr un peth ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) wedi diwygio ei hamcangyfrifon o effaith CC ar hawliadau cyfartalog ers hynny, ac mae bellach yn awgrymu y bydd dynion sengl yn cael mwy o fudd ar gyfartaledd na menywod sengl (fel yr amlinellwyd

<sup>6</sup> Rhiant unigol - rhentu: hawliad uwch 28 y cant, dim newid 36 y cant, hawliad is 36 y cant. Rhiant unigol - dim rhent: hawliad uwch 39 y cant, dim newid 9 y cant, hawliad is 52 y cant (Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau 2012e).

uchod). Mae'r sgil-ffeithiau ar dlodi yn debygol o fod yn gyson â'r patrwm hwn, gyda mwy o leihad mewn tlodi ymhlith dynion sengl.

### Effaith ar gymhellion i weithio

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn disgwyl i'r system CC newydd fod yn hynod ddefnyddiol i rieni unigol (y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fenywod) oherwydd bydd mwy o gymorth ar gael iddynt ddod o hyd i waith. Er enghraifft, bydd y rheini sy'n gweithio o dan 16 awr yr wythnos yn gallu cael cymorth gofal plant a bydd Lwfansau Cyllidebu hefyd ar gael i dalu costau gofal plant ymlaen llaw ar gyfer hawlwy'r CC sydd wedi cael cynnig swydd. Mae Adam a Phillips (2013) hefyd yn amcangyfrif y bydd CC yn gwella'r cymhelliant i rieni unigol fod mewn gwaith â thâl, a disgwylir i hyn fod yn well na'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth gyfan (gweler Tabl 47, tudalen 104).

Rhagwelir y bydd CC hefyd yn atgyfnerthu'r cymhelliant i'r rheini ag enillion isel (o dan tua £7,000 y flwyddyn) gynyddu eu henillion. Y grŵp hwn sy'n wynebu colli sawl budd-dal a chredyd treth ar yr un pryd ar hyn o bryd; caiff y sefyllfa hon ei dileu gan CC drwy roi'r gorau fesul cam i dalu budd-daliadau. Disgwylir i rieni unigol gael budd o'r newid hwn yn arbennig (gweler Tabl 48, tudalen 105). Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar b'un a yw'r rheini yr effeithir arnynt am weithio oriau hwy neu'n gallu gweithio oriau hwy (e.e. oherwydd amgylchiadau teuluol neu ymrwymadau/amgylchiadau eraill).

Er y bydd prawf modd llai llym o dan CC yn atgyfnerthu'r cymhelliant i gyplau fod ag un partner sy'n gweithio, bydd yn lleihau'r cymhelliant i fod â'r ddau bartner yn gweithio. Mae effeithiau CC ar y cyflenwad llafur yng Nghymru a amcangyfrifwyd gan Adam a Phillips (2013) yn gyson â'r newidiadau hyn mewn cymhellion i weithio. Disgwylir i gyflwyno CC leihau nifer y teuluoedd nad ydynt yn gweithio, cynyddu nifer y cyplau ag un enillydd, ond lleihau nifer y cyplau â dau enillydd sy'n gweithio. Menywod yw ail enillwyr cyplau (h.y. y partner sy'n ennill llai) yn bennaf, felly bydd eu rhagolygon gwaith yn wynebu mwy o risg pan gyflwynir CC.

Yng Nghyllideb 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU newidiadau i ofal plant ar gyfer derbynwyr credydau treth (derbynwyr CC yn y dyfodol). Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (SAC) yn amcangyfrif y bydd tua hanner miliwn o deuluoedd ar eu hennill. Mae'r cynllun presennol yn cwmpasu 70 y cant o gostau gofal plant ffurfiol hyd at gap (£175 yr wythnos fesul plentyn, £300 yr wythnos ar gyfer mwy nag un plentyn). Y cynnig yw cynyddu hyn i 85 y cant os yw pob oedolyn yn dalwr trethi o fis Ebrill 2016. Mae hyn o fudd i deuluoedd sy'n gweithio ac sydd ar incwm cymharol isel (er nid yr incwm isaf) sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol, a bydd yn creu cymhelliant cryf i fod â phob oedolyn mewn gwaith ac yn defnyddio gofal plant ffurfiol. Felly, bydd y newid hwn yn gwrthbwysu'r cymhelliant llai i rai ail enillwyr beidio â chael gwaith â thâl; fodd bynnag, nid yw graddau'r effaith wrthbwysu hon yn glir.

## Amodoldeb<sup>7</sup>

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn amcangyfrif y bydd tua 70 y cant o'r partneriaid y bydd y gofynion estynedig sy'n canolbwyntio ar waith o dan CC yn effeithio arnynt yn fenywod.

## Taliadau budd-dal i gartrefi

Gall fod problemau o ran talu CC i'r sawl sy'n hawlio fel cwpl oherwydd (yn y rhan fwyaf o achosion) gwneir hyn fel un taliad i un aelod o'r teulu yn unig. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012h) yn nodi y caiff y taliad CC ei wneud i gyfrif a gaiff ei enwebu gan aelodau o'r cartref (e.e. cyfrif un partner neu gyfrif ar y cyd). Os na ellir dod i gytundeb, caiff penderfyniad terfynol ar sut y telir CC ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae elusennau fel Oxfam wedi codi pryderon mai'r dyn mewn cwpl sy'n debygol o gael y taliad CC<sup>8</sup>. Mae tystiolaeth gan Sharp (2008) a Westaway a McKay (2007) yn awgrymu bod hyn yn bryder penodol i fenywod mewn cartrefi lle mae cam-drin domestig. Gall y taliad i gartrefi ei gwneud hi'n anos i ddiodefwyr cam-drin domestig gael gafael ar fudd-daliadau/arian yn uniongyrchol, cynyddu dibyniaeth a'i gwneud hi'n anos iddynt adael partner treisgar. Mae ymchwil gan Rotik a Perry (2011) hefyd yn dynodi bod defnyddwyr gwasanaethau yn pryderu na fyddai taliadau ar y cyd yn ymarferol i gartrefi lle mae cam-drin domestig. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012h) wedi cadarnhau y gall y taliad CC gael ei rannu mewn amgylchiadau eithriadol.

## Mynediad ar-lein

Dim ond mymryn mai'r defnydd o'r rhyngwrwd yn amrywio rhwng y rhywiau. Er enghraifft, dengys canlyniadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Ebrill 2012- Mawrth 2013) fod 76 y cant o ddynion yn defnyddio'r rhyngwrwd o gymharu â 71 y cant o fenywod. Yn yr un modd, roedd menywod ond ychydig yn fwy tebygol o beidio â bod wedi defnyddio'r rhyngwrwd erioed (24 y cant o gymharu ag 20 y cant o ddynion). Gan nad oes gwahaniaeth sylweddol yn y defnydd o'r rhyngwrwd rhwng menywod a dynion, nid yw'r newid i hawlio ar-lein yn debygol o gael effaith anghymesur ar y naill ryw neu'r llall.

---

<sup>7</sup> Y 'gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith' y mae'n rhaid i hawliwr eu bodloni mewn perthynas â dyfarniad CC.

<sup>8</sup> Er enghraifft, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012g) yn diffinio Person Cyswllt y Cartref (PCC, Pennaeth y Cartref gynt) fel y Deiliad Cartref â'r Incwm Uchaf, heb ystyried rhyw. Er gwaethaf hyn, mae enillion wythnosol gros cyfartalog dynion yn uwch na rhai menywod (£555 a £470 yn y drefn honno - ffynhonnell: Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. data Cymru, 2012), sy'n awgrymu bod y PCC yn fwy tebygol o fod yn ddyn.

## Cap ar fudd-dal cartrefi

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) yn amcangyfrif y bydd tua 60 y cant o'r hawlwr yr effeithir arnynt yn fenywod sengl a thua 10 y cant yn ddynion sengl. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl i'r rhan fwyaf o gartrefi yr effeithir arnynt fod â phlant ac i tua 50 y cant fod yn rhieni unigol. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r menywod sengl yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn rhieni unigol.

## LBA, TAB a LGof

Dengys ein hymchwil fod y diwygiadau i LBA yn cyfrif am rai o'r toriadau mwyaf sy'n deillio o'r diwygiadau lles yng Nghymru. Erbyn mis Mai 2018, amcangyfrifir y bydd tua 42,500 o bobl yng Nghymru wedi colli eu hawliad o ganlyniad i'r diwygiad penodol hwn - colled gyfartalog o hyd at £83 fesul hawliwr yr wythnos a cholled flynyddol o hyd at £183m yng Nghymru gyfan.

Gan fod cyfran y dynion a menywod sy'n cael LBA bron yn gyfartal yng Nghymru yn unol â'r cyfrannau yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol, nid oes unrhyw reswm i awgrymu y bydd y diwygiadau i LBA yn cael mwy o effaith ar y naill grŵp neu'r llall (Tabl 7, tudalen 84). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012b) yn amcangyfrif y bydd cyfran y dynion a menywod sydd â hawl i gael TAB hefyd yn gyfartal yn fras (46 y cant o ddynion a 54 y cant o fenywod ar lefel Prydain Fawr).

Mae LBA hefyd yn galluogi derbynwyr i gael premiymau o ran y prif fudd-daliadau canlynol sy'n gysylltiedig ag incwm: LCG yn seiliedig ar incwm; LCCh/BA yn gysylltiedig ag incwm, CI, Credyd Pensiwn, BT a BDG. Felly, bydd cyflwyno TAB yn cael effaith ar yr hawliad hwn. Lle bo ar gael, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012c) wedi dadansoddi data ar yr hawliad i'r premiymau hyn yn ôl rhyw. Mae'r modd y rhennir y llwyth achos hwn rhwng y rhywiau yn adlewyrchu llwyth achos LBA gyda nifer y dynion a menywod bron yn gyfartal (ar lefel Prydain Fawr).

Bydd colli'r hawl i gael LBA hefyd yn cael sgil-ffeithiau ar y sawl sy'n cael taliadau LGof. Cyn cyflwyno TAB, gall y sawl sy'n gofalu am rywun ar gyfradd gofalu ganol neu uwch LBA gael LGof (yn amodol ar feini prawf cymhwyso eraill). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013) yn amcangyfrif, ym mis Hydref 2015, y bydd llwyth achos LGof ar lefel Prydain Fawr 12,000 yn llai o dan TAB (yn cynnwys hawliadau newydd yn ogystal ag achosion wedi'u hailasesu) o gymharu ag o dan LBA heb unrhyw ddiwygiadau. Gan dybio effaith sy'n gymesur â lefel gronol Prydain Fawr (6 y cant), bydd Cymru yn profi gostyngiad yn llwyth achos LGof sydd oddeutu 700 (amcangyfrif Llywodraeth Cymru). Yn bwysig ddigon, mae gan fwy o fenywod na dynion hawl i gael LGof ac mae mwy ohonynt yn ei gael. Felly, mae unrhyw effeithiau anuniongyrchol yn debygol o effeithio ar fwy o fenywod na dynion (gweler Tabl 9, tudalen 84).

## **Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol i'r rheini yn y GGGG**

Amcangyfrifir y bydd tua 56,000 o hawlwr yng Nghymru yn gweld eu hincwm budd-daliadau yn lleihau hyd at £89 yr wythnos o ganlyniad i'r polisi â therfyn amser ar gyfer LCCh cyfrannol (Llywodraeth Cymru, 2013a).

Mae'r polisi hwn yn fwy tebygol o effeithio ar ddynion na menywod o ystyried y rhaniad yn y data llwyth achos ar gyfer Cymru (53 y cant a 47 y cant yn y drefn honno - gweler Tabl 20, tudalen 88). Fodd bynnag, bydd y gwahaniaeth hwn yn dechrau erydu wrth i OPW menywod gynyddu, ac wrth i'r terfyn oedran ar gyfer hawlio LCCh ddod yn gyfartal. Bydd rhai o'r rheini sy'n colli eu LCCh cyfrannol yn gweld LCCh yn gysylltiedig ag incwm yn gwneud iawn amdano'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Ar sail data llwyth achos, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011e) yn amcangyfrif y byddai mwy o ddynion (66 y cant) yn gymwys i gael LCCh yn gysylltiedig ag incwm na menywod (54 y cant) unwaith y rhoddir y terfyn amser ar waith. O ganlyniad, bydd menywod yn colli tua £10 yr wythnos yn fwy na dynion ar gyfartaledd mewn incwm net cartrefi.

### **Dileu amodau cymhwyso YG 'ieuenctid' LCCh consesiynol**

Amcangyfrifir bod y penderfyniad i ddileu darpariaethau ieuenctid o dan LCCh cyfrannol wedi effeithio ar tua 1,200 o hawlwr, gyda'r colledion wythnosol fesul hawliwr ar gyfartaledd yn debygol o fod tua £25 (Llywodraeth Cymru, 2013a).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011h) yn amcangyfrif bod y mesur hwn yn fwy tebygol o effeithio ar ddynion na menywod o ystyried y modd y dadansoddir y llwyth achos yn ôl rhyw.<sup>9</sup> Mae'r rheini a fyddai wedi cael LCCh cyfrannol yn unig yn fwy tebygol o golli incwm na'r rheini a fyddai wedi cael LCCh cyfrannol ac LCCh yn gysylltiedig ag incwm (na fyddent yn gweld colled). Dengys data ar gyfer mis Mai 2010 fod 57 y cant o'r achosion 'ieuenctid' BA cyfrannol yn unig ym Mhrydain Fawr yn ddynion a bod 43 y cant yn fenywod. Mae'r gyfran hon yn uwch i ddynion nag ar gyfer hawlwr ieuenctid BA sy'n cael BA cyfrannol a BA yn gysylltiedig ag incwm (54 y cant). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi y bydd tua 90 y cant o'r rheini yr effeithir arnynt yn gymwys i gael LCCh yn gysylltiedig ag incwm (ar yr un gyfradd neu gyfradd is) o ystyried bod ganddynt lefelau incwm a chyfalaf isel yn gyffredinol o gymharu â grwpiau LCCh cyfrannol eraill. Bydd yr hawl i gael y budd-dal hwn yn golygu bod rhai hawlwr yn dod yn gymwys i gael budd-daliadau pasbort (fel prydau ysgol am ddim).

### **Llai o gymorth drwy elfen gofal plant credydau treth**

Yn 2010-11, roedd 11,800 o rieni unigol (55 y cant) a 9,500 o gyplau (45 y cant) yng Nghymru a oedd yn cael budd o elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith (Ffynhonnell: Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Felly, bydd y mesur polisi hwn yn

---

<sup>9</sup> Gan nad yw Llywodraeth y DU yn cadw data ar achosion 'ieuenctid' LCCh, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi seilio ei hasesiad ar achosion 'ieuenctid' BA sydd, yn ei barn hi, yn brocsi cywir o ystyried bod y meini prawf cymhwyso yr un peth ar gyfer y ddau.

cael effaith arbennig ar gartrefi unigol â phlant, ac felly fwy o fenywod na dynion, gan mai menywod sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o gartrefi rhieni unigol.

### **Newidiadau i BP**

Mae'n debygol y bydd rhewi cyfraddau BP am dair blynedd rhwng 2011 a 2012 yn effeithio ar tua 370,000 o deuluoedd a 640,000 o blant. Amcangyfrifir y bydd y colledion wythnosol cyfartalog fesul teulu tua £2.50 yn 2013-14. Ar ben hynny, disgwylir i tua 31,000 o deuluoedd yng Nghymru gollu incwm o £25 yr wythnos ar gyfartaledd yn sgil rhoi'r gorau i dalu BP fesul cam (Llywodraeth Cymru, 2013a).

Mae'n anodd asesu effaith y newidiadau i BP ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, a delir i hawliwr unigol ar ran y plentyn, ac nid er budd personol yr hawliwr. Mae peth tystiolaeth i awgrymu bod teuluoedd yn gwario BP ar eu plant yn bennaf. Dengys canfyddiadau Arolwg Panel gyda hawlwr BP gan Gyllid a Thollau EM fod 66 y cant yn nodi eu bod yn gwario rhywfaint o'u BP neu eu holl BP ar eu plant yn uniongyrchol. I 33 y cant ychwanegol o hawlwr, dosbarthwyd BP ymhlith y cartref i dalu am wariant cyffredinol y cartref. Dim ond llai nag 1 y cant o hawlwr a nododd eu bod yn gwario eu BP arnynt eu hunain neu eu partner yn unig (Trysorlys EM, 2010).

### **Cymorth y Dreth Gyngor (2013-14)**

Mae Llywodraeth y DU wedi pennu'r cyfrifoldeb am helpu pobl gyda'u treth gyngor yn lleol ac wedi cwtdogi'r arian hwn 10 y cant. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £22 miliwn o arian ychwanegol yn 2013-14 i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r hawliad llawn i gymorth i bob hawliwr cymwys, er gwaethaf y ffaith bod llai o arian ar gael gan Lywodraeth y DU. Mae'r gwaith o ddatblygu rheoliadau Cymorth y Dreth Gyngor diwygiedig ar gyfer 2014-15 a thu hwnt yn mynd rhagddo.

Er yng Nghymru y bydd yr arian ychwanegol hwn yn diogelu incwm dynion a menywod, bydd mwy o fenywod yn cael budd o ystyried natur ddemograffig y llwyth achos. Er enghraifft, dengys ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau (Chwefror 2013) fod cartrefi menywod sengl (oedolion) yn cyfrif am dros 50 y cant o holl dderbynwyr BDG ym Mhrydain Fawr (mae cartrefi dynion sengl a chynplau yn cyfrif am tua 25 y cant o'r derbynwyr BDG sy'n weddill ym Mhrydain Fawr).

### **Cronfa Gymdeithasol/Cronfa Cymorth Dewisol**

Cafodd y Gronfa Gymdeithasol (CG) ei dileu gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 ym mis Mawrth 2013. Mae elfennau dewisol y Gronfa - Benthyciadau Argyfwng (BA) a Grantiau Gofal Cymunedol (GGC) - wedi cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Bu'r cynllun newydd, sef y Gronfa Cymorth Dewisol (CCD), a gaiff ei reoli a'i gyflenwi gan Northgate Public Services (mewn partneriaeth â Family Fund Trading a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), ar waith ers mis Ebrill 2013.

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, gwnaed 7,759 o geisiadau llawn i gynllun CCD yng Nghymru. Dim ond traean o hawlwyd i'r Gronfa sydd wedi rhoi gwybodaeth am eu rhyw. O'r rheini a wnaeth hynny, roedd 52 y cant yn fenywod, roedd 48 y cant yn ddynion ac roedd llai nag 1 y cant yn drawsryweddol, sy'n unol â'r cyfrannau yn y boblogaeth o oedran gweithio gyfan yng Nghymru (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Blyneddol o'r Boblogaeth 2012, Swyddfa Ystadegau Gwladol, SYG). Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod a yw'r ymatebwyr hyn yn cynrychioli holl hawlwyd CCD.

Caiff y trefniadau a'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Taliadau Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

## **CBA**

Caewyd y Gronfa Byw'n Annibynnol (CBA) i ymgeiswyr newydd ym mis Mehefin 2010. Bydd defnyddwyr presennol yn dal i dderbyn taliadau CBA ar yr amod eu bod yn dal i fodloni'r amodau cymhwyso. Caiff y penderfyniad i gau'r gronfa i ymgeiswyr newydd effaith andwyol ar bobl ym mhob grŵp cydraddoldeb a allai fod wedi hawlio ers y dyddiad terfyn hwn. Bellach, rhaid i unigolion o'r fath ddibynnu ar awdurdodau lleol i ddiwallu'r anghenion y gwnaethant edrych i CBA eu diwallu.

Ym mis Rhagfyr 2012, yn dilyn ymgynghoriad, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yn cau'r CBA yn 2015 i'w defnyddwyr presennol gan ddatganoli cyllid i awdurdodau lleol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar y ffordd orau o gynorthwyo'r 1,781 o bobl sy'n derbyn CBA yng Nghymru sef taliad pedair wythnos o £1,407 ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i tua £7.5 miliwn y chwarter (CBA, 2013). Caiff nifer o opsiynau eu hystyried gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol a rhai cenedlaethol ledled Cymru. Pan gaiff yr opsiynau hyn eu pennu'n derfynol, cynhelir ymgynghoriad ar ddyfodol yr CBA yng Nghymru a fydd yn ceisio barn y sawl yr effeithir arnynt a rhanddeiliaid allweddol. Yn y cyfamser, dechreuodd rhaglen adolygu trosglwyddiadau ar 2 Ebrill 2013 er mwyn helpu defnyddwyr drwy'r broses o gau CBA. Bydd y rhaglen hon yn cymryd tua dwy flynedd i'w chwblhau.

Dengys y data diweddaraf ar broffil defnyddwyr ar gyfer y chwarter yn dod i ben ym mis Mawrth 2013 fod dosbarthiad defnyddwyr CBA rhwng y rhywiau yn gyfartal yn fras (48 y cant o fenywod, 52 y cant o ddynion - gweler Tabl 43, tudalen 101) yn unol â'r boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol. Dyma fu'r achos dros y pum mlynedd diwethaf o leiaf. O ystyried y dosbarthiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd cau CBA na datganoli cyllid i Lywodraeth Cymru yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr CBA ar sail rhyw.

Fodd bynnag, gall fod effaith andwyol anuniongyrchol ar ofalwyr os bydd newidiadau i becynnau yn cynyddu'r angen am ofal anffurfiol. Fel procsi ar gyfer dosbarthu gofalwyr anffurfiol yng Nghymru rhwng y rhywiau, gellir defnyddio



hawliad i LGof. Fel mae Tabl 9 (tudalen 84) yn ei ddangos, mae dros ddwy ran o dair o'r rheini sydd â hawl i gael LGof yng Nghymru yn fenywod. O ganlyniad, mae unrhyw effaith ar ofalwyr anffurfiol sy'n digwydd yn debygol o effeithio ar fwy o fenywod na dynion. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar ryw'r rheini sy'n darparu gofal anffurfiol i ddefnyddwyr CBA.

### **Dileu cymhwysedd CI i rieni unigol yn seiliedig ar oedran eu plentyn ieuengaf**

Cyflwynwyd RhRhU ym mis Tachwedd 2008 ac ers hynny, yn seiliedig ar oedran eu plentyn ieuengaf, mae rhieni unigol wedi colli'r hawl i gael CI ar sail y ffaith eu bod yn rhiant unigol yn unig. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r rheini yr effeithir arnynt symud ymlaen i LCG. O fis Mai 2012, cafodd oedran y plentyn ieuengaf ei ostwng i bump a throsodd. Ym mis Chwefror 2012, roedd tua 5,000 o rieni unigol yng Nghymru yn hawlio CI â phlentyn ieuengaf pump neu chwech oed.

Mae'r estyniad diweddaraf i RhRhU yn gymwys i bob rhiant unigol, yn ddynion a menywod, pan fydd eu plentyn ieuengaf yn troi'n bump oed. Yng Nghymru (a Phrydain Fawr yn gyffredinol), mae 97 y cant o rieni unigol ar CI yn fenywod (Tabl 26, tudalen 91). Felly, caiff y mesur hwn effaith anghymesur ar fenywod.

Amcangyfrifir y gallai hyd at 1,250 o rieni unigol yr effeithir arnynt yng Nghymru symud i mewn i waith o ystyried y ffocws cynyddol ar baratoi am waith a rhwymedigaethau chwilio am waith (Llywodraeth Cymru, 2013a). Fodd bynnag, bydd nifer o rwystrau posibl i gyflogaeth yn effeithio ar y graddau y mae ymyriadau cyflogaeth o'r fath o ran rhieni unigol yn gymhelliant effeithiol i chwilio am waith â thâl. Gall y rhain gynnwys prinder cymwysterau addysgol, problemau iechyd meddyliol neu gorfforol, argaeledd cyfleoedd rhan-amser (o fewn oriau ysgol yn aml), gwaith lleol a hyblyg, gofal plant, argaeledd trafndiaeth addas, hyblyg a fforddiadwy, a hefyd sgiliau a dyfarniadau staff rheng flaen lleol (Finn a Gloster, 2010; Coleman, N a Riley, T, 2012).

Dengys canfyddiadau diweddar o arolwg hydredol o rieni unigol y mae RhRhU<sup>10</sup> yn effeithio arnynt fod 45 y cant o rieni unigol wedi gweithio ar ryw bwynt ers i'w hawliad CI orffen. Roedd gwaith o'r fath ar lefel sgiliau isel ar y cyfan a thalwyd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn fras. Roedd bron pawb yn gweithio'n rhan-amser. Roedd tua thri o bob pedwar rhiant unigol mewn gwaith (73 y cant) yn defnyddio rhyw fath o ofal plant tra eu bod yn gweithio, ac roedd yn fwy tebygol o fod yn anffurfiol nac yn ffurfiol. Ar gyfartaledd, roedd rhieni unigol yn agosach at y farchnad lafur ar ôl y newidiadau i RhRhU na phan oeddent yn hawlio CI (Coleman, N a Riley, T, 2012).

---

<sup>10</sup> Mae'r arolwg yn ymdrin yn benodol â'r rheini â phlentyn ieuengaf saith neu wyth oed pan wnaethant adael CI. Cafodd rhan gyntaf yr arolwg ei chynnal yn 2010 tra roedd rhieni unigol yn dal i fod ar CI. Cynhaliwyd yr ail ran yn 2012, tua blwyddyn ar ôl i gymhwysedd rhieni unigol i CI ddod i ben, ac mae'n olrhain cyrchfannau a phrofiadau rhieni unigol dros amser. Ar gam 2, cynhaliwyd 1,088 o gyfweiliadau yng nghartrefi ymatebwyr rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2012. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys rhieni unigol a arhosodd ar CI (nad oeddent yn destun newidiadau RhRhU).

## **Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn yr SRhC**

Yng Nghymru, roedd 86,230 o fenywod sengl yn hawlio BP yn yr SRhC o gymharu â 43,580 o ddynion sengl<sup>11</sup>. Mae dwbl y menywod sengl yn hawlio BP yn yr SRhC yng Nghymru (52 y cant) o gymharu â dynion sengl (26 y cant), gyda chyplau yn cyfrif am yr hawlwr sy'n weddill (22 y cant). Mae'r rhan fwyaf o'r menywod ychwanegol sy'n hawlio yn rhieni unigol o oedran gweithio (Tabl 30, tudalen 92).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012h) yn amcangyfrif y bydd y mesur hwn yn effeithio ar 40,000 o hawlwr BT yn yr SRhC yng Nghymru. Mae data mwy diweddar (Mehfin 2013) gan yr awdurdodau lleol yn awgrymu bod oddeutu 35,250 o gartrefi yng Nghymru wedi'u heffeithio. Yn unol â'r ystadegau uchod, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012d) hefyd yn amcangyfrif bod tua hanner y rheini y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt yn fenywod sengl, gyda'r gweddill yn gyfuniad cyfartal o ddynion sengl a chyplau. Felly, mae'r polisi hwn yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod sy'n hawlio. Amcangyfrifir y bydd dynion sengl a menywod sengl yn colli'r un swm ar gyfartaledd bob wythnos - £14 (lefel Prydain Fawr) - tra bydd cyplau yn wynebu colli £15 yr wythnos ar gyfartaledd.

## **BT: Uwchraddio LTLI drwy MPD**

Gallai'r mesur hwn effeithio ar bawb sy'n hawlio BT yn y Sector Rhentu Preifat (SRhP) y caiff eu hawliadau eu hasesu yn ôl rheolau LTLI. Disgwylir iddo effeithio ar 48,530 o dderbynwyr yng Nghymru gyda cholled wythnosol gyfartalog o £6 (Adran Gwaith a Phensiynau, 2012i). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011g) yn disgwyl i'r dadansoddiad o hawlwr yn ôl rhyw y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt fod yn gyson â'r dadansoddiad o holl hawlwr SRhP BT. Dengys ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer mis Chwefror 2013 (Tabl 34, tudalen 95) fod menywod sengl (48 y cant) yn cyfrif am gyfran uwch o lwyth achos BT yn y SRhP yng Nghymru o gymharu â dynion sengl (30 y cant) a chyplau (22 y cant). Er bod y gyfran sy'n fenywod yn unol â'r gyfran ar gyfer llwyth achos SRhP BT, mae'n uwch nag ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol. Felly, mae'n debycach y gwelir effaith andwyol ar fenywod sengl na dynion sengl. At hynny, caiff menywod sengl ddyfarniad BT wythnosol uwch ar gyfartaledd (£84) o gymharu â dynion sengl (£69). Felly, maent yn fwy tebygol o golli mwy o incwm ar gyfartaledd o ganlyniad i gyfyngu ar uwchraddio cyfraddau LTLI i MPD (yn hytrach na lefelau rhenti yn y farchnad leol). Disgwylir gweld effeithiau tebyg yn ôl rhyw hefyd o ganlyniad i'r cap o 1 y cant a roddir ar gyfraddau LTLI yn 2014-15 a 2015-16.

## **Cynyddu trothwy oedran CLIR i 35 oed**

Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at hawlwr BT sengl ifanc heb blant ac roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011i) yn disgwyl iddo effeithio ar 3,080 o dderbynwyr yng Nghymru (fodd bynnag, mae tystiolaeth gan awdurdodau lleol yn awgrymu y gall y ffigur hwn fod yn agosach at 4,000). Er bod yr LTLI a

---

<sup>11</sup> Gan fod BT yn gallu cael ei hawlio gan gartref yn ogystal ag unigolyn, nid oes modd pennu un rhyw yn unig i gartref. Felly, mae rhyw yn cyfeirio at ryw **hawlwr unigol yn unig**.

chyfanswm llwyth achos BT yn cynnwys mwy o fenywod (tua 50 y cant) na dynion (tua 30 y cant) a chyplau (tua 20 y cant), mae'r rhan fwyaf o fenywod iau sy'n hawlio BT yn rhieni unigol ac felly ni fydd y polisi hwn yn effeithio arnynt. Gan mai nifer fach o ddynion sengl sydd â chyfrifoldebau gofalu amser llawn dros blant dibynnol<sup>12</sup>, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011i) yn amcangyfrif mai effeithio ar ddynion (72 y cant) y bydd y polisi hwn fwyaf.

## **Newid o BA i LCCh**

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 77,040 o bobl yng Nghymru yn hawlio BA/Lwfans Anabledd Difrifol (LAD). Roedd dros hanner y rhain (41,490 neu 54 y cant) yn ddynion (Tabl 16, tudalen 86). Felly, bydd y broses ailasesu, drwy'r Asesiad Gallu i Weithio (AGW), a gaiff ei gynnal ar gyfer yr hawlwy'r hyn, yn effeithio ar fwy o ddynion na menywod.

Rhwng mis Hydref 2008 a mis Tachwedd 2012, cafodd 103,700 AGW eu cwblhau yng Nghymru (menywod: 45,900, dynion: 57,800). Hefyd, cafodd 66,100 o hawliadau eu cau cyn i'r asesiad swyddogaethol cychwynnol gael ei gwblhau ac roedd 10,800 yn mynd rhagddynt. O'r rhai a gafodd eu cwblhau, roedd gan 41 y cant (neu 42,900) hawl i gael LCCh a chawsant eu rhoi naill ai yn y GGGG (27,900) neu'r Grŵp Cymorth (15,000). Yn gyffredinol, cafwyd bod 59 y cant (neu 60,800) yn ffit i weithio ac felly nid oeddent yn gymwys i gael LCCh mwyach. O ran y rhywiau, nodwyd bod ychydig yn llai o fenywod yn ffit i weithio (57 y cant neu 26,000) na dynion (60 y cant neu 34,800).

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 90,880 o bobl yng Nghymru yn hawlio LCCh. Fel llwyth achos BA, roedd dros hanner y rhain (48,470 neu 53 y cant) yn ddynion. Felly, nid ymddengys fod cyflwyno LCCh wedi cael effaith sylweddol ar gyfran yr hawlwy'r o ran eu rhyw.

## **Effaith gronnol y diwygiadau lles**

### **Incwm**

Mae rhieni unigol nad ydynt yn gweithio (y mae tua 90 y cant ohonynt yn fenywod) yn un o'r grwpiau a fydd yn gweld y gostyngiad mwyaf o ran hawliadau budd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru o ganlyniad i ddiwygiadau lles cronol Llywodraeth y DU (Adam a Phillips, 2013). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhieni unigol yn dibynnu ar incwm o fudd-daliadau yn gyffredinol, ac felly maent ar eu colled yn arbennig yn sgil y toriadau lles.

### **Cymhellion i weithio a chyflenwad llafur**

Yn ogystal â chael effaith uniongyrchol ar incwm cartrefi, mae newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio ar y cymhelliant ariannol i unigolion wneud gwaith â thâl, a'r cymhelliant ariannol iddynt gynyddu eu henillion (e.e. drwy gynyddu eu horiau gwaith â thâl).

---

<sup>12</sup> Dengys data AAT (2008/09), ymhlith yr holl rentwyr preifat o oedran gweithio, fod y rhan fwyaf (64 y cant) o bobl sengl heb blant dibynnol yn ddynion.

Mae'n ddefnyddiol edrych ar ddadansoddiad o effaith gronol y diwygiadau lles ar gymhellion rhieni unigol i weithio o ystyried bod cyfran sylweddol uchel o'r grŵp hwn yn fenywod<sup>13</sup>. Nid yw'r cymhelliant i rieni unigol wneud gwaith â thâl yn newid rhyw lawer ar gyfartaledd ar bob lefel o enillion (gweler Tabl 47, tudalen 104). Er bod CC yn atgyfnerthu'r cymhelliant i rieni unigol weithio ar gyfartaledd (gweler adran CC uchod), caiff y diwygiadau eraill effaith wrthgyferbyniol, a gaiff ei llywio gan ddiwygiadau i gredydau treth. Er enghraifft, mae'r cynnydd yn elfen plant CTP (cynyddu incwm allan o waith) a phrofion modd llymach credydau treth (lleihau incwm mewn gwaith) yn lleihau'r cymhelliant i weithio o fewn y dosbarthiad incwm cyfan. Mae cwotgi CTG (e.e. gofyniad i gynyddu oriau gwaith) yn ychwanegu at yr effaith hon ymhlith y rheini ag enillion isel.

Ar y cyfan, caiff y cymhelliant i rieni unigol sy'n gweithio gynyddu eu henillion ei atgyfnerthu'n sylweddol, ac mae'n drech na'r enillion a welwyd gan unrhyw grŵp arall (gweler Tabl 48, tudalen 105). Mae rhieni unigol yn arbennig yn cael budd o ddileu amldaprau sy'n gorgyffwrdd i'r rheini ag enillion isel.

Mae'r effeithiau a ragfyneir ar y cyflenwad llafur yn gyson â'r newidiadau o ran cymhellion i weithio. Disgwylir i'r diwygiadau, heb gynnwys CC, arwain at ostyngiad bach mewn cyfraddau cyflogaeth ymhlith rhieni unigol. Fodd bynnag, unwaith y caiff CC ei gynnwys, disgwylir i gyfraddau cyflogaeth gynyddu ychydig ymhlith rhieni unigol. O ran yr effaith ar yr oriau a gaiff eu gweithio ac enillion, disgwylir i'r diwygiadau yn cynnwys CC arwain at gynnydd mawr yn y ddau i rieni unigol (7.0 y cant ar gyfer cyfanswm yr oriau a gaiff eu gweithio a 5.1 y cant ar gyfer enillion o gymharu ag 1.0 y cant a 0.5 y cant yn y drefn honno i'r boblogaeth gyfan). Fodd bynnag, mae effeithiau o'r fath yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel amodau economaidd ehangach ac argaeledd trafndiaeth a gofal plant fforddiadwy (ffurfiol ac anffurfiol).

I gyplau, ar y cyfan bydd y diwygiadau lles yn atgyfnerthu'r cymhelliant i un partner weithio, ond byddant yn lleihau'r cymhelliant i'r ddau bartner weithio. Felly, disgwylir i'r diwygiadau leihau nifer y teuluoedd di-waith, cynyddu nifer y cyplau ag un enillydd, ond lleihau nifer y cyplau â dau enillydd sy'n gweithio. Menywod yw ail enillwyr cyplau (h.y. y partner sy'n ennill llai) yn bennaf, felly bydd eu rhagolygon gwaith yn wynebu mwy o risg. Er enghraifft, mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif, yng Nghymru, y bydd menywod â phlant a phartner sy'n gweithio yn gweld mwy o ostyngiad yn eu cyfradd gyflogaeth (0.8 pwynt canran) na dynion â phlant a phartner sy'n gweithio (0.5 pwynt canran).

---

<sup>13</sup> Fodd bynnag, gall yr effaith ar gymhellion i weithio fod yn wahanol i'r menywod hynny nad dydynt yn rhieni unigol (e.e. menywod sengl heb unrhyw rwymedigaethau teuluol).

## Pobl anabl<sup>14</sup>

### Pwyntiau allweddol

- Mae rheolau budd-daliadau yn amrywio ar sail anabledd/nam. Er enghraifft, gall hawliwr anabl a hawliwr nad yw'n anabl sydd fel arall yn union debyg gael symiau gwahanol o fudd-daliadau o ganlyniad i'w statws anabl/nam. Felly, bydd p'un a yw hawliwr yn anabl/ddim yn anabl yn cael effaith ar y graddau y mae'r diwygiadau lles yn effeithio arno. Mae nodweddion dylanwadol eraill (e.e. cyflogaeth, incwm ac ati) hefyd yn amrywio'n systemataidd rhwng y grwpiau hyn.
- Mae newidiadau mawr wedi cael eu gwneud i fudd-daliadau anabledd a salwch eisoes ac mae mwy i ddod eleni.
- Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi rhai mesurau ar waith i warchod pobl anabl drwy eithriadau a TTD uwch, bydd effeithiau sylweddol ar bobl anabl yng Nghymru. Mae'r rhain yn debygol o fod yn fwy amlwg nag yn y DU gyfan o ystyried y gyfran gymharol uchel o bobl yng Nghymru sy'n cael budd-daliadau anabledd a salwch.
- Bydd effeithiau penodol ar bobl anabl o ganlyniad i CC; y cap ar fudd-dal cartrefi; mynegeio budd-daliadau a chredydau treth MPD; cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth; meini prawf maint yn yr SRhC; a newidiadau i LBA, BA/LCCh a CBA. Hefyd, bydd effeithiau andwyol ar ofalwyr pobl anabl.
- Bydd strwythur CC yn cynnwys nifer o newidiadau i bobl anabl. Yn fwy penodol, gallai rhai plant anabl, pobl anabl sydd heb oedolyn i'w helpu, pobl anabl mewn gwaith a gofalwyr anabl golli rhai o'r ychwanegiadau anabledd a gânt o dan y system budd-daliadau bresennol. Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi ei bod yn bwriadu ailddosbarthu'r arbedion o doriadau o'r fath i'r oedolion â'r anabledd mwyaf difrifol, a bydd gan rai hawliwyr hawl hefyd i ddiogelwch trosiannol.
- O dan CC, bydd y cynnydd misol cyfartalog mewn hawliadau i gartrefi â pherson anabl yn llai nag ar gyfer cartrefi sy'n cael CC.
- Ar gyfartaledd, bydd y diwygiadau lles yn atgyfnerthu'r cymhelliant i weithio i'r rheini sy'n cael budd-dal anabledd eu hunain neu sydd â phartner sy'n cael budd-dal anabledd<sup>15</sup>. Mae hyn yn cael ei lywio gan y ffaith bod terfyn

---

<sup>14</sup> Ar y cyfan, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel rhywun â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn ychydig yn wahanol i ddiffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sydd hefyd yn gofyn i berson anabl ddangos fod gweithgaredd arferol bob dydd yr effeithir yn andwyol arno yn cynnwys un o restr o alluoedd megis symudedd, lleferydd, neu glyw.

<sup>15</sup> Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau ynghylch effaith y diwygiadau lles ar y cymhelliant i weithio neu gynyddu enillion yn cynnwys rhai diwygiadau pwysig i fudd-daliadau anabledd (yn enwedig symud gweddill y bobl sy'n hawlio BA i LCCh a'r broses gysylltiedig o ailasesu cyflyrau

amser ar LCCh cyfrannol (a fydd, mewn rhai achosion, yn arwain at leihau incwm allan o waith yn sylweddol) a chyflwyno CC yn y drefn honno.

- I'r rheini sydd eisoes yn gweithio ac yn cael budd-dal anabledd, disgwylir i'w cymhelliant i gynyddu eu henillion wella'n sylweddol, ar gyfartaledd, oherwydd CC yn bennaf. Fodd bynnag, bydd y sawl sy'n gweithio â phartner sy'n cael budd-dal anabledd<sup>16</sup> yn profi llai o gymhelliant i gynyddu eu henillion ar gyfartaledd oherwydd CC a'r toriadau lles.
- Mae pobl anabl yn llai tebygol o fyw mewn cartrefi â mynediad i'r rhyngwrwd na phobl nad ydynt yn anabl. Gall rhai namau hefyd ei gwneud hi'n anos i bobl anabl ddefnyddio'r system hawlio ar-lein. Felly, gall fod risgiau'n gysylltiedig â hawlio ar-lein i'r grŵp gwarchoddedig hwn.

### **Newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl y MPD yn hytrach na MPM**

Dengys data ABB ar gyfer Cymru fod 38 y cant o bobl rhwng 16 a 64 oed a oedd yn hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth/credydau treth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 yn anabl. Mae'r gyfradd hon yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer Prydain Fawr (33 y cant) a chyfran y bobl anabl yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol (25 y cant). Felly, caiff pobl anabl eu cynrychioli mewn modd anghymesur ymhlith y sawl sy'n derbyn budd-daliadau/credydau treth.

O ran colli incwm, o ystyried bod dyfarniadau budd-daliadau anabledd a salwch (LCCh/BA, LBA, premiymau anabledd o fewn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm) yn uwch ar gyfartaledd na budd-daliadau eraill fel LCG (gweler Tabl 1, tudalen 79), gall hawlwr anabl brofi colledion uwch ar gyfartaledd na hawlwr nad ydynt yn anabl.

### **Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofawr) a BP**

Er mwyn gwarchod grwpiau agored i niwed i ryw raddau, nid yw'r polisi hwn yn gymwys i LBA, Lwfans Gweini (LG), elfen Grŵp Cymorth LCCh (h.y. y rheini na ddisgwylir iddynt chwilio am waith), premiymau anabledd o fewn budd-daliadau oedran gweithio, ac elfennau anabledd credydau treth. Bydd y rhain yn parhau i gael eu huwchraddio yn unol â phrisiau (h.y. MPD). Drwy eithrio LBA, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013a) yn amcangyfrif na fydd y mesur hwn yn effeithio ar tua hanner y cartrefi sy'n cael LBA ym Mhrydain Fawr yn 2015/16. Er eu bod yn cael eu gwarchod gan eithriad LBA, effeithir ar weddill yr hawlwr am eu bod yn cael budd-daliadau eraill nad ydynt wedi'u heithrio o dan y mesur hwn.

---

iechyd, sy'n dileu'r hawl i gael budd-daliadau yn achos llawer o bobl). Mae'r canfyddiadau'n ymwneud â'r diwygiadau a fodelwyd gan Adam a Phillips (2013) yn unig. Hefyd, mae rhai o'r canfyddiadau'n seiliedig ar samplau bach (e.e. 53 o hawlwr budd-daliadau anabledd mewn rhai achosion) ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail sampl mor fach.

<sup>16</sup> Na fydd y mwyafrif helaeth ohonynt yn gweithio.

Bydd cartrefi sy'n cynnwys person anabl nad yw'n gymwys i gael budd-dal anableddeff hwyd yn profi effaith. At hynny, mae'r cartrefi hyn yn fwy tebygol o brofi effaith na chartref nad yw'n cynnwys rhywun a ddisgrifir fel person anabl (34 y cant o gartrefi o gymharu â 27 y cant o gartrefi<sup>17</sup>) am eu bod yn fwy tebygol o fod yn gymwys i gael y budd-daliadau hynny y mae'r mesur uwchraddio yn effeithio arnynt.

## CC

Fel rhan o CC, bydd Llywodraeth y DU yn diwygio'r system bresennol o bremymau anableddeff a chredydau treth lluosog sy'n gorgyffwrdd. Noda'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011b) ei bod hi'n anodd cyflenwi'r system hon a'i bod yn gallu cynnwys gwallau a pheri dryswch i bobl anabl. Yn ogystal â cheisio symleiddio'r system, dywed yr Adran Gwaith a Phensiynau ei bod yn bwriadu canolbwyntio adnoddau ar bobl ag anableddeff difrifol.

### Ychwanegiadau anableddeff cyfartal i oedolion a phlant

Ar hyn o bryd, mae gan rieni sy'n cael CTP ac sy'n gofalu am blant anabl hawl i gael swm ychwanegol ar ben eu credyd treth - elfen plentyn anabl (sy'n werth £3,015 y flwyddyn neu tua £58 yr wythnos - cyfraddau 2013/14), os yw eu plentyn yn cael unrhyw lefel o LBA. Mae gan y plant sydd â'r anableddeff mwyaf difrifol hawl i gael elfen anableddeff difrifol (sy'n werth £4,235 y flwyddyn neu tua £81 yr wythnos).

Mae uwchraddio mwy hael yn 2003-10 wedi golygu bod taliadau plant wedi cynyddu'n gyflymach na thaliadau oedolion, sydd wedi arwain at beidio â chysoni cyfraddau. O dan CC caiff y gyfradd is i blant anabl ei chysoni â'r gyfradd i oedolion, h.y. cyfradd gallu cyfyngedig i weithio (GCW), tra bydd y gyfradd anableddeff uwch i blant yn fwy na'r gyfradd gyfatebol i oedolion, h.y. cyfradd gallu cyfyngedig i weithio a gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith (GCWGGGG). Fodd bynnag, dros amser bydd y gyfradd GCWGGGG yn codi fel ei bod yn gyson â'r gyfradd uwch i blant anabl.

Disgwylir i'r gyfradd uwch i blant anabl fod yn gysylltiedig â chyfraddau uchaf elfen gofal LBA/elfen byw bob dydd TAB. Gan fod y gyfradd hon yn ymddangos ychydig yn uwch na'r elfen bresennol ar gyfer plant ag anableddeff difrifol, mae hyn yn awgrymu y gall teuluoedd â'r plant mwyaf anabl fod ychydig yn well eu byd.

Bydd teuluoedd plant sy'n cael cyfraddau canol neu is LBA/cyfradd safonol TAB yn gymwys i gael y gyfradd is i blant anabl a byddent yn cael elfen ychwanegol lai ar gyfer anableddeff plentyn o dan CC (tua £28 yr wythnos) na'r hyn a geir ar hyn o bryd (£58 yr wythnos drwy elfen plant anabl CTP).

---

<sup>17</sup> Yn seiliedig ar ddiffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anableddeff (sydd bellach wedi cael ei disodli gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Mae data CThEM<sup>18</sup> ar gyfer 31 Mawrth 2013 ar hawlwr credydau treth mewn gwaith sy'n cael budd o'r elfen ar gyfer plant anabl yn awgrymu y byddai'r newid hwn yn effeithio ar tua 8,700 o blant yng Nghymru mewn 8,100 o gartrefi (DU: 160,000 o blant mewn 150,000 o gartrefi). O'r rhain, mae 3,400 o blant yn cael yr elfen ar gyfer plant ag anabledd difrifol ar hyn o bryd ac maent yn debygol o weld cynnydd bach yn eu hawliad (DU: 60,000 o blant). Fodd bynnag, mae'r 5,300 o blant sy'n weddill ac sy'n cael yr elfen plant anabl yn debygol o fod â hawliad is o ganlyniad i'r diwygiadau i fudd-daliadau anabledd o dan CC (DU: 100,000), er y gallai rhai o'r cartrefi hyn gael budd o newidiadau eraill i CC a byddai eraill yn cael eu diogelu yn drosiannol. O dan CC bydd hefyd achosion nad ydynt mewn gwaith lle bydd y newid hwn yn effeithio arnynt.

### Dileu'r Premiwm Anabledd Difrifol

Ar hyn o bryd, gall fod gan bobl anabl o oedran gweithio sy'n cael elfen gofal cyfradd ganol neu uwch LBA ac sydd ar fudd-daliadau prawf modd (e.e. CI, LCG, LCCh, BT, ac ati) hawl i gael y Premiwm Anabledd Difrifol (PAD). Mae'r meini prawf ar gyfer ei hawlio hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r hawliwr fod yn byw ar ei ben ei hun (neu dim ond gyda phlant) heb unrhyw gymorth gan ofalwr a gaiff LGof. Mae'r premiwm hwn yn darparu cymorth (£59.50 yr wythnos, cyfradd 2013/14<sup>19</sup>) i bobl anabl dalu costau ychwanegol byw ar eu pen eu hunain neu gyda gofalwr sy'n oedolyn. I rieni anabl, gall y premiwm helpu i leihau'r pwysau ar eu plant i ofalu amdanynt. Bydd CC yn diwygio premiymau anabledd o'r fath mewn budd-daliadau prawf modd. Bydd elfen anabledd CC yn symlach na'r system bresennol o LCCh a phremiymau anabledd mewn budd-daliadau eraill sy'n destun prawf modd. Ni fydd unrhyw beth arall yn cyfateb i'r PAD uwch sy'n bodoli ar hyn o bryd yn achos y rhan fwyaf o fudd-daliadau prawf modd, sy'n golygu y gallai hawlwr golli hyd at £59.50 yr wythnos. Bydd hyn yn effeithio ar hawlwr newydd yn y lle cyntaf. Ni fydd hawlwr presennol yn gweld eu budd-dal yn cael ei gwtogi ar unwaith o ganlyniad i fesurau diogelu trosiannol rhag colledion o dan CC.

Yn ôl Disability Rights UK, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a Chymdeithas y Plant (2012) mae tua 230,000 o oedolion anabl (sy'n hawlio CI neu LCG) ym Mhrydain Fawr yn cael PAD, ac mae 25,000 ohonynt yn rhieni unigol.

Yng Nghymru, roedd tua 9,140 o hawlwr CI â PAD ym mis Tachwedd 2012, ac roedd 200 o'r rhain yn rhieni unigol. Yn ogystal, amcangyfrifir bod tua 100 o hawlwr LCG yng Nghymru â PAD<sup>20</sup> (Cyfarwyddiaeth Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch yr Adran Gwaith a Phensiynau).

<sup>18</sup> Mae'r data hwn yn seiliedig ar hap sampl o deuluoedd a oedd yn cael CTP neu CTG ar 31 Mawrth 2013. Mae'r sampl yn cynnwys 10 y cant o oedolion sengl o'r fath (heb blant neu â phlant) ac 20 y cant o gyplau o'r fath. Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn felly.

<sup>19</sup> [www.gov.uk/disability-premiums-income-support/what-youll-get](http://www.gov.uk/disability-premiums-income-support/what-youll-get)

<sup>20</sup> 100% Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (CI) a sampl o 5% (LCG). Nodiadau: 1. Mae ffigurau CI wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Mae ffigurau LCG wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf. 2. Nid yw ffigurau CI yn cynnwys hawlwr MIG sy'n weddill. 3. Mae ffigur LCG yn seiliedig ar nifer fach iawn o achosion sampl ac felly ceir cryn amrywiad o ran samplu, felly dim ond fel canllaw y dylid defnyddio ffigurau o'r fath. 5. Diffinnir rhieni unigol fel hawlwr sengl â phlentyn o dan 16 oed.



## Newidiadau i gymorth ar gyfer oedolion anabl sy'n gweithio

Mae rheolau presennol LCCh ar gyfer gwaith a ganiateir yn caniatáu i bobl wneud rhywfaint o waith tra'n cadw eu LCCh. Er enghraifft, mae terfyn is presennol gwaith a ganiateir yn caniatáu i rywun ennill hyd at £20 yr wythnos heb gyfyngiad cyn i unrhyw fudd-dal gael ei dynnu'n ôl ac mae terfyn uwch gwaith a ganiateir yn caniatáu i rywun weithio llai nag 16 awr yr wythnos, gan ennill llai na £99.50 yr wythnos, am hyd at 52 wythnos (heb gyfyngiad ar gyfer y rheini yn y Grŵp Cymorth) cyn iddynt golli hawliad.

Ar hyn o bryd, mae pobl anabl sy'n gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos ac sydd â nam sy'n eu rhoi dan anfantais o ran cael swydd ac sy'n cael budd-dal cymhwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd, neu sydd wedi ei gael yn ddiweddar, yn gymwys i gael elfen gweithiwr anabl CTG ar hyn o bryd. Ar 1 Ebrill 2013, roedd 7,500 o deuluoedd yng Nghymru yn cael budd o'r elfen hon (CThEM, 2013), sy'n werth tua £55 yr wythnos.

O dan CC, ni wahaniaethir rhwng pobl anabl sy'n gweithio llai neu fwy nag 16 awr yr wythnos. Bydd hyn yn datrys y broblem i bobl anabl a hoffai ennill mwy nag £20 ond na allant weithio 16 awr neu fwy yr wythnos. Bydd y rheini sydd angen cymorth ychwanegol am eu bod yn anabl yn gorfod cymryd AGW LCCh. Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad hwn, caiff yr elfennau priodol (GCW neu GCWGGGG) eu cynnwys yn eu hawliad CC hyd yn oed os ydynt yn gweithio'n amser llawn. Bydd hefyd yn bosibl i anwybyddu anabledd yn achos hawlwyr (gweler tudalen 38). Fodd bynnag, ni fydd y rheini yr asesir eu bod yn 'ffit i weithio' yn cael unrhyw gymorth ychwanegol mewn gwaith o fewn CC.

## Cymorth ychwanegol i oedolion anabl yn y Grŵp Cymorth ar gyfer LCCh

Bydd y premiwm a gaiff ei dalu i'r Grŵp Cymorth yn LCCh ar hyn o bryd yn cynyddu. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) yn nodi y caiff adnoddau a ryddheir yn sgil dileu'r premiymau presennol (a amlinellir uchod) eu hailfuddsoddi yn yr elfen cymorth gyfatebol, gan ei chynyddu fesul cam wrth i adnoddau ddod ar gael o £32.35 i tua £77 (cyfraddau budd-daliadau 2011/12). Bydd yr ychwanegiad llai a delir i elfen gyfatebol GGGG yn werth £26.75 yr wythnos (fel nawr). Bydd hyn yn ymestyn y gwahaniaeth bach iawn (£5) rhwng dwy elfen LCCh sy'n bodoli ar hyn o bryd, gyda'r nod o ganolbwyntio adnoddau'n fwy effeithiol ar bobl ag anabledd difrifol.

Er y bwriedir i'r effaith gyffredinol fod yn niwtral o ran refeniw, bydd y diwygiadau yn gweld pobl ar eu hennill ac ar eu colled ymhlith y rheini sy'n hawlio budd-daliadau anabledd ar hyn o bryd. Er enghraifft, bydd unigolion sengl sy'n hawlio ar gyfraddau uwch a chanol elfen gofal LBA ar eu colled, oherwydd caiff elfen PAD CI ei cholli o dan CC. Tra bydd eraill sydd yng Ngrŵp Cymorth LCCh (ac nad oes ganddynt hawl i gael PAD am fod ganddynt bartner i ofalu amdanynt neu nad oes ganddynt hawl i gael cyfradd ganol neu uwch elfen gofal LBA) ar eu hennill oherwydd bydd y premiwm a roddir i'r sawl yn y grŵp hwn yn cynyddu.

## Bod yn gymwys i gael elfen anabledd neu ofalwr, nid y ddwy

Ar hyn o bryd, gall rhai gofalwyr sy'n hawlio LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm gael y premiymau anabledd a gofalwyr, sydd felly'n cydnabod bod gan rai gofalwyr broblemau iechyd eu hunain hefyd. Fodd bynnag, yn dilyn cyflwyno CC, dim ond yr elfen gofalwr neu anabledd oedolyn a gaiff gofalwr, nid y ddwy. Bydd y gofalwr yn cael un o'r elfennau anabledd os yw'n werth mwy na'r elfen gofalwr. Os bydd amgylchiadau gofalwr yn aros yr un peth, ni ddylai fod yn waeth ei fyd pan fydd yn symud i CC oherwydd bydd yn gallu cael diogelwch trosiannol (taliad ychwanegol i gadw ei incwm ar yr un lefel â'i fudd-dal neu fudd-daliadau blaenorol). Eto i gyd, ni wnaiff hyn ddiogelu pawb yr effeithir arnynt a bydd y newid hwn yn golygu y bydd rhai gofalwyr â phroblemau iechyd yn waeth eu byd o dan CC. Mae hefyd yn debygol o gael effaith anghymesur ar fenywod a'r rheini rhwng 35 a 64 oed o ystyried natur ddemograffig gofalwyr.

At hynny, dim ond un person all hawlio'r elfen gofalwr am ofalu am berson ag anabledd difrifol. Os oes dau ofalwr ar gyfer yr un person, ac mae'r ddau ohonynt yn darparu o leiaf 35 awr o ofal, bydd angen i'r gofalwyr gytuno pwy fydd yn hawlio'r elfen gofalwr. Fodd bynnag, os oes dau oedolyn yn yr un cartref, a bod y ddau yn bodloni'r meini prawf gofalu ond ar gyfer dau berson anabl gwahanol, yna bydd CC yn talu elfen gofalwr i bob oedolyn.

## Anwybyddu enillion uwch a thapr unigol

O dan CC, bydd gan bob teulu lefel benodol o enillion a anwybyddir cyn i CC ddechrau cael ei dynnu'n ôl ar sail tapro unigol. Bydd lefel yr anwybyddiadau o ran enillion yn amrywio yn ôl y math o deulu, a bydd yn is ar gyfer y rheini sy'n cael yr elfen tai nag ar gyfer eraill.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011b) yn nodi y bydd y tapr unigol a'r anwybyddiad uwch ar gyfer cartrefi ag oedolyn anabl (hyd at £7000) yn cynorthwyo'r bobl anabl hynny a all weithio ychydig oriau (yn enwedig y rheini y mae eu gallu i weithio yn amrywio, er enghraifft oherwydd problemau iechyd meddwl).

## Gofynion amodoldeb

Yn ogystal â newid cyfraddau tynnu budd-daliadau yn ôl ac anwybyddiadau incwm yn sylweddol, mae CC yn cynnwys newid sylweddol i ofynion chwilio am waith y rheini sy'n derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd. O dan CC, caiff terfyn awr ar gyfer gofynion chwilio am waith ei ddisodli gan drothwy enillion sy'n llawer llymach<sup>21</sup>. Mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif y byddai tua 170,000 o unigolion yng Nghymru yn wynebu amodau'n gysylltiedig â gwaith petai'r fath amodau yn cael eu cyflwyno hyd at yr uchafswm enillion a chan dybio bod y sawl sydd â hawl iddo yn cael CC. Mae hyn o gymharu â thua 120,000 cyn cyflwyno CC (unwaith eto gan dybio bod pawb sy'n gymwys yn ei

<sup>21</sup>Noda Adam a Phillips (2013) y gall gofynion chwilio am waith gwmpasu llawer mwy, yn enwedig y rheini mewn cyplau. Er enghraifft, mae amodau LCG yn gymwys i hyd at 16 awr neu £76 (£121 i gyplau), tra y gall CC ehangu hyn i 35 gwaith yr isafswm cyflog yr wythnos = £213 (£426 i gyplau).

hawlio)<sup>22</sup>. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn amcangyfrif y bydd ychydig dros chwarter y partneriaid y bydd y trefniadau diwygiedig o ran amodau o dan CC yn effeithio arnynt yn anabl.

### Effaith gyffredinol CC ar incwm cartrefi

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn amcangyfrif y bydd y cynnydd misol cyfartalog yn hawliad cartrefi â pherson anabl (£8) yn llai nag ar gyfer pob cartref yn y garfan boblogaeth<sup>23</sup> (£16). Priodolir hyn i'r ffaith bod cartrefi anabl yn fwy tebygol o fod allan o waith, ac mae cartrefi o'r fath yn llai tebygol o weld newid mewn hawliad o dan CC.

### Effaith gyffredinol CC ar dlodi

Cafodd asesiad o effaith CC ar dlodi ei gynnal fel rhan o asesiad effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2011 ond nid yw'n ystyried cyhoeddiad Datganiad yr Hydref 2012, sy'n gwneud CC yn llai hael. Yn ei hasesiad diweddaraf o effaith (Rhagfyr 2012), nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi mesur effaith CC ar dlodi. Er bod Gweinidog Pobl Anabl Llywodraeth y DU wedi rhoi ffigurau mwy diweddar ar dlodi mewn ymateb i gwestiwn seneddol<sup>24</sup>, mae'r rhain ond yn ymwneud â phob cartref yr effeithir arno ac nid ydynt wedi'u dadansoddi yn ôl grwpiau gwahanol (er enghraifft cartrefi â pherson anabl).

Yn flaenorol, amcangyfrifodd DWP (2011a) y byddai 550,000 o oedolion a 350,000 o blant yn gallu symud allan o dlodi o ganlyniad i CC. Fodd bynnag, y niferoedd mwyaf diweddar<sup>25</sup> ar gyfer y rheini sydd wedi symud allan o dlodi yw 350,000 a 250,000 (ar gyfer oedolion a phlant yn y drefn honno), neu 250,000 a 150,000, yn dibynnu ar effaith dybiedig yr isafswm incwm.<sup>26</sup> Fodd bynnag, mesur cymharol o dlodi yw hwn ac felly bydd newidiadau yn y llinell dlodi yn

<sup>22</sup> Cyfrifwyd y ffigurau gan ddefnyddio model micro-efelychu treth-budd-dal IFS, TAXBEN, ac AAT 2007/08, 2008/09 a 2009/10. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys pobl hunangyflogedig y tybir eu bod yn ennill swm sy'n cyfateb i nifer yr oriau y disgwylir iddynt weithio neu fod yn chwilio am waith o dan CC wedi'i lluosio â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer eu hoedran, llai treth incwm dybiannol a chyfraniadau YG. Mae'r oriau disgwylidig yn dibynnu ar amgylchiadau'r hawlwr, er enghraifft i rywun dros 25 oed nad oes unrhyw gyfyngiad ar ei oriau gwaith byddai'r lefel a bennwyd yn 35xICC. Pan fo cyfyngiadau ar yr oriau y gall rhywun weithio, caiff lefel MIF ei gostwng yn briodol (Adran Gwaith a Phensiynau, 2012e).

<sup>23</sup> Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi diffinio 'cronfa poblogaeth' fel pob cartref a fyddai, fel arall, wedi bod ar y budd-daliadau neu gredydau treth etifeddiaeth a gafodd eu diddymu gan Ddeddf Diwygio Lles 2012, a'r sawl sy'n dod yn gymwys o ganlyniad i reolau newydd taliadau CC.

<sup>24</sup> <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm130115/text/130115w0003.htm>

<sup>25</sup> Y Gweinidog Anabledd Esther McVey mewn ymateb i gwestiwn seneddol (15/01/2013): <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm130115/text/130115w0003.htm>

<sup>26</sup> Mae hon yn lefel dybiedig o enillion a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyfrifo taliadau CC ar gyfer pobl hunangyflogedig os yw eu henillion o dan y lefel honno.

Bydd lefel MIF yn cael ei phennu ar swm sy'n gyson â disgwyladau gwaith ac enillion eraill mewn amgylchiadau tebyg. Os nad oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer yr oriau y gall yr hawliwr weithio, mae'r isafswm incwm yn debygol o gyfateb i weithio 35 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer y grŵp oedran perthnasol.

cyfrif am gryn dipyn o'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon gwreiddiol a'r amcangyfrifon diweddaraf yn hytrach na lleihad mewn incwm ar gyfer y rheini y mae CC yn effeithio arnynt.

O ystyried y ffigurau diwygiedig, bydd yr amcangyfrif y bydd tua 250,000 o unigolion mewn cartrefi â pherson anabl yn dod allan o dlodi o ganlyniad i gyfraddau derbyn uwch a newid hawliadau a gafodd eu cynnwys yn asesiad effaith 2011 hefyd yn sylweddol is. Mae'r asesiad hwn o effaith hefyd yn nodi bod pobl anabl ychydig yn llai tebygol o adael tlodi. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn fwy tebygol o fod allan o waith a chartrefi mewn gwaith a fydd yn profi lleihad mewn tlodi o ganlyniad i CC yn bennaf. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Er nad yw'r asesiad o'r effaith ar dlodi yn ystyried unrhyw ymatebion ymddygiadol (e.e. cael gwaith) a all leihau tlodi, nid yw ychwaith yn cynnwys effaith cynyddu tlodi y toriadau ehangach i les.

### **Effaith CC ar gymhellion i weithio<sup>27</sup>**

Ar gyfartaledd, disgwylir i CC arwain at atgyfnerthu'r cymhelliant i weithio yn sylweddol ymhlith y rheini â phartner sy'n cael budd-dal anabledd. Mae hyn yn llawer mwy na'r gwelliant cyfartalog a ddisgwylir ar gyfer y boblogaeth gyfan. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, bydd y sawl sy'n cael budd-dal anabledd yn gweld dirywiad bach mewn cymhellion o'r fath (Adam a Phillips, 2013) (gweler Tabl 47, tudalen 104).

Fel y patrwm sy'n goroesi ar gyfer effaith gronnol y diwygiadau lles, disgwylir i'r rheini sydd eisoes yn gweithio ac yn cael budd-dal anabledd weld gwelliant sylweddol yn eu cymhelliant i gynyddu eu henillion ar gyfartaledd o ganlyniad i CC (Adam a Phillips, 2013). Bydd y rheini sy'n gweithio ac nad oes unrhyw oedolyn yn y teulu yn cael budd-dal anabledd hefyd yn gweld gwelliant yn y cymhelliant i gynyddu eu henillion ar gyfartaledd, er i raddau llawer llai. I'r gwrthwyneb, bydd y sawl sy'n gweithio â phartner sy'n cael budd-dal anabledd yn gweld dirywiad yn y cymhelliant i gynyddu eu henillion ar gyfartaledd (gweler Tabl 48, tudalen 105), yn nodweddiadol oherwydd bod cyfradd rhoi'r gorau i CC yn uwch na chyfradd rhoi'r gorau i gredydau treth a wynebwyd o dan yr hen gyfundrefn.

### **Mynediad ar-lein**

Elfen allweddol o CC fydd y defnydd o'r system hawlio ar-lein, gyda Llywodraeth y DU yn anelu at weld 80 y cant o drafodion yn cael eu cyflawni'n ddigidol erbyn 2017. Mae risgiau ynghlwm wrth hyn oherwydd nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngwyd neu ni allant ddefnyddio safleoedd penodol, sy'n cynnwys rhai pobl yn y grwpiau gwarchoddedig. I liniaru'r risgiau hyn, dywed yr Adran Gwaith a Phensiynau y bydd yn cynnig llwybrau mynediad amgen dros y ffôn yn bennaf ond hefyd wyneb yn wyneb i hawlwyd ar sail anghenion. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw'n glir sut y caiff yr angen hwn ei asesu. Ar yr amod bod y cymorth priodol yn cael ei roi, gall y newid i hawlio ar-lein gynnig cyfleoedd i gynyddu

<sup>27</sup> Mae'n bwysig nodi bod rhai o'r canfyddiadau ynghylch effaith y diwygiadau lles ar gymhellion i weithio yn seiliedig ar samplau bach (e.e. 53 o hawlwyd budd-daliadau anabledd mewn rhai achosion) ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail sampl mor fach.

nifer y bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd am y tro cyntaf, a allai wedyn arwain at bobl yn nodi ac yn achub ar gyfleoedd fel chwilio am swydd ac ymgeisio am swydd ar-lein yn ogystal â chael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Fodd bynnag, yng Nghymru, nid yw chwarter yr oedolion yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn rheolaidd. At hynny, mae pobl anabl yn llawer llai tebygol o fyw mewn cartrefi â mynediad i'r rhyngwrwyd na phobl nad ydynt yn anabl. Er enghraifft, mae 60 y cant o'r rheini â salwch hirdymor neu anabledd/nam yn defnyddio'r rhyngwrwyd o gymharu ag 82 y cant nad ydynt wedi cofnodi unrhyw broblemau iechyd (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012b). Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall mynediad i'r rhyngwrwyd fod yn rhy ddrud i rai pobl ac nid yw bob amser yn bosibl neu'n briodol cael mynediad cyhoeddus ac efallai na fydd gan bobl y sgiliau angenrheidiol. At hynny, gall hawlio ar-lein olygu bod rhai pobl yn agored iawn i niwed o ran materion fel dwyn hunaniaeth a diogelwch ar-lein. Gall hyn gynnwys hawlwyr anabl a hŷn. Yn ogystal, efallai y bydd angen i bobl nad oedd angen iddynt gael gwasanaethau cynghori cyn cyflwyno hawlio ar-lein gael gwasanaethau o'r fath bellach, a allai effeithio ar eu hannibyniaeth a pheri costau ychwanegol.

Pan fo gofawyr neu unigolion eraill yn helpu person anabl i hawlio (ar-lein neu fel arall), a bod hawliad yn dod yn destun ymchwiliad neu sancsiynau, mae angen egluro rhwymedigaeth oherwydd gall hyn roi'r hawliwr anabl mewn sefyllfa agored iawn i niwed.

### **Cap ar fudd-dal cartrefi**

Gan gydnabod y costau ychwanegol a wynebir gan bobl anabl, mae pob hawliwr sy'n cael LBA (neu TAB sy'n ei ddisodli), LG, Budd-dal Anafiadau Diwydiannol, neu elfen cymorth LCCh wedi'u heithrio rhag y cap ar gyfanswm taliadau lles cartrefi.

Fodd bynnag, fel y nodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012a), gall anabledd gael ei ddiffinio mewn sawl ffordd a chael y budd-daliadau anabledd hynny yw un ffordd. Felly, ni chaiff pob hawliwr anabl ei warchod rhag effeithiau'r cap ar fudd-dal cartrefi gan yr eithriad hwn. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif, o'r cartrefi hynny sydd ar eu colled yn sgil y polisi hwn, y bydd tua 50 y cant yn cynnwys rhywun a gaiff ei ystyried yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **LBA, TAB a LGof**

Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer mis Tachwedd 2012 fod 246,440 o bobl yn derbyn LBA yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi syniad o nifer y bobl y bydd disodli LBA yn raddol â TAB yn effeithio arnynt. Yng Nghymru, effeithir ar hawlwyr LBA presennol o fis Hydref 2013 tra dechreuodd hawliadau newydd ar gyfer TAB ym mis Mehefin 2013. Mae'r bobl sy'n derbyn LBA yn cyfrif am 8 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru o gymharu â dim ond 5 y cant ledled Prydain Fawr. O ystyried hyn, disgwylir i'r diwygiadau i LBA effeithio ar Gymru yn fwy.

O ystyried diben LBA i ddarparu cyfraniad arian parod tuag at gostau ychwanegol anghenion sy'n deillio o nam neu gyflwr iechyd, mae'r diffiniad o anabledd, fel y'i hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (sef y diffiniad presennol a ddefnyddir at ddibenion Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb), yn debygol o fod yn gymwys i'r mwyaf helaeth o dderbynwyr. Er nad oes dadansoddiad ar gael o'r sawl sy'n derbyn LBA gan adlewyrchu'r diffiniad o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Arolwg Adnoddau Teulu (AAT) (2009/10) yn rhoi gwybodaeth am statws anabledd y sawl sy'n derbyn LBA fel y'i diffiniwyd gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r ffynhonnell hon yn awgrymu bod dros 90 y cant o'r oedolion sy'n derbyn LBA yn anabl o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012c) yn nodi bod y ganran hon yn debygol o fod yn danamcangyfrif a'i bod wedi'i mesur yn anghywir.

Y prif gyflyrau meddygol mwyaf cyffredin ymhlith y sawl sy'n derbyn LBA yng Nghymru yw arthritis (14 y cant), seicosis (11 y cant) ac anawsterau dysgu (10 y cant).

Tra disgwylir i 45 y cant o'r llwyth achos LBA a ailasesir gael dyfarniad uwch neu aros yr un peth, disgwylir i 30 y cant weld eu dyfarniad yn gostwng ac efallai y bydd 25 y cant yn colli eu cymhwysedd yn gyfan gwbl. Amcangyfrifir y bydd tua 42,500 yn llai o unigolion yn cael TAB erbyn mis Mai 2018 o gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd o dan LBA (Llywodraeth Cymru, 2013a). Yn ogystal â cholli cymhwysedd i gael TAB (neu dderbyn llai o ddyfarniad nag o'r blaen), efallai y bydd pobl hefyd yn colli budd-daliadau eraill y mae cael LBA/TAB yn basbort, e.e. cynllun y Bathodyn Glas (Parcio i'r Anabl), eithriad rhag y cap ar fudd-dal cartrefi, a chynyddu trothwy oedran CLIR BT. Lle mae gan unigolion sy'n derbyn LBA ofalwr sy'n cael LGof, gallant hefyd weld sgil-ffeithiau diwygio LBA. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif, ym mis Hydref 2015, na fydd 700 o hawlwr bellach yn gymwys i gael LGof yng Nghymru o dan TAB o gymharu ag LBA (h.y. heb ddiwygiad)<sup>28</sup>. Mae hyn yn debygol o effeithio ar fwy o bobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl gan fod gofalwyr yn fwy tebygol o fod yn anabl na'r boblogaeth yn gyffredinol (Adran Gwaith a Phensiynau, 2012c). Er enghraifft, mae AAT (2009/10) yn dynodi bod 30 y cant o'r rheini sy'n cael LGof yn ystyried eu hunain yn anabl o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd o gymharu â thua 17 y cant o'r boblogaeth gyfan. At hynny, mae tua 20 y cant o'r rheini sy'n gymwys i gael LGof hefyd yn cael LBA (Cronfa Ddata Anabledd a Gofalwyr, Mai 2011). Mae'r gorgyffwrdd hwn yn golygu y bydd rhai gofalwyr yn teimlo effaith uniongyrchol (hawliad i TAB) ac effaith anuniongyrchol (hawliad i LGof) diwygio LBA.

Mae dyfarniadau LBA yn seiliedig ar gyflwr neu nam penodol. Gall y broses o adolygu dyfarniadau o'r fath fod yn afreolaidd gyda rhai yn cael eu gwneud am

---

<sup>28</sup> Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013) yn amcangyfrif, ym mis Hydref 2015, y bydd llwyth achos LGof ar lefel Prydain Fawr 12,000 yn llai o dan TAB (yn cynnwys hawliadau newydd yn ogystal ag achosion wedi'u hailasesu) o gymharu ag o dan LBA heb unrhyw ddiwygiadau. Mae amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn tybio effaith sy'n gymesur â ffigur cronol Prydain Fawr (6 y cant).

gyfnod amhenodol ac efallai na fyddant yn adlewyrchu newidiadau o ran effaith nam. Fodd bynnag, caiff TAB ei ddyfarnu ar sail gallu unigolyn a bydd am gyfnod sefydlog a chaiff ei ailasesu'n rheolaidd (oni fydd gan yr hawliwr salwch terfynol). Er y bydd yr ailasesu rheolaidd hwn yn creu ansicrwydd i hawlwr o ran eu hawliad yn y dyfodol, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu sicrhau bod dyfarniadau'n parhau i fod yn gywir ac yn adlewyrchu newidiadau posibl yng ngallu hawlwr.

### **Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol i'r rheini yn y GGGG**

Amcangyfrifir y bydd tua 56,000 o hawlwr yng Nghymru yn gweld eu hincwm o fudd-daliadau yn lleihau hyd at £89 yr wythnos o ganlyniad i'r polisi terfyn amser ar gyfer LCCh cyfrannol (Llywodraeth Cymru, 2013a).

O ystyried bod LCCh yn targedu pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, mae'r newid polisi hwn yn debygol o gael effaith anghymesur ar bobl anabl. Yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a), mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael LCCh cyfrannol am dros flwyddyn yn debygol o ddod o dan ddiffiniad Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd. Yn wir, dengys gwybodaeth hunangofnodedig yn AAT (2008/09) fod tua 90 y cant o'r rheini a oedd yn derbyn LCCh a BA o'r farn eu bod yn 'anabl' (ar sail y diffiniad yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd).

O ystyried y prif gyflyrau meddygol a gofnodwyd i'r rheini sy'n hawlio LCCh cyfrannol yn y GGGG, mae'r polisi terfyn amser hwn yn debygol o effeithio ar fwy o bobl ag anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol a chlefydau'r system gyhyrsgerbydol a meinwe gysylltiol na'r rheini â chyflyrau eraill (gweler Tabl 23, tudalen 90).

Fodd bynnag, caiff yr effeithiau eu lliniaru ar gyfer y bobl â'r anableddau mwyaf difrifol (a'r rheini ar incwm isel) oherwydd ni fydd y Grŵp Cymorth yn LCCh (a LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm) yn destun y terfyn amser. Hefyd, efallai y bydd unigolion ar incwm isel neu heb incwm arall eisoes yn gymwys i gael LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm, neu byddant yn dod yn gymwys i'w gael, a fydd yn gwneud iawn am golli LCCh cyfrannol yn llawn neu'n rhannol. Yn achos y rheini nad ydynt yn gymwys i gael LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm (oherwydd ffynonellau incwm eraill), byddant yn gallu cael cymorth drwy'r Rhaglen Waith i'w helpu i symud tuag at y farchnad lafur.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi bod y newid polisi hwn yn gam tuag at gysoni LCG cyfrannol ond mae mwy o amser cyn i'r terfyn amser ddod i rym gan gydnabod rhai rhwystrau i waith sy'n gysylltiedig ag anabledd.

## **Dileu amodau cymhwyso YG 'ieuenctid' LCCh consesiynol**

Gan fod LCCh ond ar gael i'r rheini â gallu cyfyngedig i weithio oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd, mae'r rhan fwyaf (tua 90 y cant<sup>29</sup>) o achosion 'ieuenctid' LCCh yn debygol o gael eu hystyried yn anabl. Felly, bydd y mesur hwn yn cael effaith anghymesur ar bobl anabl, yn enwedig y rheini â chyflyrau meddyliol ac ymddygiadol a chlefydau'r system nerfol, gan mai'r rhain yw'r cyflyrau meddygol sylfaenol mwyaf cyffredin ymhlith hawl wyr 'ieuenctid' BA (55 y cant ac 16 y cant yn y drefn honno - Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mai 2010).

Wrth gymharu cyflyrau meddygol sylfaenol a derbyn LBA ar gyfer hawl wyr 'ieuenctid' BA a hawl wyr 'eraill' BA, mae'n awgrymu bod y garfan gyntaf yn fwy tebygol o fod â chyflyrau hirdymor a bod angen mwy o gymorth. Yn ogystal, mae cyfran fwy o'r rheini o dan 21 oed (23 y cant), a all gael ei defnyddio fel procsi ar gyfer hawl wyr 'ieuenctid' LCCh, wedi cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth<sup>30</sup> yn dilyn eu AGW ar gyfer LCCh o gymharu â phob hawl yr (9 y cant)<sup>31</sup>.

## **Newidiadau i BP**

Nid yw CThEM wedi nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar y grŵp hwn o ganlyniad i roi'r gorau i dalu BP i deuluoedd sy'n cynnwys rhywun sy'n ennill mwy na £50,000.

## **CDG (2013–14)**

Ni chesglir ystadegau ar y sawl sy'n derbyn BDG ar sail namau penodol, felly dim ond y sawl sy'n cael budd-dal anabledd (LBA, LG, LAD, BA, CI â phremiwm anabledd, neu LCCh) a all gael eu hystyried. Yng Nghymru, mae cartrefi sy'n cynnwys oedolyn sy'n cael budd-dal sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cyfrif am 57 y cant o wariant ar CDG, gan awgrymu y bydd cartrefi o'r fath yn cael budd arbennig o'r cymorth ychwanegol (£22 miliwn) a roddir gan Lywodraeth Cymru yn 2013-14. Byddai'r ffigur hwn hyd yn oed yn uwch os oedd yn cynnwys y rheini â phlentyn anabl yn y cartref (Adam a Browne, 2012).

## **CG/CCD**

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, gwnaed 7,759 o geisiadau llawn i gynllun CCD yng Nghymru. Dim ond traean o hawl wyr i'r Gronfa sydd wedi rhoi gwybodaeth am eu statws anabledd. O'r rhai a wnaeth hynny, roedd 14 y cant wedi'u cofrestru'n anabl. Mae hyn yn llai na chyfran y boblogaeth o oedran

---

<sup>29</sup> Mae tua 90 y cant o dderbynwyr LCCh a BA yn 'anabl' gan ddefnyddio gwybodaeth hunangofnodedig yn yr AAT (08/09) am b'un a yw'r cwsmer yn anabl o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a oedd mewn grym ar adeg yr arolwg.

<sup>30</sup> Mae effeithiau cyflwr iechyd neu anabledd hawl yr mor ddifrifol fel y byddai'n afresymol disgwyl iddo baratoi am waith.

<sup>31</sup> Yn seiliedig ar ddadansoddiad mewnol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad *Employment and Support Allowance: Work Capability Assessment by Health Condition and Functional Impairment: Hydref 2010* (Adran Gwaith a Phensiynau, 2010).



gweithio yn gyfan gwbl yng Nghymru (24 y cant – ABP, 2012). Nid oes data ar gael ar gyfer cyfran y boblogaeth 16 oed a throsodd yng Nghymru sydd wedi'i chofrestru'n anabl, ond mae'r gyfran hon yn debygol o fod yn uwch o ystyried bod y tebygolrwydd o gofrestru rhywun yn anabl yn cynyddu gydag oedran. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod a yw hawlwy'r CCD sydd wedi rhoi'r wybodaeth hon yn cynrychioli'r hawlwy'r cyffredinol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro dosbarthiad ceisiadau a dyfarniadau yn ôl statws anabledd (a nodweddion gwarchoddedig eraill) o dan y system newydd.

## **CBA**

Ar y cyfan, caiff taliadau CBA eu gwneud yn ôl anghenion cymorth yn hytrach nag ar sail anabledd neu gyflwr meddygol penodol. Dengys Tabl 45 (tudalen 102) ddefnyddwyr gwasanaethau CBA yng Nghymru yn ôl eu prif anabledd. Anableddau dysgu difrifol (35 y cant) a pharllys yr ymennydd (16 y cant) yw'r ddau gyflwr mwyaf cyffredin.

## **Dileu cymhwysedd CI i rieni unigol yn seiliedig ar oedran eu plentyn ieuengaf**

Gall rhai o'r rheini y mae'r RhRhU yn effeithio arnynt fod yn anabl. Yn wir, mae tystiolaeth arolwg yn awgrymu bod rhieni unigol yn fwy tebygol o nodi eu bod yn anabl (20 y cant) na'r boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol (17 y cant<sup>32</sup>). Er mwyn lliniaru'r effeithiau ar y grŵp hwn, nodar Adran Gwaith a Phensiynau (2011f) y bydd y rheini sy'n gymwys i hawlio LCCh<sup>33</sup> yn cael cymorth wedi'i deilwra. Fodd bynnag, dengys canfyddiadau arolwg Coleman a Riley (2012) nad oedd llawer o'r ymatebwyr yr oedd yr estyniad i RhRhU yn effeithio arnynt o'r farn eu bod wedi cael help na chyingor tra'u bod yn cael LCCh (74 y cant) ac roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno nag anghytuno fod derbynwyr LCCh yn cael eu rhoi dan bwysau i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gall fod gan hawlwy'r eraill yr effeithir arnynt blentyn anabl neu blentyn â chyflwr iechyd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno eithriad i liniaru'r effaith ar y grŵp hwn. Er enghraifft, bydd rhieni unigol sydd ar CI ac sydd â phlentyn y mae elfen gofal cyfradd ganol neu uwch LBA yn daladwy iddo yn parhau i fod yn gymwys i hawlio CI pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd pump oed.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall y ddau grŵp uchod (h.y. y rheini â chyflwr iechyd neu sy'n anabl eu hunain a'r rheini â phlentyn anabl) ei chael hi'n anodd cael gwaith (Adran Gwaith a Phensiynau, 2011f) ac felly efallai na welant gynifer o fudd-daliadau yn sgil y diwygiad hwn o gymharu â gweddiill y rhieni unigol yr effeithir arnynt.

---

<sup>32</sup> Ffynhonnell: Arolwg Llafurlu Cartrefi, 2010, Chwarter 2. Fel y diffiniwyd o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (sydd bellach wedi'i disodli gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

<sup>33</sup> Mae tystiolaeth arolwg yn awgrymu, yn syth ar ôl gadael CI, mai rhieni unigol oedd fwyaf tebygol o symud i LCG (55 y cant), tra bod 12 y cant yn hawlio LCCh a 24 y cant yn cael swydd (Coleman, M a Riley, T, 2012).

## **Newidiadau i reolau oriau cymwys CTG**

Amcangyfrifir bod y newid polisi hwn yn effeithio ar tua 9,400 o gartrefi yng Nghymru, gyda cholledion incwm wythnosol o hyd at £74 (Llywodraeth Cymru, 2013a). Gall rhai o'r cartrefi hyn gynnwys person anabl. O fis Ebrill 2012, bu'n ofynnol i gyplau â phlant weithio 24 awr yr wythnos rhyngddynt (gydag un ohonynt yn gweithio 16 awr o leiaf) er mwyn bod yn gymwys i gael CTG. Mae hyn yn golygu bod y polisi yn fwy cyson â rhieni unigol sy'n gorfod gweithio 16 awr i fod yn gymwys i gael CTG. Fodd bynnag, bydd cyplau lle mae aelod anabl yn gweithio 16 awr yn parhau i fod yn gymwys i gael CTG hyd yn oed os nad yw'r cartref yn gweithio 24 awr rhyngddynt.

## **Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn yr SRhC**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno rhai eithriadau i'r mesur hwn a fydd o fantais i gartrefi sy'n cynnwys oedolyn neu blentyn anabl. Er enghraifft, caiff tenant neu bartner anabl sydd angen gofalwr parhaol dros nos nad yw'n breswlydd ystafell ychwanegol. Fodd bynnag, mae pryderon nad ystyrir bod pobl anabl sydd angen i ofalwyr aros dros nos o bryd i'w gilydd yn gymwys i gael ystafell ychwanegol.

Mae canllawiau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013 ar gyfer awdurdodau lleol yn cadarnhau y dylai plentyn anabl na all rannu oherwydd natur yr anabledd gael ystafell. Mae pryder bod hyn yn cyflwyno elfen o ddisgresiwn i'r system, a fydd, yn anochel, yn arwain at anghysondebau o ran y camau a gymerir gan awdurdodau lleol. At hynny, nid yw'r consesiwn hwn yn gymwys i oedolion. Mae'n debygol y bydd achosion lle na fyddai'n rhesymol i hawlwr anabl rannu ystafell gyda phartner neu briod. Mae pryder hefyd nad ystyrir yr angen i storio cymhorthion neu gyfarpar pobl anabl.

Efallai y bydd yn rhaid i rai pobl anabl adael eiddo wedi'i addasu os ystyrir ei fod yn cynnwys gormod o ystafelloedd gwely ar gyfer eu hanghenion. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall hawlwr yr effeithir arnynt fod yn gymwys i gael taliad o'r gronfa TTD, a weinyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer y rheini yr ystyrir bod gwir angen help ychwanegol arnynt gyda'u costau tai. Gwneir y taliadau hyn yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol ac felly mae'n debygol y bydd rhai anghysondebau o ran y camau a gymerir. Mae £25 miliwn ychwanegol ar gael bob blwyddyn yn 2013/14 a 2014/15 i helpu i gefnogi'r hawlwr anabl hynny sy'n byw mewn eiddo sydd wedi cael ei addasu'n sylweddol ar gyfer eu hanghenion unigol. Y nod yw osgoi achosion lle mae'n rhaid i hawlwr anabl adael eiddo o'r fath a symud i eiddo llai lle byddai'n rhaid i'r addasiadau hynny gael eu gwneud eto ac, o bosibl, eu cymryd o'r eiddo gwreiddiol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ddiweddar gan yr awdurdodau lleol yn dangos cynnydd na welwyd mo'i debyg yn y galw am TTD yng Nghymru. Mae hynny'n awgrymu'n glir bod y cyllid hwn yn annigonol ac mai ateb tymor byr yn unig ydyw.

Er gwaethaf rhai consesiynau ar gyfer oedolion a phlant anabl, mae cyfran uwch o gartrefi sy'n cynnwys person anabl yn fwy tebygol o weld y meini prawf

maint a gyflwynir yn yr SRhC yn effeithio arnynt na hawlwr nad ydynt yn anabl. Yn dibynnu ar y diffiniad o anabledd a ddefnyddir, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012d) yn amcangyfrif bod rhwng 56 a 63 y cant o'r rheini yr effeithir arnynt ym Mhrydain Fawr<sup>34</sup> yn anabl.

Priodolir y gyfran uchel hon i'r ffaith bod hawlwr anabl, ar gyfartaledd, yn hŷn na hawlwr nad ydynt yn anabl ac felly maent yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi llai heb blant gan eu bod yn aml wedi tyfu i fyny a gadael cartref. O dan y meini prawf maint newydd, tybir wedyn fod gan hawlwr ystafelloedd 'sbâr' ac efallai y bydd angen iddynt symud, neu wynebu cael llai o BT.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif y bydd y gostyngiad wythnosol cyfartalog mewn BT i'r rheini y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arnynt yr un peth ar gyfer hawlwr anabl a hawlwr nad ydynt yn anabl (£14).

### **BT: Uwchraddio LTLI drwy MPD**

Gallai'r mesur hwn effeithio ar bawb sy'n hawlio BT yn yr SRhP y caiff eu hawliadau eu hasesu yn ôl rheolau LTLI. Felly, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011g) yn disgwyl i'r dadansoddiad o hawlwr yn ôl anabledd/nam y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt fod yn gyson â'r dadansoddiad o holl hawlwr BT SRhP. Yn anffodus, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi dadansoddiad o lwyth achos BT yng Nghymru yn ôl anabledd/nam. Fodd bynnag, fel rhan o'i hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o dan y mesur hwn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu'r dadansoddiad hwn ar lefel Prydain Fawr (Tabl 36, tudalen 96). Dengys hyn fod gan tua hanner y bobl y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt rywun yn y cartref sy'n nodi eu bod yn anabl fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Unwaith eto, mae hyn yn unol â'r dadansoddiad o holl hawlwr BT yn yr SRhP ac mae'n awgrymu nad yw pobl anabl yn fwy tebygol o deimlo effaith na phobl nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod pobl anabl yn cael eu cynrychioli i raddau llai yn yr SRhP nag yn y boblogaeth BT yn gyffredinol am fod mwy o dderbynwyr anabl yn byw yn yr SRhC.

### **Cynyddu trothwy oedran CLIR i 35 oed**

Mae eithriadau i CLIR a oedd ar waith cyn cyflwyno'r polisi hwn ym mis Ionawr 2012 yn dal i fod ar waith (gydag eithriadau ychwanegol). Mae un o'r eithriadau hyn yn cynnwys y sawl sy'n cael PAD yn eu budd-dal (am eu bod yn gymwys i gael elfen gofal cyfradd ganol neu uwch LBA neu elfen byw bob dydd TAB). Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011i) yn amcangyfrif y bydd yr eithriad hwn o fudd i tua 4,000 o bobl anabl ym Mhrydain Fawr, bydd yn effeithio ar rai

---

<sup>34</sup> Nid yw Asesiad Effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012d) yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar lefel Cymru. Gan fod Cymru yn cynnwys mwy o hawlwr anabledd na Phrydain Fawr yn gyffredinol, gall nifer yr hawlwr anabl y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arnynt fod hyd yn oed yn uwch nag amcangyfrif Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae Asesiad Effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i ddyddio cyn eithriadau pellach o ran y mesur hwn (e.e. plant anabl na allant rannu ystafell wely) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013. Bydd hyn yn lleihau nifer y cartrefi sy'n cynnwys person anabl y mae'r mesur hwn yn cael effaith andwyol arnynt.

pobl anabl (fel y rheini sy'n ei chael hi'n anodd symud neu sydd ag anghenion gofal lefel isel) sy'n bodloni diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai o'r rhain wedi'u heithrio am eu bod yn byw mewn mathau penodol o lety â chymorth.

Mae data AAT yn rhoi syniad defnyddiol o anabledd rhentwyr preifat yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn dangos bod 9 y cant o rentwyr preifat sengl nad oes ganddynt blant ac sydd rhwng 25 a 34 yn anabl. Mae hon yn gyfran is o bobl anabl na'r lefel o rentwyr preifat yn gyffredinol (22 y cant), sydd i'w ddisgwyl o ystyried eu bod yn iau.

Mae data gweinyddol hefyd yn dangos bod 18 y cant o hawlwr LTLI sengl heb blant yn cael budd-dal sy'n cynnwys elfennau anabledd (Detholiad Budd-dal Tai Sengl, Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mai 2010). Er bod yr amcangyfrif hwn yn ystyried y rheini a fyddai wedi'u heithrio drwy gael PAD neu fyw gyda rhywun nad yw'n ddibynnol, nid yw'n rhoi cyfrif am y ffaith y byddai peth o'r grŵp hwn yn cael budd o'r eithriad i'r hawlwr hynny sydd angen gofal dros nos ac sydd ag ystafell wely i ofalwr nad yw'n breswlydd.

### **Newid o BA i LCCh**

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 77,040 o bobl yng Nghymru yn hawlio BA/LAD. Nododd bron 40 y cant mai anhwylder meddyliol ac ymddygiadol oedd eu prif gyflwr meddygol. Felly, bydd y broses ailasesu (drwy AGW) a gynhelir yn effeithio ar fwy o hawlwr â'r cyflwr hwn nag unrhyw gyflwr arall.

Rhwng mis Hydref 2008 a mis Tachwedd 2012, cafodd 103,700 AGW eu cwblhau yng Nghymru. Yn ôl y disgwyl, yn unol â chyfrannau llwyth achos BA, roedd 40 y cant o'r asesiadau hyn a gwblhawyd ar gyfer pobl ag anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol (fel eu prif gyflwr meddygol). Hefyd, cafodd 66,100 o hawliadau eu cau cyn i'r asesiad swyddogaethol cychwynnol gael ei gwblhau ac roedd 10,800 yn mynd rhagddynt. O'r rhai a gafodd eu cwblhau, roedd gan 41 y cant (neu 42,900) hawl i gael LCCh a chawsant eu rhoi naill ai yn y GGGG (27,900) neu'r Grŵp Cymorth (15,000). Fodd bynnag, yn gyffredinol, cafwyd bod 59 y cant (neu 60,800) yn ffit i weithio (ac felly nid oeddent yn gymwys i gael LCCh mwyach). Mae cryn amrywiad yn y cyfrannau yr ystyrir eu bod yn ffit i weithio yn ôl prif gyflwr iechyd. Mae'r cyfrannau hyn yn amrywio o 17 y cant (neoplasmau/camffurfiadau cynhenid, anffurfiadau ac annormaleddau cromosomaidd) i tua 70 y cant (clefydau'r croen a system o dan y croen/anaf, gwenwyno a rhai canlyniadau eraill achosion allanol).

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 90,880 o bobl yng Nghymru yn hawlio LCCh. Fel llwyth achos BA, y prif gyflwr meddygol mwyaf cyffredin a nodwyd oedd anhwylder meddyliol ac ymddygiadol (45 y cant). Nid ymddengys fod cyflwyno LCCh wedi cael effaith sylweddol ar gyfran yr hawlwr o ran eu hanabledd.

## Effaith gronnol y diwygiadau lles

### Incwm

Nid oes dadansoddiad ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad uchod o bob un o'r prif ddiwygiadau lles yn unigol yn awgrymu y bydd effeithiau negyddol sylweddol ar incymau rhai pobl anabl yng Nghymru.

### Cymhellion i weithio<sup>35</sup>

Mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, y bydd y diwygiadau lles a fodelwyd (gan gynnwys CC) yn atgyfnerthu'r cymhelliant i weithio i'r rheini sy'n cael budd-dal anabledd eu hunain (gweler Tabl 47, tudalen 104). Caiff hyn ei egluro'n llawn gan gryn atgyfnerthu ymhlith y lleiafrif sydd â phartneriaid sy'n gweithio, y mae'r terfyn amser ar gyfer LCCh yn debygol o'u sbarduno. O ran pobl anabl â phartneriaid sy'n gweithio (y mae eu henillion yn golygu nad yw'r teulu yn gymwys i gael LCCh sy'n seiliedig ar incwm), mae dileu LCCh cyfrannol yn doriad mawr i'w hincwm allan o waith ac yn gryn dipyn o gymhelliant iddynt fod mewn gwaith. Mae'r stori yn dra wahanol i'r rheini â phartneriaid anabl. Mae'r rhan helaeth o'r bobl hyn yn perthyn i'r categorïau "partner ddim yn gweithio", sy'n profi llai o gymhelliant i weithio am fod y toriadau yn hepgor CC (mae CC yn fwy hael i enillwyr isel).

I'r rheini sydd eisoes yn gweithio ac yn cael budd-dal anabledd, disgwylir i'w cymhelliant i gynyddu eu henillion wella'n sylweddol, ar gyfartaledd (Adam a Phillips, 2013). Y prif reswm dros hyn, a'r prif sbardun, yw lleiafrif y caiff eu credydau treth eu tynnu'n ôl o dan yr hen gyfundrefn ond na chaiff CC ei dynnu'n ôl. Mae swm sylweddol yn ennill llai na £7,000 y flwyddyn (yr enillion nas ystyrir cyn rhoi'r gorau i dalu CC i deuluoedd ag aelod anabl), gydag eraill nad ydynt yn gymwys i gael CC er eu bod yn gymwys i gael credydau treth o dan yr hen gyfundrefn (naill ai mae eu hincwm nas enillwyd/asedau yn golygu nad ydynt yn gymwys, neu mae CC yn rhedeg allan ar lefel incwm is na chredydau treth). Bydd y sawl sy'n gweithio â phartner sy'n cael budd-dal anabledd yn gweld dirywiad yn y cymhelliant i gynyddu eu henillion ar gyfartaledd (Tabl 48, tudalen 105). Gellir priodoli hyn i CC a'r toriadau lles yn gyfartal.

---

<sup>35</sup> Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau ynghylch effaith y diwygiadau lles ar y cymhelliant i weithio neu gynyddu enillion yn cynnwys rhai diwygiadau pwysig i fudd-daliadau anabledd (yn enwedig symud gweddill y bobl sy'n hawlio BA i LCCh a'r broses gysylltiedig o ailasesu cyflyrau iechyd, sy'n dileu'r hawl i gael budd-daliadau yn achos llawer o bobl). Mae'r canfyddiadau'n ymwneud â'r diwygiadau a fodelwyd gan Adam a Phillips (2013) yn unig. Hefyd, mae rhai o'r canfyddiadau'n seiliedig ar samplau bach (e.e. 53 o hawlwyd budd-daliadau anabledd mewn rhai achosion) ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail sampl mor fach.

## Oedran

### Pwyntiau allweddol

- Mae rheolau budd-daliadau yn amrywio yn ôl oedran. Er enghraifft, ar y cyfan caiff taliadau is eu gwneud i bobl o dan 25 oed o gymharu â'r rheini dros yr oedran hwn. Felly, bydd p'un a yw'r hawliwr yn iau neu'n hŷn yn cael effaith ar y graddau y mae'r diwygiadau lles yn effeithio arno. Mae nodweddion dylanwadol eraill (e.e. incwm, cyflogaeth ac ati) hefyd yn amrywio rhwng y grwpiau hyn).
- Ar y cyfan, nid yw'r diwygiadau lles yn effeithio ar bensiynwyr gan fod y rhan fwyaf o'r rhain yn gymwys i fudd-daliadau oedran gweithio.
- Y diwygiadau y disgwylir iddynt effeithio ar fwy o bobl iau o oedran gweithio na phobl hŷn o oedran gweithio yw dileu amodau cymhwyso YG 'ieuenctid' LCCh (o dan 25 oed); estyn RhRhU (pobl ifanc rhwng 25 a 34 oed); a chynyddu'r trothwy oedran ar gyfer CLIR (pobl ifanc rhwng 25 a 34 oed).
- Y diwygiadau y disgwylir iddynt effeithio ar fwy o bobl hŷn o oedran gweithio na phobl iau o oedran gweithio yw pennu terfyn amser o flwyddyn i LCCh (dros 50 oed); LBA (pobl rhwng 50 a 64 oed); rhoi'r gorau i dalu BP i deuluoedd lle mae rhywun yn ennill mwy na £50,000 (pobl rhwng 51 a 64 oed); a'r meini prawf maint newydd yn yr SRhC (pobl rhwng 45 oed ac oedran cymhwyso Credyd Pensiwn y Wladwriaeth). Yn ogystal, ar gyfartaledd, mae cartrefi lle mae'r pennaeth dros 50 oed yn fwy tebygol o weld eu hawliad o dan CC yn lleihau o gymharu â chartrefi lle mae'r pennaeth o dan 25 oed.
- Bydd gan y rheini rhwng 55 oed ac OPW fwy o gymhelliant i wneud gwaith â thâl, yn sgil CC a'r diwygiadau eraill i les, na phobl iau.
- Bydd gan y rheini sy'n 55 oed neu drosodd ac sy'n gweithio fwy o gymhelliant i gynyddu eu henillion, er bod y gwelliant hwn yn fwy i'r rheini rhwng 25 a 54 oed. Fodd bynnag, i'r rheini sydd o dan 25 oed ac yn gweithio, bydd llai o gymhelliant i gynyddu enillion.
- Mae oedran yn ffactor pwysig wrth bennu allgáu digidol. Gan mai ar-lein yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o hawliadau a hysbysiadau CC, gallai hyn roi pobl hŷn o dan anfantais o ystyried y gallant fod yn llai cyfarwydd â'r rhyngwyd.

## **Newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl MPD yn hytrach nag MPM**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a data poblogaeth ar gyfer Cymru yn awgrymu bod y rheini sydd o dan 25 oed, rhwng 25 a 34 oed a rhwng 35 a 44 oed wedi'u tangynrychioli ychydig yn llwyth achos hawlio budd-daliadau. Ar y llaw arall, mae'r rheini rhwng 45 a 54 oed a rhwng 55 a 59 oed wedi'u gorgynrychioli ac felly maent yn fwy tebygol o brofi effaith y mesur hwn (Tabl 2, tudalen 82).

Yn ogystal â'r tebygolrwydd o gael un neu ragor o'r budd-daliadau yr effeithir arnynt, bydd gwerth dyfarniadau budd-daliadau o'r fath yn effeithio ar faint o incwm a gaiff ei golli o ganlyniad i'r newid polisi hwn. Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau mai'r budd-daliadau a ddyfernir fwyaf ar gyfartaledd yng Nghymru yw: BA/LCCh, LBA, CI a BT (Tabl 1, tudalen 79). Mae dyfarniad cyfartalog y budd-daliadau hyn yn ôl oedran yn amrywio gyda rhai (LBA, BA, BT) yn dueddol o fod yn fwy ar gyfer yr ystod oedran isaf a/neu uchaf tra bod budd-daliadau eraill yn dueddol o fod ar eu huchaf i'r rheini yng nghanol eu 30au/dechrau eu 40au (LCCh, CI). O ystyried yr amrywiad hwn a'r diffyg data ar hawlio sawl budd-dal yn ôl oedran, mae'n anodd asesu effaith gyffredinol y mesur hwn ar incymau gwahanol grwpiau oedran.

### **Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a CB**

Gan fod budd-daliadau pensiynwyr wedi'u diogelu rhag y mesur polisi hwn, pensiynwyr yw'r grŵp sydd leiaf tebygol o brofi effaith. Fodd bynnag, effeithir ar nifer fach o gartrefi pensiynwyr am eu bod yn cael budd-dal nad yw wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer pensiynwyr, er enghraifft, CTP, os ydynt yn gyfrifol am blentyn.

## **CC**

### **Yr effaith ar incwm cartrefi**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn amcangyfrif, lle mae pennaeth y cartref dros 50 oed, fod y cartref yn fwy tebygol o weld ei hawliad yn lleihau (£27 y mis ar gyfartaledd). Mae hyn yn adlewyrchu'r newid polisi a fydd yn cynnwys cartrefi ag un partner dros ac un partner o dan OPW o fewn CC. Bydd y cartrefi hyn yn gweld eu hawliad yn lleihau oherwydd ni fyddant yn gymwys i gael y lwfansau mwy sydd ar gael o fewn Credyd Pensiwn. Fodd bynnag, dim ond i hawliadau newydd y bydd y newid hwn yn gymwys ac felly ni fydd yn effeithio ar gyplau sy'n hawlio Credyd Pensiwn ar hyn o bryd. Mae'r rhesymeg sy'n sail i'r newid yn ymwneud â sicrhau bod pobl a gaiff gymorth drwy'r system budd-daliadau yn destun amodau priodol sy'n gysylltiedig â gwaith.

Os yw pennaeth y cartref o dan 25 oed, mae'r newid cyfartalog mewn hawliad yn cyfateb i gynnydd o £20 y mis. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn priodoli hyn i'r cyfuniad o ddau ffactor. Yn gyntaf, cynnydd mewn hawliad i'r rheini sy'n gweithio sydd newydd ddod yn gymwys i gael budd-daliadau. Er enghraifft, ar

hyn o bryd, ni all hawlwyfyr o dan 25 oed sy'n gweithio, nad oes ganddynt blant ac nad ydynt yn anabl, hawlio CTG ac felly maent yn debygol o gael budd o ddileu'r eithriad hwn o fewn CC. Yn ail, symleiddio cyfraddau ar gyfer y rheini o dan 25 oed - mae'r system cyfraddau bresennol ar gyfer pobl ifanc yn gymhleth iawn. Bydd cyfraddau budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn parhau o fewn CC (e.e. gwahanol gyfraddau i bobl ifanc o dan 25 oed o gymharu â'r rheini dros yr oedran hwnnw). Fodd bynnag, bydd strwythur symlach i bobl ifanc, a fydd yn cynnwys pedwar categori o gymharu â 15 o fewn LCCh. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn nodi y bydd y cyfraddau ar gyfer y rheini o dan 25 oed yn is na'r cyfraddau ar gyfer y rheini dros 25 oed, gan adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl ifanc, ar y cyfan, gostau byw is (gan fod llawer ohonynt yn byw gartref gyda'u teulu) a chyflog is. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl i hyn atgyfnerthu'r cynnydd mewn cymhellion i weithio ar gyfer y grŵp oedran hwn o dan CC (gweler isod).

### Effaith ar dlodi

O ganlyniad i'r cynnydd disgwylidig mewn cyfraddau derbyn a hawliadau cyfartalog uwch, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif y bydd y polisi CC (a gyhoeddwyd cyn Datganiad yr Hydref 2012) yn lleihau tlodi ym Mhrydain Fawr fel a ganlyn:

- tua 150,000 o unigolion<sup>36</sup> mewn cartrefi lle mae pennaeth y cartref o dan 25 oed
- tua 700,000 o unigolion lle mae pennaeth y cartref rhwng 25 a 49 oed
- tua 50,000 o unigolion lle mae pennaeth y cartref dros 50 oed.

Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn wedi'i ddyddio cyn cyhoeddiad Datganiad yr Hydref 2012 y bydd CC yn llai hael na'r hyn a dybiwyd yn flaenorol. Felly, bydd y lleihad mewn tlodi yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'n wreiddiol. Fodd bynnag, nid yw asesiad effaith diwygiedig yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer CC (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012) yn cynnwys mesur effeithiau'r polisi tlodi yn ôl grŵp cydraddoldeb.

### Effaith ar gymhellion i weithio

Bydd gan y rheini rhwng 55 oed ac OPW fwy o gymhelliant i wneud gwaith â thâl yn sgil CC na phobl iau (Tabl 47, tudalen 104). Mae hyn yn rhannol am mai ychydig iawn o'r rheini sy'n 55 oed a throsodd sydd â phlant dibynnol, ac maent yn llawer mwy tebygol o fod â phartneriaid nad ydynt yn gweithio na phobl iau (nid lleiaf am fod eu partner wedi ymddeol efallai), felly maent yn dueddol o berthyn i grwpiau sy'n profi mwy o gymhelliant i fod mewn gwaith â thâl. Hefyd, mae CC yn arbennig yn atgyfnerthu'r cymhelliant i'r rheini sy'n 55 oed neu drosodd weithio oherwydd, i'r rheini â phartneriaid sydd dros PyW menywod, y bydd angen i'r ddau bartner yn hytrach nag un fod wedi mynd heibio i'r oedran hwnnw er mwyn i'r cwpl fod yn gymwys i gael y cymorth allan o waith mwy a roddir gan Gredyd Pensiwn unwaith y cyflwynir CC. Bydd y rheini sy'n 55 oed

<sup>36</sup> Mae hyn yn ymwneud ag unigolion ac felly mae'n cynnwys plant ac oedolion.



neu drosodd ac sy'n gweithio hefyd yn profi mwy o gymhelliant i gynyddu eu henillion, er bod y gwelliant hwn yn fwy i'r rheini rhwng 25 a 54 oed. Fodd bynnag, bydd cymhelliant y rheini sydd o dan 25 oed ac mewn gwaith i gynyddu eu henillion yn wannach (Tabl 48, tudalen 105). Y rheswm dros hyn yw y bydd CC yn ehangu hawliadau mewn gwaith ac felly cynhelir profion modd ar yr hawliadau hynny am y tro cyntaf (ar hyn o bryd caiff pobl ifanc o dan 25 oed eu hallgáu'n gyfan gwbl o fod yn gymwys i CTG oni fydd ganddynt blant).

## **Amodoldeb**

Bydd y newid polisi a fydd yn cynnwys cartrefi ag un partner dros ac un partner o dan oedran pensiwn o fewn CC (ar gyfer hawliadau newydd yn unig) yn cael effaith uniongyrchol ar gyplau hŷn a bydd yn golygu bod yn rhaid i bobl mewn cartrefi o'r fath sydd o dan oedran pensiwn y wladwriaeth fodloni'r amodau priodol sy'n gysylltiedig â gwaith. I'r gwrthwyneb, ar hyn o bryd, caiff pobl o OPW mewn cyplau o'r fath gymorth drwy Gredyd Pensiwn heb fod angen iddynt fodloni'r amodau priodol sy'n gysylltiedig â gwaith.

## **Mynediad ar-lein**

Mae ymchwil gan Whitfield et al. (2010) wedi nodi bod oedran yn ffactor pwysig wrth bennu allgáu digidol.

Mae tystiolaeth arolwg hefyd yn awgrymu y gall pobl hŷn ei chael hi'n anos cael CC na'r budd-daliadau etifeddiaeth presennol. Gan mai ar-lein yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o hawliadau a hysbysiadau CC, gallai hyn roi pobl hŷn dan anfantaes.

Er enghraifft, dengys data Arolwg Cenedlaethol Cymru (2013b) fod 76 y cant o bobl 18 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngwyd gartref, yn y gwaith neu rywle arall; fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl oedran gyda chyfran llawer mwy o bobl o dan 45 oed yn defnyddio'r rhyngwyd (95 y cant) o gymharu â'r rheini rhwng 45 a 64 oed (79 y cant).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn nodi y bydd yn ceisio lliniaru anfanteision o'r fath i bobl hŷn drwy sicrhau bod gwell mynediad i'r rhyngwyd ar gyfer y grŵp hwn a'i gyfeirio'n briodol at sianelau all-lein amgen (e.e. gwasanaethau teleffoni a stryd fawr) os oes angen.

## **Cap ar fudd-dal cartrefi**

Mae gwaith dadansoddi'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) yn awgrymu y bydd tua 80 y cant o hawlwyd y mae'r cap yn effeithio arnynt ym Mhrydain Fawr rhwng 25 a 44 oed. Mewn cymhariaeth, mae 39 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru rhwng 25 a 44 oed, cyfran lawer is, sy'n golygu bod y grŵp hwn yn debygol o brofi effaith anghymesur y mesur hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r 20 y cant sy'n weddill yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn 45 oed neu'n hŷn (gan fod y rheini o dan 25 oed yn dueddol o gael llai o fudd-daliadau ac yn llai tebygol o fod â phlant).

Gan fod y cap ond yn gymwys i fudd-daliadau oedran gweithio, ni chaiff effaith ar bobl sengl na chyplau sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn. Mae dadansoddiad HMT (2010) hefyd yn nodi, o ran BT, na fydd y cap yn gymwys i'r rhan fwyaf o gyplau lle mae un partner wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn.

## **LBA, TAB a LGof**

Mae'r diwygiadau a wneir i LBA yn canolbwyntio ar dderbynwyr o oedran gweithio (rhwng 16 a 64 oed) i ddechrau; er y bydd y sawl sy'n derbyn TAB yn gallu cael y budd-dal ar ôl 65 oed os byddant yn parhau i fodloni'r amodau o ran hawliad. Mae 57 y cant o'r rheini sy'n cael LBA (ym mis Awst 2012) yng Nghymru o oedran gweithio (Tabl 12, tudalen 85) - cyfran lai nag yn y boblogaeth gyfan yng Nghymru (63 y cant). Mae dros hanner yr hawlwy'r LBA o oedran gweithio yng Nghymru rhwng 50 a 64 oed o gymharu â 31 y cant yn y boblogaeth o oedran gweithio gyfan. Felly, bydd effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Dim ond 8 y cant o lwyth achos LBA sydd o dan 16 oed tra bod 35 y cant yn 65 oed a throsodd. O gymharu â'r boblogaeth gyfan yng Nghymru, caiff hawlwy'r LBA iau eu tangynrychioli a chaiff hawlwy'r LBA hŷn eu gorgynrychioli.

O ran sgil-ffeithiau'r polisi hwn, gan ystyried natur ddemograffig llwyth achos LGof yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o'r rheini yr effeithir arnynt yn debygol o fod rhwng 35 a 64 oed, gyda thua thri chwarter o'r rheini sy'n cael taliadau yn perthyn i'r band oedran hwn. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi dau esboniad am y gyfran uchel hon.

- Y gydberthynas ofalu fwyaf cyffredin y tu allan i sefydliadau yw plant sy'n gofalu am eu rhieni.
- O ganlyniad i reolau budd-daliadau sy'n gorgyffwrdd, mae'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n cael taliadau LGof o dan OPW (oherwydd ni ellir cael Pensiwn y Wladwriaeth a LGof).

## **Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol i'r rheini yn y GGGG**

Dengys Tabl 22 (tudalen 89) fod tua hanner yr hawlwy'r hynny y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt (h.y. y rheini yn y GGGG sy'n hawlio LCCh cyfrannol yn unig neu LCCh cyfrannol a chysylltiedig ag incwm) rhwng 50 a 64 oed. Mae 31 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn perthyn i'r grŵp oedran hwn. Mae hyn yn awgrymu y bydd effaith anghymesur ar y grŵp oedran hwn o gymharu â grwpiau oedran iau.

Mae gwaith dadansoddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) hefyd yn dangos na fydd 48 y cant o dderbynwyr hŷn (50 oed neu drosodd) yn gymwys i gael LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm (am fod ganddynt bartner sy'n gweithio neu gyfalaf dros £16,000) ac felly byddant yn gweld mwy o golled mewn incwm (£39 yr wythnos ar gyfartaledd). Mae'r gyfran hon yn uwch nag ar gyfer y rheini rhwng 30 a 49 oed (30 y cant) neu o dan 30 oed (19 y cant) yr amcangyfrifir y byddant yn wynebu llai o golled ar gyfartaledd sef £32 yr wythnos.

## **Dileu amodau cymhwys YG 'ieuenctid' LCCh consesiynol**

Gan fod y mesur hwn yn effeithio ar hawlwyf newydd 'ieuenctid' LCCh, bydd pawb yr effeithir arnynt o dan 25 oed i ddechrau oherwydd mae'n rhaid i hawlwyf fod yn iau na hyn ar adeg eu hawliad. Fodd bynnag, gall hawlwyf barhau i dderbyn y budd-dal hwn ar ôl 25 oed. Yn ôl y disgwyl, dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau fod y rhan fwyaf (60 y cant) o hawlwyf 'ieuenctid' BA ym Mhrydain Fawr ym mis Mai 2010 o dan 25 oed. Er y bydd y mesur hwn yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc anabl, daw tua 90 y cant o'r rheini yr effeithir arnynt yn gymwys i gael LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm ar yr un gyfradd neu gyfradd is.

## **Newidiadau i BP**

Mae gwaith dadansoddi CThEM yn awgrymu y byddai rhoi'r gorau i dalu BP i deuluoedd â rhywun sy'n ennill dros £50,000 yn effeithio ar y grŵp oedran rhwng 51 a 65 oed yn fwy na grwpiau oedran eraill am eu bod yn fwy tebygol, yn gyffredinol, o fod yn enillwyr uchel â phlant.

## **BDG(2013–14)**

Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer mis Chwefror 2013, ym Mhrydain Fawr, mai pobl 65 oed a throsodd yw'r grŵp mwyaf o dderbynwyr (tua 37 y cant) o gymharu â chyfran y derbynwyr yn y grwpiau oedran canlynol: o dan 25 oed (5 y cant), 25–34 (13 y cant), 35–44 (16 y cant), 45–49 (8 y cant), 50–54 (7 y cant), 55–59 (6 y cant), 60–64 (7 y cant) (Tabl 40, tudalen 98). O gymharu'r data hwn â dadansoddiad o boblogaeth Prydain Fawr yn ôl ystod oedran gwelir bod canran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n hawlio BDG yn is na'r gyfran yn y boblogaeth (Tabl 41, tudalen 99). Nid yw hyn yn annisgwyl oherwydd byddem yn disgwyl llai o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i fod yn bennaeth cartrefi na grwpiau oedran hŷn. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn dangos bod cyfran hawlwyf BDG sy'n 65 oed a throsodd yn uwch na'u cyfran yn y boblogaeth, h.y. cânt eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith hawlwyf BDG. Felly, mae'r grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o gael budd o benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu £22 miliwn ychwanegol yn 2013-14 er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi'r hawliad llawn i bob hawliwr cymwys.

O ran cyfanswm gwariant BDG yng Nghymru (Tabl 42, tudalen 100), roedd y rhaniad rhwng cartrefi o oedran gweithio a chartrefi a oedd yn cynnwys rhywun dros OPW yn 60 y cant a 40 y cant yn y drefn honno yn 2012-13. Mae tua chwarter BDG yn mynd i bensiynwyr sengl sy'n byw ar eu pen eu hunain ond mae pensiynwyr yn llawer llai tebygol o dderbyn eu hawliadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddarparu Grant i Bensiynwyr (tua £4m) yn 2013-14 er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr dalu eu treth gyngor. Bydd dros 43,000 o bensiynwyr sy'n cael rhywfaint o ostyngiad yn eu rhwymedigaeth treth gyngor o dan Gynllun Gostyngiadau Treth Gyngor (CGTG) yn cael dyfarniad cyfartalog o dan y cynllun Grant i Bensiynwyr sydd rhwng £90 a £100 yn 2013-14. Bydd pensiynwyr sydd dros 60 oed ar ddechrau mis Gorffennaf, ac sy'n cael CGTG rhannol, yn gymwys.

Aeth dros ddwy ran o dair o wariant BDG yng Nghymru i gartrefi heb blant yn 2012-13 (cartrefi â phlant: 31 y cant o wariant) (Adam a Browne, 2012).

## **CG/CCD**

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, gwnaed 7,759 o geisiadau llawn i gynllun CCD yng Nghymru. Dim ond traean o hawlwyd i'r Gronfa sydd wedi rhoi gwybodaeth am eu hoedran. O'r rhai a wnaeth hynny, roedd 23 y cant rhwng 16 a 24 oed, roedd 43 y cant rhwng 25 a 39 oed, roedd 25 y cant rhwng 40 a 54 oed, roedd 7 y cant rhwng 55 a 69 oed ac roedd 1 y cant yn 70 oed a throsodd. Yn seiliedig ar hyn, mae mwy o bobl rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 39 oed yn gwneud ceisiadau am gymorth CCD na'r rheini yn y boblogaeth 16 oed a throsodd yn gyffredinol yng Nghymru (15 y cant ac 21 y cant yn y drefn honno). Yn unol â hynny, mae llai o grwpiau oedran hyn yn gwneud ceisiadau am gymorth CCD na'r boblogaeth 16 oed a throsodd yn gyffredinol (55-69: 22 y cant, 70 oed a throsodd: 16 y cant) (Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2012, Swyddfa Ystadegau Gwladol, SYG). Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod a yw'r ymatebwyr hyn yn cynrychioli hawlwyd CCD yn gyffredinol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro dosbarthiad ceisiadau a dyfarniadau ymhob grŵp oedran (a nodweddion gwarchoddedig eraill) o dan y system newydd.

## **CBA**

Mae Tabl 46 (tudalen 102) yn nodi defnyddwyr gwasanaethau CBA yng Nghymru yn ôl oedran. Mae hyn yn dangos mai'r grwpiau lleiaf o ddefnyddwyr yw'r ieuengaf (rhwng 16 a 25 oed: 7 y cant) a'r hynaf (rhwng 56 a 64 oed: 13 y cant; 65 oed a throsodd: 8 y cant). At hynny, o gymharu â chyfrannau'r grwpiau oedran hyn yn y boblogaeth o oedran gweithio (16 y cant, 14 y cant a 23 y cant yn y drefn honno), tangynrychiolir y grwpiau hyn yn llwyth achos CBA. Yn yr un modd, mae nifer gymharol uwch o ddefnyddwyr rhwng 26 a 55 oed yn llwyth achos CBA o gymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio (71 y cant o gymharu â 47 y cant yn y drefn honno). Felly, mae newidiadau i'r Gronfa hon yn fwy tebygol o effeithio ar y rheini rhwng 26 a 55 oed na'r rheini rhwng 16 a 25 oed a 56 oed a throsodd.

## **Dileu cymhwysedd CI i rieni unigol yn seiliedig ar oedran eu plentyn ieuengaf**

Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau fod hawlwyd CI sy'n rhieni unigol â phlant bach yn debygol o fod yn ifanc eu hunain (Tabl 28, tudalen 92). Er enghraifft, ym Mhrydain Fawr, mae hanner yr hawlwyd CI sy'n rhieni unigol â phlentyn ieuengaf sy'n bump neu chwech oed rhwng 25 a 34 oed. Felly, bydd yr estyniad diweddaraf i RhRhU yn cael effaith benodol ar y grŵp oedran hwn o rieni unigol.

Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011f) yn nodi bod rhieni unigol iau yn debygol o fod â phrofiad mwy diweddar o'r farchnad lafur o gymharu â rhieni unigol hyn. Mae'r grŵp olaf yn dueddol o fod yn derbyn budd-

daliadau am fwy o amser ac felly gallant ddioddef o lai o hyder sy'n gysylltiedig â hynny, a all eu hatal rhag cael gwaith. Mae hyn yn awgrymu, er bod y polisi yn debygol o gael effaith anghymesur ar rieni unigol iau, ar y cyfan byddant yn ei chael hi'n haws ymuno â'r farchnad lafur na grwpiau hŷn.

Mae rhieni unigol o dan 18 oed sydd â phlentyn ieuengaf sy'n bump oed neu drosodd (nad oes llawer ohonynt) wedi'u heithrio o RhRhU CI ac felly byddant yn dal i fod yn gymwys i gael CI.

### **Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn yr SRhC**

Yn unol â dadansoddiad oedran pob hawliwr BT yn yr SRhC, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif (2012d) bod hawlwyr BT iau (o dan 25 oed) yn llai tebygol o brofi effaith y meini prawf maint a gyflwynwyd yn ddiweddar yn y sector hwn (Tablau 29 a 32, tudalennau 93 a 95). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn priodoli hyn i ddau ffactor. Yn gyntaf, mae hawlwyr iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn cartref sy'n cynnwys plant sy'n cyfrannu at faint y llety y tybir ei bod yn rhesymol i'r hawliwr fyw ynddo. Yn ail, maent yn fwy tebygol o fod wedi cael eu rhoi mewn tai cymdeithasol yn ddiweddar gan olygu ei bod yn llai tebygol y bydd eu hanghenion tai cychwynnol a phresennol yn amrywio. Mae'n naturiol y bydd y diwygiad hwn yn cael effaith anghymesur ar hawlwyr hŷn<sup>37</sup>, yn aml am fod eu plant sydd wedi tyfu i fyny wedi gadael gartref.

Mae'r gostyngiad cyfartalog mewn BT wythnosol a gaiff ei amcangyfrif fesul hawliwr yr effeithir arno (ar lefel Prydain Fawr) yn cynyddu gydag oedran. Disgwylir i'r rheini o dan 25 oed golli £12 yr wythnos ar gyfartaledd tra disgwylir i'r rheini rhwng 55 oed ac oedran cymhwyso Credyd Pensiwn y Wladwriaeth golli £16 yr wythnos ar gyfartaledd (Adran Gwaith a Phensiynau, 2012d).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi targedu'r polisi hwn at hawlwyr o oedran gweithio o ystyried y tybir eu bod yn ei chael hi'n haws cael gwaith ac ariannu unrhyw ddiffyg deilliannol yn sgil y newid polisi.

### **BT: Uwchraddio LTLI drwy MPD**

Gallai'r mesur hwn effeithio ar bawb sy'n hawlio BT yn yr SRhP y caiff eu hawliadau eu hasesu yn ôl rheolau LTLI. Felly, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011g) yn disgwyl i'r dadansoddiad o hawlwyr yn ôl oedran y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt fod yn gyson â'r dadansoddiad o holl hawlwyr BT SRhP. Dengys ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer mis Chwefror 2013 (Tabl 35, tudalen 96) fod bron hanner (49 y cant) hawlwyr BT yn yr SRhP yng Nghymru rhwng 25 a 44 oed o gymharu â 25 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol yng Nghymru. Felly, mae pobl yn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o deimlo effaith na grwpiau eraill. At hynny, caiff hawlwyr yn y grŵp oedran hwn ddyfarniad HB wythnosol uwch ar gyfartaledd (£84) o gymharu â grwpiau oedran eraill. Felly, maent yn fwy tebygol o golli mwy o incwm ar gyfartaledd o ganlyniad i gyfyngu ar uwchraddio cyfraddau LTLI i MPD

---

<sup>37</sup> O dan yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn y Wladwriaeth gan nad yw'r mesur hwn yn gymwys i'r rheini dros yr oedran hwn.

(yn hytrach na lefelau rhenti yn y farchnad leol). Disgwylir gweld effeithiau tebyg yn ôl oedran hefyd o ganlyniad i'r cap o 1 y cant a roddir ar gyfraddau LTLI yn 2014-15 a 2015-16.

### **Cynyddu trothwy oedran CLIR i 35 oed**

Bydd y polisi hwn yn effeithio ar oedolion iau rhwng 25 a 34 oed. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011i) yn amcangyfrif bod dwy ran o dair o'r hawl wyr yn effeithir arnynt wedi cael eu hasesu ar y gyfradd un ystafell wely cyn y polisi hwn ac felly y byddent yn colli incwm. Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn nodi bod y traean sy'n weddill o'r rheini a allai fod wedi gweld y polisi hwn yn effeithio arnynt eisoes yn byw mewn llety a rennir gan felly leihau'r effaith ar hawl wyr o'r fath. Mae data AAT (2008/09) hefyd yn dangos ei bod hi'n eithaf cyffredin i bobl sengl rhwng 25 a 34 oed heb blant dibynnol fod yn byw mewn llety a rennir<sup>38</sup> neu gartref gyda'u rhieni.

### **Newid o BA i LCCh**

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 77,040 o bobl yng Nghymru yn hawlio BA/LAD. Roedd 86 y cant rhwng 35 a 64 oed o gymharu â 39 y cant o'r boblogaeth gyfan yng Nghymru. O ystyried y nifer gymharol o hawl wyr BA o gymharu â'r boblogaeth gyfan, mae'n fwy tebygol y bydd y broses ailasesu (drwy AGW) yn effeithio ar hawl wyr rhwng 35 a 64 oed o gymharu â grwpiau iau (o dan 25 oed) a hŷn (65 oed a throsodd).

Rhwng mis Hydref 2008 a mis Tachwedd 2012, cafodd 103,700 AGW eu cwblhau yng Nghymru (o dan 18 oed: 1 y cant; 18–24: 13 y cant; 25–34: 17 y cant; 35–44: 23 y cant; 45–49: 13 y cant; 50–54: 13 y cant; a 55 oed a throsodd: 20 y cant). Hefyd, cafodd 66,100 o hawliadau eu cau cyn i'r asesiad swyddogaethol cychwynnol gael ei gwblhau ac roedd 10,800 yn mynd rhagddynt. O'r rhai a gafodd eu cwblhau, roedd gan 41 y cant (neu 42,900) hawl i gael LCCh a chawsant eu rhoi naill ai yn y GGGG (27,900) neu'r Grŵp Cymorth (15,000). Fodd bynnag, yn gyffredinol, cafwyd bod 59 y cant (neu 60,800) yn ffit i weithio (ac felly nid oeddent yn gymwys i gael LCCh mwyach). Mae'r gyfran y tybir ei bod yn ffit i weithio ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn unol â'r gyfran gyffredinol hon. Fodd bynnag, roedd y rheini o dan 18 oed yn llai tebygol o gael eu hystyried yn ffit i weithio gyda 31 y cant yn cael eu hasesu felly.

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 90,880 o bobl yng Nghymru yn hawlio LCCh. Roedd tua thri chwarter rhwng 35 a 64 oed. Er nad yw hyn yn wahanol iawn i gyfran llwyth achos BA, mae cyfran uwch o bobl iau (a chyfran lai o bobl hŷn) yn hawlio LCCh o gymharu â BA.

---

<sup>38</sup> I rai categorïau, mae diffiniad AAT o lety a rennir yn wahanol i ddiffiniad LTLI. Serch hynny, mae'r data arolwg yn rhoi procsi defnyddiol o drefniadau llety.

## Effaith gronnol y diwygiadau lles

### Incwm

Ar y cyfan, nid yw'r toriadau lles a chyflwyno CC (sy'n effeithio ar gartrefi â phobl o oedran gweithio) yn effeithio ar bensiynwyr. Er enghraifft, yng Nghymru amcangyfrifir y bydd pensiynwyr sengl yn gweld eu hincwm yn gostwng 0.3 y cant a bydd pensiynwyr mewn cwpl yn gweld eu hincwm yn cynyddu 0.3 y cant o ganlyniad i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd hyd at fis Rhagfyr 2012 (Adam a Phillips, 2013). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r golled gyfartalog o 1.4 y cant ar gyfer y boblogaeth gyfan. Ar hyn o bryd, nid oes dadansoddiad o effaith gronnol y diwygiadau lles ar incymau grwpiau oedran eraill.

### Cymhellion i weithio

Bydd gan y rheini rhwng 55 oed ac OPW fwy o gymhelliant i wneud gwaith â thâl, yn sgil CC a'r diwygiadau eraill i les, na phobl iau (Tabl 47, tudalen 104). Mae hyn yn rhannol am mai ychydig iawn o'r rheini sy'n 55 oed a throsodd sydd â phlant dibynnol, ac maent yn llawer mwy tebygol o fod â phartneriaid nad ydynt yn gweithio na phobl iau (nid lleiaf am fod eu partner wedi ymddeol efallai), felly maent yn dueddol o berthyn i grwpiau sy'n profi mwy o gymhelliant i fod mewn gwaith â thâl. Hefyd, mae CC yn arbennig yn atgyfnerthu'r cymhelliant i'r rheini sy'n 55 oed neu drosodd weithio oherwydd, i'r rheini â phartneriaid sydd dros PyW menywod, y bydd angen i'r ddau bartner yn hytrach nag un fod wedi mynd heibio i'r oedran hwnnw er mwyn i'r cwpl fod yn gymwys i gael y cymorth allan o waith mwy a roddir gan Gredyd Pensiwn unwaith y cyflwynir CC. Mae hefyd yn werth nodi bod pobl sy'n gwneud penderfyniadau am waith tua'r oedran ymddeol yn ymateb yn llawer mwy i gymhellion ariannol na phobl iau (Adam a Phillips, 2013). Bydd y rheini sy'n 55 oed neu drosodd ac sy'n gweithio hefyd yn profi mwy o gymhelliant i gynyddu eu henillion, er bod y gwelliant hwn yn fwy i'r rheini rhwng 25 a 54 oed. Fodd bynnag, bydd cymhelliant y rheini sydd o dan 25 oed ac mewn gwaith i gynyddu eu henillion yn wannach (Tabl 48, tudalen 105). Y rheswm dros hyn yw y bydd CC yn ehangu hawliadau mewn gwaith ac felly cynhelir profion modd ar yr hawliadau hynny am y tro cyntaf (ar hyn o bryd caiff pobl ifanc o dan 25 oed eu hallgáu'n gyfan gwbl o fod yn gymwys i CTG oni fydd ganddynt blant).

## Hil ac ethnigrwydd<sup>39</sup>

### Pwyntiau allweddol

- Disgwylir i'r diwygiadau canlynol gael effaith anghymesur ar hawl wyr o leiafrifoedd ethnig: cap ar fudd-dal cartrefi; estyn RhRhU; a'r newid i reolau oriau cymwys CTG. Nodweddion y grwpiau hyn (e.e. maint y teulu, oriau a gaiff eu gweithio ac ati) sy'n gyfrifol am hyn.
- Mae rhai o'r diwygiadau hefyd yn fwy tebygol o gael effaith andwyol ar dderbynwyr gwyn. Ymhlith y rhain mae'r rhai sy'n ymwneud â LBA a BA/LCCh yn ogystal â chyflwyno meini prawf maint ar gyfer hawl wyr BT yn yr SRhC.
- Ar gyfartaledd, mae disgwyl i'r CC arwain at gynnydd incwm sylweddol uwch mewn cartrefi lle ceir oedolyn o gefdir ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â'r holl gartrefi.
- Ar gyfartaledd, bydd y diwygiadau lles yn atgyfnerthu'r cymhelliant i bobl wyn weithio, ac i'r un graddau â'r hyn a welir ar gyfer y boblogaeth gyfan. I'r gwrthwyneb, disgwylir i'r cymhelliant i bobl nad ydynt yn wyn weithio wanhau<sup>40</sup>. Yn bwysicaf oll, y rheswm dros hyn yw bod pobl nad ydynt yn wyn yn fwy tebygol o fod â mwy o blant dibynnol na phobl wyn, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm allan o waith yn cynyddu o ganlyniad i gynyddu CTG. O ganlyniad, caiff y cymhelliant i weithio ei wanhau.
- I'r rheini sy'n gweithio, ar gyfartaledd, disgwylir i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn weld y cymhelliant i gynyddu eu henillion yn gwella, yn sgil gweithredu'r diwygiadau lles. Fodd bynnag, mae'r gwelliant cyfartalog i grwpiau nad ydynt yn wyn yn debygol o fod yn llai nag ar gyfer y grŵp gwyn. Unwaith eto, mae hyn yn debygol o ddeillio o nodweddion eraill fel lefelau enillion.
- Prin yw'r gwahaniaeth rhwng pobl o leiafrifoedd ethnig a phoblogaeth gyfan y DU o ran y defnydd o dechnoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, gall fod rhai achosion lle bydd materion ieithyddol yn peri problemau posibl o ran defnyddio'r system CC ar-lein tra bod yn well gan eraill gyswllt wyneb yn wyneb.

---

<sup>39</sup> Defnyddir terminoleg amrywiol drwy gydol yr adroddiad i ddisgrifio grwpiau ethnig penodol (e.e. gwyn, nad ydynt yn wyn, BME ac ati). Mae'r terminoleg a ddefnyddir yn gyson â therminoleg y ffynhonnell ddata y daeth ohoni.

<sup>40</sup> Mae'n bwysig nodi bod y samplau ar gyfer pobl nad ydynt yn wyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil i effaith y diwygiadau lles ar gymhellion i weithio (Adam a Phillips, 2013) yn fach (e.e. 110 o bobl nad ydynt yn wyn mewn rhai achosion) sydd felly'n effeithio ar ei chadernid ac yn ei gwneud hi'n anodd gwneud llawer o ddatgrynhoi er mwyn ceisio egluro'r gwahaniaethau mewn canlyniadau.



## **Newid i fynegio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl MPD yn hytrach nag MPM**

Dengys data ABP ar gyfer Cymru fod 97 y cant o bobl rhwng 16 a 64 oed a oedd yn hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth/credydau treth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 yn wyn, sy'n unol â'r gyfran yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu bod hawlwrwyr gwyn a hawlwrwyr nad ydynt yn wyn yn debygol o gael eu heffeithio yn yr un modd.

Yn ogystal â chymhwysedd/derbyn budd-daliadau, bydd graddau'r colledion mewn incwm yn ôl ethnigrwydd yn dibynnu ar werth y budd-daliadau a geir. Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau fod swm wythnosol cyfartalog LCCh a LCG yng Nghymru yn uwch ar gyfer rhai grwpiau nad ydynt yn wyn (cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig, er enghraifft) na'r rheini o gefndir gwyn (Tabl 1, tudalen 79). Felly, mae hyn yn awgrymu y gall y grwpiau lleiafrifoedd ethnig hyn brofi mwy o golledion arian parod ar gyfartaledd. Fodd bynnag, bydd effeithiau o'r fath hefyd yn dibynnu ar raddau'r budd-daliadau lluosog a gaiff eu hawlio yn ôl ethnigrwydd. Yn anffodus, nid oes data ar gael ar hyn. Er bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dueddol o gynnwys mwy o bobl nad ydynt yn gweithio na'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn gyffredinol (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2008) ac felly byddent yn fwy tebygol o fod â hawl i gael budd-daliadau allan o waith, mae ymchwil yn awgrymu bod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llawer llai tebygol o hawlio budd-daliadau a chredydau treth (Salway, 2007; Ipsos Mori, 2010). Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y caiff y newid mynegeoio effaith ar grwpiau o'r fath.

O ystyried y wybodaeth groes uchod, sy'n awgrymu effeithiau i gyfeiriadau gwahanol, mae'n anodd asesu effaith gyffredinol y newid mynegeoio yn ôl ethnigrwydd.

## **Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a CB**

Ni chaiff dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd ei gynnwys yn Asesiad Effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r newid polisi hwn (2013a, 2013b).

## **CC**

### **Yr effaith ar incwm cartrefi**

Mae gwaith dadansoddi'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn awgrymu, ar y cyfan, y bydd grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dueddol o gael mwy o fudd o newid i CC na'r boblogaeth gyffredinol. Priodolir hyn i'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o fod mewn cyplau ac mewn gwaith â thâl is yn gymesur, sef y grwpiau a gaiff y budd mwyaf o newid hawliadau. Er enghraifft, mae gan tua 22 y cant o gartrefi ag oedolyn o gefndir lleiafrifoedd ethnig enillion gros cartref blynyddol cadarnhaol o dan £10,000 y flwyddyn o gymharu â 16 y cant o gartrefi ag oedolion o darddiad gwyn yn unig (Adran Gwaith a Phensiynau, 2011a). Ar y cyfan, mae'r newid cyfartalog yn incwm cartrefi ag oedolyn o gefndir lleiafrifoedd

ethnig yn gynydd o £51 y mis, sy'n llawer uwch na'r cynnydd cyfartalog ar gyfer pob cartref (£16 y mis).

Er gwaethaf y cynnydd cyfartalog cyffredinol mewn hawliad, bydd pobl 'ar eu hennill' ac 'ar eu colled'. Mae cartrefi ag oedolyn o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o weld cynnydd yn eu hawliad o gymharu â chartrefi ag oedolion gwyn yn unig. Yn ogystal, o'r cartrefi hynny sy'n gweld cynnydd, bydd y rheini ag oedolyn o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn gweld newid cyfartalog ychydig yn uwch. Fodd bynnag, er bod cartrefi ag oedolyn o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o weld gostyngiad yn eu hawliad, bydd y rheini sydd ar eu colled yn gweld gostyngiad ychydig yn fwy o gymharu â chartrefi ag oedolion gwyn yn unig (Adran Gwaith a Phensiynau, 2011a).

### Effaith ar tlodi

O ystyried effaith gyfunol cynnydd rhagweladwy mewn cyfraddau derbyn a hawliad cyfartalog uwch, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) yn amcangyfrif y bydd hyn yn lleihau tlodi mewn cartrefi ag o leiaf un oedolyn o gefndir lleiafrifoedd ethnig 350,000 o unigolion (200,000 o oedolion a 150,000 o blant) ym Mhrydain Fawr, sy'n ostyngiad cyfrannol mwy mewn tlodi nag ar gyfer cartrefi ag oedolion gwyn yn unig. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn wedi'i ddyddio cyn cyhoeddiad Datganiad yr Hydref 2012 y bydd CC yn llai hael na'r hyn a dybiwyd yn flaenorol. Felly, bydd y lleihad mewn tlodi yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'n wreiddiol. Yn anffodus, nid yw asesiad effaith diwygiedig yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer CC (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012) yn cynnwys mesur effeithiau'r polisi tlodi yn ôl grŵp cydraddoldeb.

### Effaith CC ar gymhellion i weithio<sup>41</sup>

Mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, y bydd CC ar ei ben ei hun yn atgyfnerthu'r cymhelliant i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn fod mewn gwaith. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwelliant i grwpiau gwyn (sy'n unol â'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth gyfan) fod yn fwy nag ar gyfer grwpiau nad ydynt yn wyn (Tabl 47, tudalen 104).

I'r rheini sy'n gweithio, ar gyfartaledd, disgwylir i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn eto weld y cymhelliant i gynyddu eu henillion yn gwella, yn sgil gweithredu CC. Fodd bynnag, yn wahanol i'r achos ar gyfer hawl wyr allan o waith, amcangyfrifir y bydd hawl wyr mewn gwaith nad ydynt yn wyn yn gweld mwy o welliant ar gyfartaledd yn y cymhelliant i gynyddu enillion o gymharu â hawl wyr mewn gwaith sy'n wyn (Tabl 48, tudalen 105).

Mae'n werth nodi bod y canlyniadau hyn yn wahanol i'r rheini ar gyfer effaith gronol y diwygiadau lles (gweler tudalen 70).

---

<sup>41</sup> Mae'n bwysig nodi bod y samplau ar gyfer pobl nad ydynt yn wyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil i effaith y diwygiadau lles ar gymhellion i weithio (Adam a Phillips, 2013) yn fach (e.e. 110 o bobl nad ydynt yn wyn mewn rhai achosion) sydd felly'n effeithio ar ei chadernid ac yn ei gwneud hi'n anodd gwneud llawer o ddatgrynhoi er mwyn ceisio egluro'r gwahaniaethau mewn canlyniadau.

## Cyfraddau derbyn

Mae ymchwil gan Salway et al. (2007) yn awgrymu bod rhwystrau sylweddol i hawlio budd-daliadau presennol sy'n gysylltiedig â salwch, gyda'r rhwystrau hyd yn oed yn fwy ymhlith y grwpiau lleiafrifoedd ethnig a ystyriwyd (Pacistanaid, Bangladeshaid a Du Affricanaid). Ymhlith ffactorau eraill, roedd yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth o'r ffordd y mae systemau'r llywodraeth yn gweithio (e.e. prosesau hawlio cymhleth a newidiol), mynediad cyfyngedig i wybodaeth a chymorth arbenigol er mwyn negodi'r system gymhleth, sgiliau Saesneg cyfyngedig a lefelau isel o lythrennedd yn rhwystrau sylweddol i rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig (Salway, 2007; Ipsos Mori, 2010). Ymddengys fod cydberthynas chwith rhwng cymhlethdod a chyfraddau derbyn oherwydd ymddengys fod anawsterau o'r fath wedi arwain at gyfraddau derbyn budd-daliadau a chredydau treth is ymhlith rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, mae gwaith dadansoddi gan Salway et al. (2007) yn dangos, o gymharu ag ymatebwyr gwyn Prydeinig â statws ieched ac economaidd gymdeithasol cymaradwy, roedd y rheini o gefndir Pacistanaid, Bangladeshaid a Du Affricanaid yn llawer llai tebygol o gael LBA. Mae Ipsos Mori (2010) hefyd yn nodi bod data CThEM a data arall yn dangos bod y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau'r llywodraeth (gan gynnwys credydau treth) yn is ymhlith rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Un o nodau CC yw creu un budd-dal integredig ar gyfer y rhan fwyaf o brif fudd-daliadau oedran gweithio sy'n gysylltiedig ag incwm lle mae dyfarniadau yn cynnwys yr holl elfennau y mae cartref yn gymwys i'w cael (mae hyn yn debygol o leihau'r broblem o dan y system bresennol lle gall pobl hawlio un budd-dal heb fod yn ymwybodol y gallant hefyd hawlio rhai eraill). Felly, gallai pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (ac eraill) sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio'r system budd-daliadau bresennol ar hyn o bryd gael budd o'r system symlach ac awtomataidd yr anelir ati o dan CC.

## Amodoldeb

Bydd gofynion priodol sy'n canolbwyntio ar waith yn cwmpasu ystod ehangach o hawlwr o dan CC. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn amcangyfrif y bydd tua 15 y cant o'r partneriaid y bydd y gofynion diwygiedig hyn o ran amodau yn effeithio arnynt yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) yn disgwyl i'r broses o ehangu'r disgwyliadau hyn sy'n ymwneud â gwaith helpu i leihau'r bwch mewn cyflogaeth<sup>42</sup> rhwng gwahanol grwpiau ethnig ac y bydd unrhyw ofynion bob amser yn ystyried cymorth, gan gynnwys anghenion ieithyddol penodol.

## Mynediad ar-lein

Yn ôl Whitfield et al. (2010) prin yw'r gwahaniaeth rhwng pobl o leiafrifoedd ethnig a phoblogaeth gyfan y DU o ran y defnydd o dechnoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, bydd rhai achosion lle bydd materion ieithyddol yn peri

---

<sup>42</sup> Cyfraddau cyflogaeth 16–64 oed: gwyn 70 y cant, nad ydynt yn wyn 64 y cant (Ffynhonnell: ABB Cymru, 2011).

problemau posibl o ran defnyddio gwasanaethau digidol tra bod yn well gan eraill gyswllt wyneb yn wyneb. Yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012), bydd yn parhau i gynnig gwasanaethau cyfieithu (e.e. thebigword) i gwsmeriaid sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol.

### **Cap ar fudd-dal cartrefi**

Ym mis Ebrill 2013, diweddarodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013e) ei hamcangyfrifon ar gyfer nifer y cartrefi y gallai'r cap ar fudd-dal effeithio arnynt o bosibl er mwyn adlewyrchu newidiadau polisi a llwyth achos a hefyd welliannau methodolegol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau bellach yn amcangyfrif y bydd tua 1,100 o gartrefi yn teimlo effaith yng Nghymru gyda'u budd-dal yn lleihau £68<sup>43</sup> ar gyfartaledd.

Ar lefel Prydain Fawr, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) yn amcangyfrif y canlynol: bydd gan tua 52 y cant o'r cartrefi yr effeithir arnynt bedwar neu fwy o blant; bydd gan tua 38 y cant rhwng un a thri o blant; ac ni fydd gan tua 11 y cant unrhyw blant.

Mae cartrefi â theuluoedd mawr yn fwy cyffredin mewn rhai lleiafrifoedd ethnig ac felly mae'r mesur hwn yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Er enghraifft, yn ôl SYG (2005) mae cartrefi Asiaidd yn fwy na chartrefi unrhyw grŵp ethnig arall ar gyfartaledd. Cartrefi ag unigolyn o Fangladesh yn bennaeth oedd y mwyaf (4.5 o bobl ar gyfartaledd), ac yna gartrefi Pacistanaidd (4.1 o bobl) a chartrefi Indiaidd (3.3 o bobl). Ymhlith pobl wyn Wyddelig y cafwyd y cartrefi lleiaf (2.1 o bobl ar gyfartaledd). Cartrefi Du Caribiaidd a gwyn Prydeinig oedd nesaf (2.3 o bobl ar gyfartaledd). Mae gan y grwpiau hyn strwythur oedran hŷn na grwpiau ethnig eraill, ac maent yn cynnwys cyfran uwch o gartrefi un person.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) yn amcangyfrif y bydd 40 y cant o'r cartrefi y mae'r cap yn effeithio arnynt (lefel Prydain Fawr) yn cynnwys rhywun o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ganran gyfatebol ar gyfer Cymru yn debygol o fod yn is o ystyried bod llai o'r boblogaeth o oedran gweithio yn dod o gefndir nad yw'n wyn (4 y cant o gymharu ag 11 y cant).

### **LBA, TAB a LGof**

Ar hyn o bryd, nid yw system talu budd-daliadau'r DU yn cofnodi cenedligrwydd nac ethnigrwydd hawlwy'r LBA neu LGof. Fodd bynnag, mae data AAT (2007–2008, 2008–2009 a 2009–10) yn ddefnyddiol o ran rhoi syniad. Dengys fod 93 y cant o dderbynwyr LBA/LGof yn y DU yn dod o gefndir gwyn. Mae'r gyfran hon ychydig yn fwy na'r boblogaeth gyfan (91 y cant) sy'n awgrymu y gall y broses o gyflwyno TAB effeithio ar y grŵp hwn yn fwy.

---

<sup>43</sup> Cafwyd amcangyfrif Cymru drwy e-bost gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## **Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol i'r rheini yn y GGGG**

Dengys Tabl 21 (tudalen 89) fod 85 y cant o dderbynwyr yn y GGGG sy'n hawlio LCCh cyfrannol yn unig neu LCCh incwm a chyfrannol yng Nghymru yn wyn, sy'n uwch nag ar gyfer holl hawlwy LCCh (75 y cant). Fodd bynnag, oherwydd y nifer fawr o rai anhysbys, mae'n ddefnyddiol edrych ar ffynonellau data perthnasol eraill. Dengys data AAT (2006/07, 2007/08, 2008/09) ar gyfer Prydain Fawr fod 7 y cant o hawlwy BA yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n gyfran is nag yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol (11 y cant). Mae hyn yn awgrymu bod hawlwy gwyn yn fwy tebygol o deimlo effaith na phobl mewn grwpiau ethnig eraill (heblaw am y rheini o grwpiau ethnig cymysg).

Mae gwaith dadansoddi dynodol<sup>44</sup> gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) hefyd yn dangos na fydd cyfran uwch o dderbynwyr gwyn (40 y cant o gymharu â 22 y cant ar gyfer lleiafrifoedd ethnig) yn gymwys i gael LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm (am fod ganddynt bartner sy'n gweithio neu gyfalaf dros £16,000). Ar gyfartaledd, bydd derbynwyr gwyn yn colli £36 yr wythnos mewn incwm o gymharu â cholled gyfartalog o £32 yr wythnos ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

### **Dileu amodau cymhwysio YG 'ieuenctid' LCCh consesiynol**

Er y bydd dileu darpariaethau 'ieuenctid' LCCh yn gymwys i bob hil yn yr un modd, mae risg y gwelir mwy o effaith ar dderbynwyr gwyn o ystyried bod tystiolaeth arolwg yn awgrymu bod cyfran uwch o bobl wyn yn cael BA (93 y cant) nag yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol (89 y cant)<sup>45</sup>.

Ar y cyfan, ceir mwy o bobl ddi-waith mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig na'r rhan fwyaf o'r boblogaeth<sup>46</sup>. Fodd bynnag, mae tystiolaeth arolwg yn awgrymu bod y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (ar wahân i'r rheini o grwpiau ethnig cymysg) yn llai tebygol o hawlio BA na phobl wyn (Adran Gwaith a Phensiynau, 2011h). Gall hyn helpu i egluro'r gyfran isel o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n hawlio LCCh cyfrannol.

### **Newidiadau i BP**

Nid yw CThEM wedi nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar y grŵp hwn o ganlyniad i roi'r gorau i dalu BP i deuluoedd sy'n cynnwys rhywun sy'n ennill mwy na £50,000.

---

<sup>44</sup> Noder: dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau oherwydd meintiau sampl bach rhai grwpiau.

<sup>45</sup> Ni chaiff data ei gyhoeddi ar gyfer cwsmeriaid 'ieuenctid' BA/LCCh yn benodol felly mae'r gyfran a nodir yn ymwneud ag ethnigrwydd pawb sy'n hawlio BA ym Mhrydain Fawr.

<sup>46</sup> SAG (2008) *Increasing employment rates for ethnic minorities*.

## CDG (2013–14)

O ganlyniad i'r boblogaeth lleiafrifoedd ethnig fach yng Nghymru<sup>47</sup>, nid oes modd dadansoddi hawl wyr BDG yn ôl grŵp ethnig er mwyn asesu pa grwpiau a all fod yn fwy tebygol o gael budd o'r £22 miliwn ychwanegol o CDG a gaiff ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn 2013-14. Fodd bynnag, mae cryn orgyffwrdd rhwng derbynwyr BDG a BT. Dengys data'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013c) ar gyfer hawl wyr BT a BDG, yng Nghymru, fod 90 y cant o gwsmeriaid BT hefyd yn cael BDG, bod 70 y cant o gwsmeriaid BDG yn cael BT, a bod 228,850 o gartrefi yng Nghymru yn hawlio'r ddau fudd-dal. Yn ei Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer BDG ym Mhrydain Fawr (Adran Gwaith a Phensiynau, 2010), dim ond gallu categorio derbynwyr BDG yn fras fel pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl wyn roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gallu ei wneud.

Yn gyffredinol, mae 10 y cant o'r tenantiaid a gaiff BT yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig, sy'n unol â'r boblogaeth o oedran gweithio gyfan ym Mhrydain Fawr. Mae'r ganran hon yn amrywio o 7 y cant o lwyth achos BT sy'n gymwys o dan faen prawf maint 'un ystafell wely' i 37 y cant ymhlith y rheini sy'n gymwys i 'bum ystafell wely neu fwy' (h.y. wrth i faint y tŷ gynyddu mae cyfran y derbynwyr BT sy'n dod o grŵp ethnig hefyd yn cynyddu).

Mae data'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012f) hefyd yn dangos bod unigolion sy'n byw mewn cartrefi lle mae rhywun o leiafrif ethnig yn bennaeth yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi incwm isel ac felly fod yn gymwys i gael BDG<sup>48</sup>. Mae hyn yn arbennig o wir am gartrefi lle mae rhywun o darddiad ethnig Pacistanaid neu Fagladeshaidd sy'n bennaeth<sup>49</sup>. Y rheswm tebygol dros hyn yw bod unigolion mewn cartrefi di-waith yn wynebu risg uchel iawn o fyw mewn tloedi ac mae cyfraddau cyflogaeth yn amrywio yn ôl ethnigrwydd, gyda chyfraddau uchel o ddiweithdra ymhlith unigolion o darddiad Pacistanaid a Bangladeshaidd<sup>50</sup>. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae rhai grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o dderbyn budd-daliadau, a fydd yn lleihau nifer yr hawl wyr BDG o'r cefndiroedd ethnig hyn, ac felly'r rheini a fyddai'n cael budd o'r arian ychwanegol yn 2013-14.

---

<sup>47</sup> Mae 96 y cant o boblogaeth Cymru yn wyn ac mae 4 y cant ohoni yn cynnwys pobl nad ydynt yn wyn. O gymharu, yn Lloegr, mae 86 y cant yn wyn ac mae 14 y cant nad ydynt yn wyn. Ffynhonnell: ABB, Ion-Rhag 2012.

<sup>48</sup> Amcangyfrifir bod gan bobl sy'n byw mewn cartrefi Du/Asiaidd yr incymau canolrifol cyfatebol isaf. Mae lefelau tloedi mewn gwaith yng Nghymru ddwywaith mor uchel mewn cartrefi Du, ac maent deirgwaith mor uchel mewn cartrefi Asiaidd o gymharu â'r lefelau mewn cartrefi gwyn (13 y cant).

<sup>49</sup> Canran yr unigolion mewn grwpiau incwm isel (o dan 60 y cant o gostau canolrifol ar ôl tai) yn ôl ethnigrwydd (DU) yn 2010/11: 20 y cant gwyn, 36 y cant cymysg, 42 y cant Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (55 y cant Pacistanaid a Bangladeshaidd), 41 y cant Du neu Ddu Prydeinig, 45 y cant Tsieineaidd neu Grŵp Ethnig Arall. Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau (2012f).

<sup>50</sup> Gweler Tabl A09 o Ystadegau'r Farchnad Lafur, Mawrth 2012, ar gael yn: [www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcn%3A77-222482](http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcn%3A77-222482) sy'n dangos gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp ethnig.

## **CG/CCD**

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, gwnaed 7,759 o geisiadau llawn i gynllun CCD yng Nghymru. Dim ond traean o hawlwyd i'r Gronfa sydd wedi rhoi gwybodaeth am eu tarddiad ethnig. O'r rhai a wnaeth hynny, roedd 95 y cant yn wyn: Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddel o Ogledd Iwerddon/Prydeinig, sy'n unol â'r gyfran yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yn gyffredinol (ABP, 2012). Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod a yw'r ymatebwyr hyn yn cynrychioli hawlwyd CCD yn gyffredinol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro dosbarthiad ceisiadau a dyfarniadau yn ôl ethnigrwydd (a nodweddion gwarchoddedig eraill) o dan y system newydd

## **CBA**

Mae tabl 44 (tudalen 101) yn cynnwys data gweinyddol ar darddiad ethnig defnyddwyr gwasanaethau CBA yng Nghymru. Gall defnyddwyr ddewis p'un a ydynt am ddatgelu gwybodaeth o'r fath ai peidio. Mae nifer fawr o ddefnyddwyr (20 y cant) wedi dewis peidio â gwneud hynny. O'r rheini sydd wedi datgelu eu cefndir ethnig, mae 98 y cant o ddefnyddwyr CBA yn wyn, sy'n unol yn fras â'r boblogaeth o oedran gweithio gyfan yng Nghymru (gwyn: 96 y cant). Mae hyn yn awgrymu nad yw'r diwygiad hwn yn debygol o gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp ethnig penodol.

## **Dileu cymhwysedd CI i rieni unigol yn seiliedig ar oedran eu plentyn ieuengaf**

Dengys data Arolwg o'r Llafurlu Cartrefi (2010, chwarter 2) ar gyfer Prydain Fawr fod y rhan fwyaf o rieni unigol â phlentyn ieuengaf rhwng pump a chwech oed yn wyn. Fodd bynnag, mae cyfran gymharol fawr (tua 17 y cant) yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig (o gymharu â 12 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol). At hynny, mae cyfraddau cyflogaeth rhieni unigol o leiafrifoedd ethnig a rhieni unigol gwyn sydd â phlentyn ieuengaf rhwng pump a chwech oed yn dra gwahanol (35 y cant o gymharu â 58 y cant yn y drefn honno), sy'n awgrymu y gall y grŵp cyntaf ei chael hi'n anos cael gwaith ar ôl colli cymhwysedd i BA.

Gall gofal plant hefyd fod yn rhwystr i waith i'r rheini o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod cefndir ethnig plant yn gysylltiedig â'u tebygolrwydd o gael gofal plant, gyda phlant o oedran ysgol o gefndiroedd gwyn Prydeinig yn fwy tebygol o gael gofal plant ffurfiol na phlant o gefndiroedd De Asiaidd (Huskinson et al. 2013). Gall fod risgiau eraill hefyd i rai rhieni unigol â Saesneg fel ail iaith oherwydd efallai na fyddant yn gallu deall manylion y system newydd na'r cyfrifoldebau cysylltiedig (Allmark et al., 2010; Stockley et al., 2010). Yn ogystal, gall rhwystrau ieithyddol danseilio siawns rhai o ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith.

## **Newidiadau i reolau oriau cymwys CTG**

Bydd y cynnydd o ran yr oriau gwaith sy'n angenrheidiol i fod yn gymwys i gael CTG yn cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd cyplau lle mae un rhiant mewn gwaith rhan-amser ac mae'r rhiant arall ddim yn gweithio. Mae hyn yn golygu y bydd effaith anghymesur ar grwpiau BME am eu bod yn cyfrif am gyfran sylweddol (36 y cant) o deuluoedd o'r fath ym Mhrydain. Mae hyn yn gyfran uwch na'r boblogaeth gyffredinol sy'n dod o leiafrif ethnig (12 y cant) (HMT, 2010).

## **Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn yr SRhC**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012d) yn amcangyfrif bod y diwygiad hwn yn llai tebygol o effeithio ar hawl wyr BME na hawl wyr gwyn, gan eu bod yn cyfrif am gyfran lai o'r rheini yr effeithir arnynt (10 y cant) o gymharu â'r gyfran yn llwyth achos BT SRhC o oedran gweithio yn gyffredinol (15 y cant). O ystyried bod cyfran uwch o hawl wyr BME o oedran gweithio yn byw mewn cartrefi â phlant a bod eu teuluoedd yn fwy o faint ar gyfartaledd, mae'n fwy tebygol yr ystyrir bod eiddo mwy yn briodol i'r cartref.

Fodd bynnag, bydd y cartrefi BME yr effeithir arnynt yn gweld mwy o golled ar gyfartaledd bob wythnos (£19) o gymharu â hawl wyr gwyn (£14). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn priodoli hyn i'r ffaith bod mwy o gartrefi BME i'w cael yn Llundain lle mae rhenti cyfartalog yn uwch na rhannau eraill o Brydain Fawr.

O ystyried bod gan Gymru gyfran lai o'r boblogaeth o oedran gweithio o gefndir lleiafrifoedd ethnig (4 y cant o gymharu ag 11 y cant ar gyfer Prydain Fawr<sup>51</sup>) a hefyd renti is ar gyfartaledd, mae cyfran y cartrefi BME yr effeithir arnynt a cholledion incwm cyfartalog ar gyfer cartrefi o'r fath yng Nghymru yn debygol o fod yn llai.

## **BT: Uwchraddio LTLI drwy MPD**

Gallai'r mesur hwn effeithio ar bawb sy'n hawlio BT yn yr SRhP y caiff eu hawliadau eu hasesu yn ôl rheolau LTLI. Felly, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011g) yn disgwyl i'r dadansoddiad o hawl wyr yn ôl ethnigrwydd y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt fod yn gyson â'r dadansoddiad o holl hawl wyr BT SRhP. Yn anffodus, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi dadansoddiad o lwyth achos BT yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd. Fodd bynnag, fel rhan o'i Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan y mesur hwn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu'r dadansoddiad hwn ar lefel Prydain Fawr (Tabl 37, tudalen 96). Dengys fod 87 y cant o'r rheini y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt yn dod o gefndir gwyn, sy'n unol â'r gyfran yn llwyth achos BT SRhP yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu na fydd effaith anghymesur ar y niferoedd o leiafrif ethnig.

---

<sup>51</sup> Data ABB ar gyfer Cymru (blwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2012); Data Arolwg Llafur Llywodraethol, 2010, chwarter 2.



## **Cynyddu trothwy oedran CLIR i 35 oed**

Ni fu'n bosibl i'r Adran Gwaith a Phensiynau (2011i) ddadansoddi'r rheini y mae ethnigrwydd yn effeithio arnynt gan nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gall data AAT (2008/09) ar ethnigrwydd rhentwyr preifat gael ei ddefnyddio fel procsi o effeithiau'r polisi hwn.

Dengys fod 79 y cant o rentwyr preifat sengl heb blant rhwng 25 a 34 oed yn wyn, sy'n unol â chyfran y rhentwyr preifat sengl heb blant o dan 25 oed (80 y cant) a phob rhentwr preifat (84 y cant) sy'n wyn. Mae hyn yn awgrymu na fydd unrhyw effaith anghymesur ar y niferoedd yr effeithir arnynt yn ôl ethnigrwydd.

## **Newid o BA i LCCh**

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 77,040 o bobl yng Nghymru yn hawlio BA/LAD. Yn anffodus, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi ystadegau ar gyfraddau BA yn ôl ethnigrwydd.

Rhwng mis Hydref 2008 a mis Tachwedd 2012, cafodd 103,700 AGW eu cwblhau yng Nghymru. Hefyd, cafodd 66,100 o hawliadau eu cau cyn i'r asesiad swyddogaethol cychwynnol gael ei gwblhau ac roedd 10,800 yn mynd rhagddynt. O'r rhai a gafodd eu cwblhau, roedd gan 41 y cant (neu 42,900) hawl i gael LCCh a chawsant eu rhoi naill ai yn y GGGG (27,900) neu'r Grŵp Cymorth (15,000). Fodd bynnag, cafwyd bod 59 y cant (neu 60,800) yn ffit i weithio (ac felly nid oeddent yn gymwys i gael LCCh mwyach). Nid oes dadansoddiad o ganlyniadau AGW yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd ar gael.

Ym mis Tachwedd 2012, roedd 90,880 o bobl yng Nghymru yn hawlio LCCh. Roedd tua thri chwarter o'r rhain yn wyn. Mae hyn yn llai na'r boblogaeth o oedran gweithio yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'n debygol bod y gyfran fawr o ddata ar ethnigrwydd nas datgelwyd/anhysbys yn effeithio ar y ffigur hwn. O ystyried hyn, mae'n ddefnyddiol edrych ar ffynonellau data perthnasol a mwy cyflawn eraill. Dengys data AAT (2006/07, 2007/08, 2008/09) ar gyfer Prydain Fawr fod 7 y cant o hawlwr BA yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n gyfran is nag yn y boblogaeth o oedran gweithio yn gyffredinol (11 y cant). Er, yn gyffredinol, mae gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig gyfraddau uwch o bobl nad ydynt yn gweithio na mwyafrif y boblogaeth, mae'r data arolwg hwn yn awgrymu bod y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (ar wahân i'r rheini o grwpiau ethnig cymysg) yn llai tebygol o hawlio BA o gymharu â phobl wyn. Mae hyn yn awgrymu bod hawlwr gwyn yn fwy tebygol o deimlo effaith y newidiadau na phobl mewn rhai o'r grwpiau ethnig eraill.

## **Effaith gronol y diwygiadau lles**

### **Incwm**

Nid oes dadansoddiad gan Lywodraeth y DU nac unrhyw ddadansoddiad arall ar gael ar hyn o bryd.

## Cymhellion i weithio<sup>52</sup>

Mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, y bydd y diwygiadau lles (gan gynnwys CC) yn atgyfnerthu'r cymhelliant i bobl wyn weithio, ac i'r un graddau â'r hyn a welir ar gyfer y boblogaeth gyfan. I'r gwrthwyneb, disgwylir i'r cymhelliant i bobl nad ydynt yn wyn weithio wanhau (Tabl 47, tudalen 104). Yn bwysicaf oll, y rheswm dros hyn yw bod pobl nad ydynt yn wyn yn fwy tebygol o fod â mwy o blant dibynnol na phobl wyn, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm allan o waith yn cynyddu o ganlyniad i gynnydd mewn CTP. O ganlyniad i hyn mae eu cymhelliant i weithio yn gwanhau.

I'r rheini sy'n gweithio, ar gyfartaledd, disgwylir i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn weld y cymhelliant i gynyddu eu henillion yn gwella, yn sgil gweithredu'r diwygiadau lles a ddadansodwyd. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwelliant cyfartalog ar gyfer y grŵp olaf fod rhywfaint yn llai na'r hyn a welwyd gan y grŵp blaenorol (Tabl 48, tudalen 105). Unwaith eto, mae hyn yn debygol o ddeillio o nodweddion eraill fel lefelau enillion.

---

<sup>52</sup> Mae'n bwysig nodi bod y samplau ar gyfer pobl nad ydynt yn wyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil i effaith y diwygiadau lles ar gymhellion i weithio (Adam a Phillips, 2013) yn fach (e.e. 110 o bobl nad ydynt yn wyn mewn rhai achosion) sydd felly'n effeithio ar ei chadernid ac yn ei gwneud hi'n anodd gwneud llawer o ddatgrynhai er mwyn ceisio egluro'r gwahaniaethau mewn canlyniadau.

## **Nodweddion gwarchoddedig eraill**

Yn ogystal â'r grwpiau cydraddoldeb a aseswyd uchod, mae deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol hefyd yn cwmpasu trawsrywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd/mamolaeth, priodas a phartneriaethau sifil. Gan nad yw DWP yn cadw'r wybodaeth hon ar ei system weinyddol (heblaw am wybodaeth am feichiogrwydd a mamolaeth, a gedwir lle mai dyma'r prif reswm dros analluogrwydd), nid oes modd asesu'n gywir effaith y diwygiadau lles ar y grwpiau cydraddoldeb hyn. Fodd bynnag, mae DWP yn nodi, mewn nifer o'i hasesiadau effaith, o ystyried yr hyn y mae'n ei wybod am ddylunio polisi a grwpiau cwsmeriaid, nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau andwyol ar sail unrhyw un o'r rhesymau hyn.

# Casgliadau a'r camau nesaf

## Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi asesu effeithiau posibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru. Lle bo modd, ystyriwyd effaith gronol y diwygiadau. Fodd bynnag, oherwydd gwaith dadansoddi cyfyngedig ar effeithiau o'r fath a rhai nodweddion gwarchoddedig, mae'r adroddiad hwn wedi edrych yn fanwl ar effeithiau pob diwygiad yn unigol ar bedair nodwedd warchoddedig (rhyw, pobl anabl, oedran a hil ac ethnigrwydd). Mae wedi canolbwyntio ar y niferoedd yr effeithir arnynt, colledion incwm, tlodi, cymhellion i weithio a chyflogaeth, gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith a mynediad i'r rhynggrwyd.

Mae'r system budd-daliadau yn gwahaniaethu rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl a phobl iau a phobl hŷn o ystyried bod y nodweddion hyn fel arfer yn gofyn am anghenion cymorth gwahanol. Nid yw'r un peth yn wir ar gyfer hil, rhyw ac ethnigrwydd. Felly, nid yw'r rheolau o ran budd-daliadau yn amrywio ar gyfer y grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y gall rhai grwpiau fod ar eu colled yn fwy nag eraill yn sgil y diwygiadau lles oherwydd nodweddion eraill fel incwm, lefelau sgiliau, cymwysterau, statws gwaith a strwythur y teulu.

Gydag ambell eithriad (e.e. BA/LCCh), mae'r newidiadau i fudd-daliadau a chredydau treth yn dueddol o gael effaith andwyol ar fwy o fenywod na dynion, ac mae menywod hefyd yn dueddol o fod ar eu colled fwyaf/bod ar eu hennill leiaf o ran yr effaith ar incwm. Ar y cyfan, mae cartrefi rhieni unigol nad ydynt yn gweithio, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fenywod, ymhlith y rheini sy'n gweld y colledion mwyaf o ran incwm. Fodd bynnag, disgwylir i rieni unigol gael budd o gymhelliant sylweddol uwch i weithio mwy o oriau. I'r gwrthwyneb, mae rhai menywod mewn cyplau (yn enwedig y rheini â phlant) yn fwy tebygol o fod yn ail enillwyr na dynion, ac felly gwelant lai o gymhelliant i weithio o ystyried bod CC yn canolbwyntio ar helpu i gael yr enillydd cyntaf i mewn i waith. Bydd y gofynion chwilio am waith llawer llymach o dan CC hefyd yn effeithio ar fwy o fenywod. At hynny, gall y taliad cartrefi CC unigol roi mwy o fenywod dan anfantais na dynion.

Mae newidiadau mawr wedi cael eu gwneud i fudd-daliadau anabledd a salwch eisoes ac mae mwy i ddod eleni. Disgwylir i effeithiau diwygiadau o'r fath fod yn fwy amlwg yng Nghymru na'r DU gyfan o ystyried ei dibyniaeth gymharol uchel ar y budd-daliadau hyn. Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi rhai mesurau ar waith i warchod pobl anabl drwy eithriadau a chyllid TTD uwch, bydd effeithiau sylweddol ar bobl anabl a hefyd eu gofalwyr. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, bydd y rheini sy'n cael budd-dal anabledd eu hunain neu sydd â phartner sy'n cael budd-dal anabledd yn profi gwelliant mawr yn y cymhelliant i weithio na theuluoedd nad ydynt yn cael budd-daliadau anabledd. Bydd cymhellion hefyd yn gwella'n sylweddol i'r rheini sydd eisoes yn gweithio ac yn cael budd-daliadau anabledd. Fodd bynnag, bydd y cymhellion i'r sawl sy'n

gweithio â phartner sy'n cael budd-dal anabled gynyddu eu henillion yn dirywio ar gyfartaledd.

Ar y cyfan, nid yw'r diwygiadau yn effeithio ar bensynwyr gan fod y rhan fwyaf yn gymwys i fudd-daliadau oedran gweithio. O ystyried bod rhai o'r diwygiadau yn ymwneud â throthwyon oedran yn benodol (e.e. CLIR), mae'n anochel y cânt effaith anghymesur ar rai grwpiau o oedran gweithio. Yn ogystal, mae nodweddion eraill fel incwm a mynediad i'r rhynggrwyd/defnydd o'r rhynggrwyd yn golygu y bydd rhai diwygiadau yn cael mwy o effaith ar rai grwpiau oedran. Er bod pobl hŷn o oedran gweithio yn fwy tebygol o golli incwm o dan CC na phobl iau (sy'n dueddol o weld cynnydd mewn incwm), ar y cyfan bydd y diwygiadau cyfunol yn golygu eu bod yn gweld y cymhelliant i fod mewn gwaith â thâl yn cael ei atgyfnerthu. Bydd pobl hŷn o oedran gweithio sydd eisoes yn gweithio hefyd yn profi mwy o gymhelliant i gynyddu eu henillion, er bod y gwelliant hwn yn fwy i'r rheini rhwng 25 a 54 oed. Fodd bynnag, bydd y cymhellion i'r rheini o dan 25 oed ac sydd eisoes yn gweithio gynyddu eu henillion yn dirywio.

Mae rhai o'r diwygiadau lles, fel y cap ar fudd-dal cartrefi, yn debygol o gael effaith anghymesur ar rai hawlwyd o grwpiau BME oherwydd nodweddion rhai o'r cartrefi hyn (e.e. teuluoedd mwy o faint ymhlith rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, oriau a gaiff eu gweithio, ac ati). Gall materion ieithyddol hefyd beri problemau i rai pobl o leiafrifoedd ethnig o ran defnyddio'r system CC ar-lein (e.e. ffoaduriaid a mudwyr). Er y bydd y diwygiadau yn atgyfnerthu'r cymhelliant i bobl wyn weithio, disgwylir i'r cymhelliant i bobl nad ydynt yn wyn weithio wanhaus, ar gyfartaledd. Unwaith eto, nodweddion eraill yw'r rheswm dros hyn. Mae pobl nad ydynt yn wyn yn fwy tebygol o fod â phlant dibynnol a bod yr unig enillydd mewn cwpl, ac felly maent yn perthyn i grwpiau sy'n gweld eu cymhelliant i weithio yn gwanhaus. I'r rheini sy'n gweithio, disgwylir i grwpiau gwyn a grwpiau nad ydynt yn wyn weld y cymhelliant i gynyddu eu henillion yn gwella, ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r gwelliant i grwpiau nad ydynt yn wyn yn debygol o fod yn llai, unwaith eto oherwydd nodweddion eraill fel enillion ac amgylchiadau teuluol.

Mae'r newidiadau a gaiff eu gwneud yn feichus ac yn gymhleth ac mewn rhai achosion maent yn gwrthbwyso ei gilydd o ran yr effeithiau tebygol ar incwm a chymhellion i weithio. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod achosion lle mae'r diwygiadau yn debygol o arwain at effaith anghymesur ar rai nodweddion gwarchoddedig. O ystyried y canfyddiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at dargedu ei pholisïau a chymorth i helpu i liniaru effeithiau andwyol o'r fath (lle bo modd). Cafodd enghreifftiau o ymatebion polisi o'r fath eu hamlinellu'n ddiweddar mewn Datganiad Llafar ar 21 Mai 2013<sup>53</sup>.

---

<sup>53</sup> Mae'r Datganiad Llafar a wnaed gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar gael yn: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/welfarereform/?lang=en>

## **Y camau nesaf**

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwylir i weddill ymchwil Cam 3 gynnwys yr elfennau canlynol.

- Cynnal asesiad pellach o effaith y diwygiadau lles ar lefel awdurdod lleol. Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: Ionawr 2014
- Amcangyfrif effaith diwygiadau lles penodol yng Nghymru, e.e. CC, y Rhaglen Waith a diwygiadau BT. Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: Mehefin 2014 (CC); Hydref 2014 (Rhaglen Waith). Caiff yr amserlenni ar gyfer gwneud ymchwil i ddiwygiadau BT eu hystyried yn agosach at yr amser.

Caiff gofynion ymchwil eu hystyried yn barhaus ac felly gallant newid.

## **Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Gorffennaf 2013**

## Cyfeiriadau

Adam, S a Phillips, D (2013) *Dadansoddiad ex-ante o effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cyflenwad llafur yng Nghymru*. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid [www.ifs.org.uk/publications/6586](http://www.ifs.org.uk/publications/6586)

Adam, S, a Browne, J (2012) *Reforming Council Tax Benefit: Options for Wales*. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid [www.ifs.org.uk/publications/6586](http://www.ifs.org.uk/publications/6586)

Allmark, P, Salway, S, Crisp, R, a Barley, R (2010) *Ethnic minority customers of the Pension, Disability and Carers Service: An evidence synthesis* Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 684

Browne, J, Hood, A, a Joyce, R (2013) *Child and Working-Age Poverty in Northern Ireland from 2010 to 2020*. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. [www.ifs.org.uk/publications/6668](http://www.ifs.org.uk/publications/6668)

Coleman, N a Riley, T (2012) *Lone Parent Obligations: following lone parents' journeys from benefits to work* Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 818.

CThem (2012) *Child and Working Tax Credits Statistics. Finalised Annual Awards 2010-11 Geographical Analysis*.

CThem (2013) *Child and Working Tax Credits Statistics – April 2013*

Disability Rights UK, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a Chymdeithas y Plant (2012) *Holes in the safety net: The impact of Universal Credit on disabled people and their families*

Finn, D a Gloster, R (2010) *Lone Parent Obligations: A review of recent evidence on the work-related requirements within the benefits systems of different countries*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 632

Huskinson, T, Pye, J, Medien, K, Dobie, S, Ferguson, C a Gardner, C gyda Gilby, N, Littlewood, M a D'Souza, J (2013) *Childcare and early years survey of parents 2011*. Adroddiad wedi'i lunio gan Ipsos Mori ar ran yr Adran Addysg.

Ipsos Mori (2010) *The experience of Black, Asian and Minority Ethnic communities with HMRC services: A Study Conducted for HM Revenue and Customs*. Research Report 116.

Joyce, R, a Levell, P (2011) *The impact in 2012–13 of the change to indexation policy*. A report for the Institute for Fiscal Studies. [www.ifs.org.uk/publications/5713](http://www.ifs.org.uk/publications/5713)

Llywodraeth Cymru (2012a) *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru - Dadansoddiad Cam 1*

Llywodraeth Cymru (2012b) *Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr-Mawrth 2012, Internet Results.*

Llywodraeth Cymru (2013a) *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru - Dadansoddiad Cam 2*

Llywodraeth Cymru (2013b) *Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif Ganlyniadau: Ebrill 2012 – Mawrth 2013.*

SAG (2008) *Increasing employment rates for ethnic minorities*

Salway, S, Platt, L, Chowbey, P, Harriss, K, a Bayliss, E (2007) *Long-term ill health, poverty and ethnicity.* Adroddiad ar ran Sefydliad Joseph Rowntree.

Stockley, R, Lawless, S a Slade, Z (2010) *Summary report on the potential causes of lower overall satisfaction from non-white customers and customers with a long-term illness or disability.* Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 568.

Trysorlys EM (2010) *Overview of the impact of Spending Review 2010 on equalities*

Whitfield, G, Perren, K, Stuart, D, a Norris, M (2010) *Literature review to inform the future digitalisation of Jobcentre Plus Service Delivery.* Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 679.

Y Gronfa Byw'n Annibynnol (2013) *User Profile Analysis: Results up to quarter ending March 2013*

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2005) *Focus on Ethnicity and Identity, Summary Report.*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2010a) *Retrospective equality impact assessment for Housing Benefit and Council Tax Benefit – Impact Assessment.*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2010b) *ESA: WCA by Health Condition and Functional Impairment: Hydref 2010.*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) *Welfare Reform Bill Universal Credit – Equality impact assessment. Tachwedd 2011*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011b) *Universal credit Policy Briefing Note 1 – Additions for longer durations on Universal Credit*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011d) *Locally delivered support to replace Social Fund Community Care Grants and Crisis Loans for general living expenses – Equality Impact Assessment.*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011e) *Time limiting contributory Employment and Support Allowance to one year for those in the work-related activity group – Equality Impact Assessment.*



Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011g) Housing Benefit: Up-rating Local Housing Allowance by the Consumer Price Index – Determination of Appropriate Maximum Housing Benefit in the Private Rented Sector – Equality Impact Assessment.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011f) Removing Income Support eligibility for lone parents with a youngest child aged five or over – Equality Impact Assessment.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011h) Abolition of concessionary Employment and Support Allowance (ESA) 'youth' National Insurance qualification conditions – Impact Assessment.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011i) Housing Benefit equality impact assessment – Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) Benefit Cap – Equality Impact Assessment.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012b) *The Government's response to the consultation on the Personal Independence Payment assessment criteria and regulations*

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012c) Disability Living Allowance Reform– Equality Impact Assessment.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012d) Housing Benefit: Size Criteria for People Renting in the Social Rented Sector – Equality Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) Universal Credit – Impact Assessment

